# 2023/24

## ADRODDIAD HUNANASESU

ADOLYGIAD BLYNYDDOL O BERFFORMIAD AC AMCANION LLESIANT



GOLUD·GWLAD·RHYDDID

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Caru · Love Ceredigion



# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad gan Arweinydd y Cyngor | 2 |
| Am Geredigion | 4 |
| Y Cyngor | 5 |
| Cefndir i Hunanasesiad 2023-24 | 7 |
| Crynodeb o Berfformiad 2023-24 | 8 |
| Cynllun Gweithredu'r Hunanasesiad: Cyfleoedd i Wella | 13 |
| Beth yw Hunanasesiad? | 19 |
| Sut yr ydym yn cynnal Hunanasesiad | 20 |
| Hunanasesiad yn Ein Fframwaith Rheoli Perfformiad | 21 |
| Rheoli ein Perfformiad | 22 |
| Asesiad Seiliedig ar Dystiolaeth | 23 |
| Dysgu o Ymgynghori ac Ymgysylltu | 25 |
| Adolygiad o'n Hamcanion Llesiant | 35 |
| Cyfraniad at y Nodau Llesiant Cenedlaethol | 51 |
| Yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy | 53 |
| Uno ein Dogfennau: Cysylltiadau i Adnoddau Allweddol | 54 |
| Ciplun o Gwasanaethau Ceredigion yn 2023/24 | 57 |
| Ble wnaethom ni Blaenoriaethu ein Cyllideb yn 2023/24? | 58 |
| Ein Perfformiad 2023/24 | 59 |


Llun: Beicio yn Mynyddoedd Cambria


Cymeradwywyd gan y Cabinet: 7-1-2025

Cynhyrchwyd y ddogfen hon gan ddefnyddio adnoddau o Freepik.com, tudalennau 35, 39 & 43. (www.Freepik.com)

# CYFLWYNIAD

## Gan Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion

Croeso i Adroddiad Hunanasesu diweddaraf Cyngor Sir Ceredigion. Mae'r adroddiad hwn yn adolygu ein perfformiad cyffredinol a'n cynnydd tuag at gyflawni ein Hamcanion Llesiant Corfforaethol yn 2023/24.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi bwrw ymlaen i gyflawni ein hymrwymiadau yn ein Strategaeth Gorfforaethol ac mae'n bleser gennyf adrodd bod cynnydd rhagorol wedi cael ei sicrhau.

Er enghraifft, rhyddhawyd rhan gyntaf cyllid Twf Canolbarth Cymru, sy'n werth £4 miliwn, er mwyn helpu i ddatgloi potensial yr economi leol, gwella ffyniant rhanbarthol a chreu cyfleoedd i bobl leol.

Agorwyd Canolfan Lles Llanbedr Pont Steffan ym mis Medi 2023, sy'n darparu gwasanaethau i wella iechyd meddyliol, cymdeithasol a chorfforol unigolion, i gyd dan un to.

Mae'r Cynllun Tai Cymunedol arloesol, sy'n cynorthwyo pobl gyda thai fforddiadwy yn eu cymunedau lleol trwy greu llwybrau i berchentyaeth, bellach yn weithredol.

Roedd trosglwyddo Cartref Gofal Hafan y Waun i berchnogaeth y Cyngor ym mis Tachwedd 2023 yn sicrhau bod yr adnodd gwerthfawr hwn yn parhau yn y Sir ar gyfer ein poblogaeth hŷn.

Mae'r gwaith ar gynllun amddiffyn yr arfordir £32m yn Aberaeron wedi cychwyn, fydd yn diogelu'r dref a'r arfordir cyfagos o lefel y môr yn codi, lleihau risgiau llifogydd ac erydiad arfordirol.

Mae'r gwaith wedi cychwyn i adeiladu Ysgol Dyffryn Aeron, a fydd yn costio £16.3 miliwn ac a fydd yn cynnig addysg cyfrwng Cymraeg i 240 o ddisgyblion, gan gyfoethogi'r profiad dysgu ac addysgu yn yr ardal leol.

Rydym hefyd yn falch o adrodd ein bod yn darparu prydau ysgol am ddim i bob disgybl ym Mlwyddyn 6 ac iau. Wrth i ni argraffu'r ddogfen yma, mae canlyniadau ein harchwiliad Estyn o Wasanaethau Addysg wedi'i dderbyn. Roedd yr archwiliad yn ganmoliaethus o'r gwasanaeth ac yn amlygu nifer o ardaloedd o arfer da gan gynnwys arweinyddiaeth, cydweithio a hybu'r iaith Gymraeg.

Yn ogystal, rydym yn parhau i fuddsoddi mewn ffyrdd newydd o weithio a thechnoleg newydd i drawsnewid y ffordd y darparir gwasanaethau i'n cwsmeriaid. Diben hyn yw sicrhau eu bod yn bodloni'r galw cynyddol, eu bod yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol, a'u bod yn cynnig profiad estynedig i'n cwsmeriaid.

Er enghraifft, mae gwaith yn parhau i gyflwyno'r Rhaglen Gydol Oes a Llesiant, sy'n trawsnewid y broses o ddarparu gofal cymdeithasol yng Ngheredigion. Mae'r Rhaglen yn canolbwyntio ar weithgarwch arall, ymyrryd yn gynnar er mwyn helpu i gysylltu pobl gyda'r cymunedau a'r cyfleusterau o'u cwmpas, datblygu cydnerthedd unigolion a theuluoedd ac atal problemau rhag gwaethygu.

Lansiom ddau wasanaeth newydd hefyd i wella gweithgarwch cyfathrebu a rhyngweithio gyda chi.

Mae gwasanaeth 'Fy Nghyfrif' yn golygu bod gan breswylwyr ffordd gyfleus a hwylus o ryngweithio â'r Cyngor pryd bynnag y byddant yn dymuno nawr.

Yn ogystal, gall tanysgrifwyr 'FyNghyfrif' ddewis cael Cylchlythyr newydd sy'n hyrwyddo amrediad y gwasanaethau yr ydym yn eu cynnig, darparu gwybodaeth ddefnyddiol, a rhannu straeon newyddion gyda chi.

Fodd bynnag, fel pob awdurdod lleol, mae heriau yn ogystal â chyfleoedd o'n blaenau. Mae'r darlun ariannol yn hynod o heriol, ac er ein bod yn parhau i archwilio ffyrdd arloesol o ddarparu gwasanaethau, bydd yn rhaid gwneud rhai penderfyniadau anodd iawn yn y dyfodol.



**Cynghorydd Bryan Davies**

Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion

Nid yw hunanasesu yn rhywbeth newydd i Geredigion. Rydym wedi bod yn ei ddefnyddio ers cryn amser fel offeryn dysgu i fyfyrio am y ffordd yr ydym yn gwneud pethau nawr, a sut y gallwn gyflawni gwelliannau neu gynnig mwy o effeithlonrwydd.

Mawr obeithiwn y byddwch o'r farn bod yr adroddiad hwn yn ddiddorol ac yn ffordd ddefnyddiol o gadw mewn cysylltiad ar ein taith i wella perfformiad.

# Ein Sir Mewn Rhifau

**73,050**
pobl

**47**
mlwydd oedoedran cyfartalog

**22%**
gydag anabledd

**4%**
o leiafrif ethnig

**7,845**
myfyrwyr prifysgol

**43**
ysgol a 9,460 disgybl

**4**
Canolfannau hamdden y Cyngor

**30,893**
aelwyd

**2,265km**
o ffyrdd

**2,500km**
o lwybrau ceffyl a lwybrau cerdded

**2,810**
mentrau gweithredol

**45.3%**
o breswylwyr yn siarad Cymraeg

**18.4%**
mewn amddifadedd materol

**9,300**
pobl hunan gyflogedig

**2.95m**
ymwelwyr i Geredigion y flwyddyn

**90km**
o arfordir














Llun: Traeth Aberporth

# AM GEREDIGION



**Mae Ceredigion yn 1,900km$^2$ o ran maint ac mae'n dir amaethyddol, yn rhostir ac yn goedwigoedd ar y cyfan, ac mae'r ardaloedd ucheldirol i'r dwyrain yn creu cyfran sylweddol o Fynyddoedd Cambria.**

Mae gan Geredigion amrywiaeth o dirluniau a chynefinoedd naturiol: traethau a chlogwyni arfordirol ac ucheldir agored. Mae pobl leol ac ymwelwyr yn gwerthfawrogi tirluniau ac amgylchedd naturiol y sir yn fawr.

Mae Ceredigion yn cynnwys cyfran uchel o dir a gydnabyddir am ei werth amgylcheddol uchel trwy gyfrwng dynodiadau swyddogol, gan gynnwys dwy ardal gwlypdir o bwysigrwydd rhyngwladol (aber afon Dyfi a Chors Caron); 13 Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA); tua 100 o Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), saith Gwarchodfa Natur Genedlaethol a thair Gwarchodfa Natur leol. Mae ucheldiroedd Mynyddoedd Cambria yn bwysig ar gyfer bywyd gwyllt, yn ogystal â'r 'rhostiroedd' gwlyb.

Mae gan Geredigion dros 90 cilomedr o arfordir. Mae pedair adran o arfordir Ceredigion (tua 35 cilomedr) yn Arfordir Treftadaeth dynodedig. Mae Llwybr yr Arfordir Cymru yn dilyn llwybr 60 milltir (96km) rhwng aberoedd Teifi a Dyfi. Mae Llwybr yr Arfordir yn cysylltu trefi a phentrefi ar hyd arfordir ysblennydd Bae Ceredigion.

Mae'r afonydd yn nalgylch Ceredigion yn cynnwys afonydd Rheidol, Ystwyth, Aeron a Theifi. Mae dalgylch afonydd Ceredigion yn amrywiol ac yn wahaniaethol, ac mae pob afon yn llifo trwy amrywiaeth o dirluniau, cyn cyrraedd y môr. Afon Teifi yw un o'r afonydd hiraf yn ne-orllewin Cymru, ac mae'n 122 cilomedr o hyd.

Mae'r tirluniau deniadol a'r lleoliadau anghysbell yng Ngheredigion yn cynnig sylfaen ar gyfer twristiaeth 'lles gwledig', sy'n denu twristiaid i'r ardal. Mae bron 3 miliwn o ymwelwyr â Cheredigion yn blynyddol.

Er bod yr amgylchedd wastad wedi bod yn nodwedd lles a werthfawrogir, dros y blynyddoedd diwethaf, mae diogelu'r amgylchedd wedi dod yn rhywbeth llawer pwysicach i bobl. Mae effeithiau andwyol newid hinsawdd ar yr amgylchedd a natur yn cael eu cydnabod yn llawer mwy ac mae pobl eisiau gwneud mwy i warchod ein hamgylchedd. Yn 2020, datganwyd argyfwng newid hinsawdd gan Gyngor Sir Ceredigion, a chyn hyn, roedd y Cyngor wedi ymrwymo i fod yn gyngor carbon sero net erbyn 2030.

Mae economi Ceredigion yn eithaf nodweddiadol o economi nifer o ardaloedd gwledig ac arfordirol. Mae cyfran uchel o swyddi yn y diwydiant twristiaeth (12.9%), cyfanwerthu a manwerthu (12.9%) ac iechyd dynol a gweithgareddau gwaith cymdeithasol (12.3%). Addysg yw'r sector mwyaf yn y sir, gan gyflogi tua 4,300 o bobl ac mae'n gyfrifol am tua 13.9% o'r swyddi yn y sir.

Yn wahanol i nifer o ardaloedd gwledig, mae'r sir yn cynnwys dwy brifysgol, un yn Aberystwyth a Champws Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn Llanbedr Pont Steffan, ynghyd â sefydliadau cenedlaethol megis Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae'r economi wybodaeth yn gryf yng Ngheredigion ac mae ganddi 'economi werdd' sy'n tyfu, gan ganolbwyntio ar allyriadau carbon isel, defnyddio adnoddau mewn ffordd effeithlon a bod yn gynhwysol yn gymdeithasol.

Mae hunangyflogaeth yn elfen bwysig o'r economi leol, ac yn aml, mae Ceredigion yn cynnwys cyfran uchaf y bobl hunangyflogedig ar lefel genedlaethol. Mae nifer yn ffermwyr ac mae eraill yn gweithio mewn amrediad o fentrau bychain sefydledig megis trwsio a chynnal a chadw adeiladau.

Mae mwyafrif helaeth (99%) y mentrau yng Ngheredigion yn rhai maint 'micro', h.y. hyd at 9 cyflogai neu'n rhai 'bach' (10 i 49 cyflogai). Dim ond 1% o fentrau yng Ngheredigion sy'n cynnwys hanner cant o gyflogeion neu fwy. Mae cyfraddau goroesi busnesau newydd eu sefydlu yn gyson ymhlith yr uchaf yn genedlaethol, gan wneud Ceredigion yn lle gwych i ddechrau a thyfu busnes.

Ystyrir bod Ceredigion yn un o gadarnleoedd yr iaith Gymraeg, er gwaethaf y ffaith ei bod yn cynnwys poblogaeth sylweddol o fyfyrwyr. Dangosodd canlyniadau o Gyfrifiad 2021 bod 45.3% o breswylwyr Ceredigion yn gallu siarad yr iaith Gymraeg, y drydedd ganran uchaf o blith yr holl awdurdodau lleol eraill yng Nghymru.

Ceir 43 o ysgolion yng Ngheredigion, y maent yn gymysgedd o ysgolion cynradd, uwchradd a phob oed. Mae 37 yn ysgolion cyfrwng Cymraeg, sy'n golygu bod mwyafrif ein poblogaeth iau yn dysgu ac yn defnyddio'r Gymraeg o oedran ifanc.

Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Ceredigion 2022-32 yn anelu at sicrhau bod holl ddisgyblion ysgolion yr awdurdod yn mynychu addysg trochfa cyfrwng Cymraeg hyd at saith oed ac yn cynyddu dewis y disgybl i ddilyn llwybr cwbl ddwyieithog drwy ei yrfa ac yn ei bywyd cymdeithasol yn y dyfodol. Mae hefyd yn cyfrannu at nod llesiant cenedlaethol Cymru a nod Llywodraeth Cymru o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i 1 miliwn erbyn 2050.

Mae Ceredigion yn sir sy'n adnabyddus am ei safleoedd diwylliannol a threftadaeth. Mae yna hefyd nifer o draethau, yn cynnwys pedwar sydd efo Gwobr Banner Glas, sydd yn denu nifer o dwristiaid i'r ardal trwy gydol y flwyddyn.




Siambr y Cyngor, Penmorfa

# Y CYNGOR

Yn yr etholiadau lleol ym mis Mai 2022, dychwelodd trigolion Ceredigion 38 o gynghorwyr mewn 34 o wardiau ar draws y Sir. Ym mis Mawrth 2023, mae'r weinyddiaeth newydd yn fwyafrif Plaid Cymru gyda 20 o gynghorwyr, ynghyd â 9 aelod annibynnol, 7 o Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru a 2 heb eu grwpio.

Arweinydd y Cyngor yw'r Cynghorydd Bryan Davies a'r Cynghorydd Keiith Evans yw Cadeirydd presennol y Cyngor.

Mae Ceredigion yn buddsoddi mewn technoleg newydd i trawsffurfio'r fyrdd mae gwasanaethau yn cael ei darparu i'n cwsmeriaid. Mae hyn er mwyn sicrhau ei bod yn cwrdd â'r galw sy'n tyfu ac yn gynaliadwy yn y dyfodol, mae hefyd er mwyn darparu profiad gwell i'n cwsmeriaid.

Mae'r Rhaglen Llesiant Gydol Oed sydd yn trawsffurfio gofal cymdeithasol a'r Canolfan Cyswllt Cwsmer, 'CLIC' yn ddwy enghraifft dda o hyn.

Rydym yn gweithredu mewn amgylchedd heriol gyda pwysau ariannol sy'n cynyddu. Er mwyn cyflawni ein Hamcanion Llesiant Corfforaethol tra'n cynnal gwasanaethau effeithiol ac effeithlon, rhaid i daith ein gweithlu fod yn un o adolygu a newid parhaus. Mae'n hanfodol ein bod yn cynnal dull arloesol ac ystwyth, yn agored ac yn wydn i newid, gyda'r sgiliau i gefnogi ffyrdd callach o weithio mewn byd digidol.

## CYNGOR SIR CEREDIGION

STRWYTHUR RHEOLAETH:

**EIFION EVANS**
Prif Weithredwr

**BARRY REES**
Cyfarwyddwr Corfforaethol


| ELEN JAMES | GWAG | ELIN PRYSOR | DUNCAN HALL | ALUN WILLIAMS | RHODRI LLWYD | RUSSELL HUGHES-PICKERING |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Swyddog Arweiniol Corfforaethol | Swyddog Arweiniol Corfforaethol | Swyddog Arweiniol Corfforaethol | Swyddog Arweiniol Corfforaethol | Swyddog Arweiniol Corfforaethol | Swyddog Arweiniol Corfforaethol | Swyddog Arweiniol Corfforaethol |
| Dysgu Gydol Oes a Diwylliant | Ysgolion | Cyfreithiol a Llywodraethu | Cyllid & Chaffael | Polisi, Perfformiad & Diogelu'r Cyhoedd | Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol | Economi & Adfywio |

Ein nod yw gwella effeithlonrwydd ein prosesau a systemau mewnol, gan ein galluogi i fesur ein perfformiad yn effeithiol.

Mae'r Cyngor yn cyflogi cyfanswm o 3,462 o staff gan gynnwys staff ysgolion. Ein nod yw eiriol dros, ac adeiladu ar, ein hethos 'Tîm Ceredigion' Hyrwyddo ein hymdeimlad o berthyn, cysylltiad a phwrpas cyffredin. Rydym yn dyheu am bob aelod Tîm Ceredigion i ymfalchïo yn y gwaith y maent yn ei wneud, ac i gydnabod arwyddocâd eu cyfraniad i lwyddiant cyffredinol y Cyngor.

Mae'r Sir yn cynnwys tair ardal ddaearyddol sy'n cwmpasu gogledd, canol a de'r Sir. Mae gwasanaethau'r Cyngor wedi'u halinio â'r tri maes hyn i gynorthwyo â datblygu'r gweithlu a sicrhau cysondeb a thegwch wrth ddarparu gwasanaethau ar draws y Sir.

▶




## RYDYM YN UN TÎM: TÎM CEREDIGION

Mae'r dull Un Tîm yn rhan o diwylliant y Cyngor ac mae'n ammatod i'r ffyrdd newydd o weithio

Mae Un Tîm yn cefnogi'r Hunanasesiad wrth hwyluso cyd-weithio, meddwl cysylltiedig â chefnogaeth ar draws y gwasanaeth er mwyn cyflawni ein nodau Llesiant Corfforaethol a gwella canlyniadau i bobl leol a rhanddeiliaid

**JAMES STARBUCK**
Cyfarwyddwr Corfforaethol

**DONNA PRITCHARD**
Swyddog Arweiniol Corfforaethol
Porth Gofal
(Ymyrraeth wedi'i thargedu)

**GREG JONES**
Swyddog Arweiniol Corfforaethol Dros Dro, Porth Cynnal a Chyfarwyddwr Statudol Dros Dro y Gwasanaethau Cymdeithasol

**AUDREY SOMERTON-EDWARDS**
Swyddog Arweiniol Corfforaethol Dros Dro, Porth Cynnal (Gwasanaethau Arbenigol Gydol Oes) Chyfarwyddwr Statudol Dros Dro y Gwasanaethau Cymdeithasol

**ALAN MORRIS**
Swyddog Arweiniol Corfforaethol
Cyswllt Cwsmer, TGCh a Digidol

**LOWRI EDWARDS**
Swyddog Arweiniol Corfforaethol
Gwasanaethau Democrataidd

**GERAINT EDWARDS**
Swyddog Arweiniol Corfforaethol
Pobl & Trefniadaeth

# CEFNDIR I HUNANASESIAD 2023-24

Dyma trydydd Adroddiad Hunanasesu Cyngor Sir Ceredigion, sydd yn adolygu'r flwyddyn 2023/24. Rydym wedi dysgu llawer ers dechrau gweithredu'r drefn hunanasesu perfformiad llywodraeth leol newydd a ddaeth i rym yn sgil Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Yn ystod gaeaf 2023 aethom ati i adolygu ein dulliau hunanasesu a gwneud nifer o fân addasiadau i'r broses. Roedd hyn yn cynnwys cynhyrchu pac data mwy manwl o'r adolygiad o dystiolaeth, parhau'r gweithdai ychwanegol y Grŵp Arweiniol i adolygu sgoriau cyn cyhoeddi a darparu mwy o fanylder ar yr ymgynghoriadau a waned i gefnogi'r Hunanasesiad a sut mae'r ymgynghoriad yma yn cael ei defnyddio i gyfarwyddo penderfyniadau'r Cyngor.

Bwriad yr adolygiad oedd mireinio'r proses yn seiliedig ar ein profiadau yn y blynyddoedd blaenorol. Byddwn yn parhau i adolygu'r ffordd yr ydym yn cynnal hunanasesiad, yn flynyddol.

Roedd yr adolygiad wedi cydnabod bod y broses Hunanasesu yn parhau i ymwreiddio yn y sefydliad, mae hyder y Cyngor wrth ddefnyddio'r proses yn tyfu ac yn hanfodol mae'r Cyngor yn dysgu mwy am ei chryfderau, heriau a'i chyfleoedd.

Rydym wedi dysgu llawer eleni wrth lunio'r Adroddiad Hunanasesu. Mae'r ymarfer wedi dod ag amrywiaeth eang o dystiolaeth ynghyd i asesu ein perfformiad ac adolygu ein Hamcanion Llesiant Corfforaethol.

Mae wedi tynnu ein sylw at yr heriau sy'n ein hwynebu. Mae'n bwysig i ni barhau i addasu i ateb yr heriau hyn er mwyn sicrhau bod ein gwasanaethau'n gynaliadwy yn ogystal â'n bod yn nodi cyfleoedd i wella lefelau perfformiad, nodi arbedion effeithlonrwydd, neu'r ddau.

Rydym wedi adeiladu ar y ddau Adroddiad Hunanasesu cyntaf drwy gynnwys rhagor o wybodaeth am yr ymgynghori a'r ymgysylltu a wnaed yn ystod y flwyddyn, cynnwys mwy o wybodaeth am sut mae cyllid yn cael i'w gwario a chryfhau'r adran meincnodi ar ddiwedd yr adroddiad try cynnwys mwy o fanylder ar berfformiad cyffredinol y Cyngor a dolennau i ffynonellau arall i chwilio allan mwy.

Mae'r hunanasesiad yn rhoi golwg i ni ar berfformiad y sefydliad cyfan. Mae saith thema yr ydym yn asesu ein hunain yn eu herbyn, sef:

- Cyflawni ein swyddogaethau yn effeithiol
- Defnyddio ein hadnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol
- Sicrhau bod ein llywodraethu yn effeithiol
- Arloesedd a chreadigrwydd
- Cydweithio
- Cynnwys pobl
- Rheoli Risg

Mae'r themâu hyn yn deillio o gyfuniad o'r Canllawiau Statudol ar y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ynghyd â'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy. Maent yn adlewyrchu saith gweithgaredd craidd cyrff cyhoeddus fel y'u diffinnir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ar gyfer pob thema rydym yn asesu a oes gennym gynlluniau ac amcanion ar waith, a yw'r cynlluniau a'r amcanion hynny'n cael eu cyflawni ac a ydynt yn gynaliadwy dros y tymor hwy ai peidio. Mae'r rhain yn ffurfio ein Prif Lwybrau Ymholi a dyma'r ffordd yr ydym yn asesu ein perfformiad cyffredinol.

Mae'r tudalennau canlynol yn rhoi crynodeb o'r canfyddiadau a sgôr bob thema. Mae'r system sgorio a ddefnyddir yn gyson â Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor. Mae Fframwaith Llywodraethu'r Cyngor yn seiliedig ar fframwaith Cyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol CIPFA/SOLACE. Mae'n darparu graddfa Coch-Ambr-Gwyrdd i ddangos lle mae perfformiad yn dda a lle mae angen cymryd camau pellach, gweler y diagram ar y dde.

## ALLWEDD I'R ASESIAD

**DA** (gwyrdd)
Ar y cyfan fe'i hystyrir yn dda ac yn bodloni arfer orau nid oes angen unrhyw gamau pellach

**DERBYNIOL** (gwyrdd golau)
Efallai y bydd angen mân addasiadau

**BODDHAOL** (melyn)
Camau i'w cymryd (cyn diwedd y flwyddyn 9-12 mis)

**O DAN BODDHAOL** (oren)
Angen Gweithredu Brys (o fewn 3-6 mis)

**ANNERBYNIOL** (coch)
Angen gweithredu ar unwaith

# CRYNODEB O BERFFORMIAD 2023-24

## CYFLAWNI EIN SWYDDOGAETHAU MEWN FFORDD EFFEITHIOL

Cyhoeddwyd Strategaeth Gorfforaethol newydd y Cyngor ar gyfer y cyfnod rhwng 2022 a 2027 ym mis Tachwedd 2022, sy'n nodi ei weledigaeth hirdymor a'i Amcanion Llesiant Corfforaethol. Mae gan y Cyngor gyfres o strategaethau allweddol i gynorthwyo a helpu i gyflawni'r Amcanion. Mae'r rhain yn cynnwys y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, y Strategaeth Llesiant Gydol Oes, a'r Strategaeth Economaidd.

Yn ystod 2023/24, cyhoeddom Strategaeth Dai Leol, Cynllun Cydraddoldeb Strategol a Chynllun Gweithlu. Rydym yn adolygu ac yn diweddaru ein Strategaeth Caffael a Chomisiynu ar y Cyd, ein Cynllun Rheoli Asedau a'n Strategaeth Iaith Gymraeg ar hyn o bryd hefyd, a fydd yn mynd trwy'r broses ddemocrataidd i gael eu cymeradwyo yn fuan.

Mae'r cynnydd wrth gyflawni strategaethau allweddol yn parhau i fod yn dda. Yn ystod 2023/24, llwyddwyd i gyrraedd carreg filltir arwyddocaol arall, pan gafwyd cyfran gyntaf Bargen Twf Canolbarth Cymru, a oedd yn werth £4 miliwn, gan alluogi'r Fargen Twf i symud ymlaen i'r cam cyflawni. Lansiwyd Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru yn nigwyddiad 'Tyfu, Diffinio, Darparu Gyda'n Gilydd' i nodi blaenoriaethau ar gyfer buddsoddiad rhanbarthol i gynorthwyo swyddi a thwf yn rhanbarth Canolbarth Cymru.

Yn fewnol, cyhoeddwyd y Cynllun Gweithlu newydd ym mis Medi 2023, gan amlinellu dull gweithredu y Cyngor tuag at reoli ei weithlu i fodloni ei anghenion darparu gwasanaeth presennol ac yn y dyfodol. Mae hon yn ddogfen bwysig gan ei bod yn cefnogi gweithrediad trefniadau gweithio hybrid a hyblyg newydd y Cyngor, ynghyd â rhoi sylw i gynllunio ar gyfer olyniaeth a materion recriwtio a brofir ar draws rhai sectorau.

Ystyrir bod gweithgarwch gosod blaenoriaethau yn gryf yng Ngheredigion hefyd, a gwelir tystiolaeth o hyn trwy'r gwaith cadarnhaol a wneir gyda gweinyddiaeth Ceredigion i ddatblygu'r Strategaeth Gorfforaethol a chytuno ar ei Amcanion Llesiant Corfforaethol. Mae'r amcanion yn seiliedig ar weithgarwch ymgynghori ac ymchwil helaeth, gan gynnwys Asesiad Llesiant Lleol Ceredigion.

Mae amcanion y Rhaglen Llesiant Gydol Oes yn rhai enghreifftiau eraill, a gymeradwywyd ac a gryfhawyd trwy arolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Caiff canlyniadau o'r Strategaeth Gydol Oes eu cryfhau wrth i'r rhaglen barhau i gael ei gweithredu.

Ym mis Hydref 2023, cyhoeddom ein Fframwaith Rheoli Perfformiad newydd hefyd, sy'n caniatáu i ni adolygu ac olrhain ein cynnydd yn rheolaidd, edrych i weld sut yr ydym yn perfformio a sicrhau ein bod yn cyflawni'r Amcanion Llesiant Corfforaethol er mwyn gwella'r canlyniadau i bobl a chymunedau Ceredigion.


Mae rhan o hyn yn cynnwys datblygu dangosfyrddau newydd i gynnig mynediad cyflymach a haws i ddata ynghylch perfformio a meincnodi er mwyn ein helpu i asesu ein cynnydd, a chyfleu ein taith berfformio i'r cyhoedd ac i randdeiliaid. Mae hyn yn rhan o'n gweledigaeth o gael ein hysgogi yn fwy gan ddata a defnyddio dirnadaeth a gaiff ei sicrhau gan ddata er mwyn helpu i nodi cyfleoedd i wneud gwelliannau neu arbedion effeithlonrwydd.

Mae gwasanaeth 'FyNghyfrif' yn golygu bod gan breswylwyr ffordd gyfleus a hwylus o ryngweithio gyda'r Cyngor nawr, pryd bynnag y byddant yn dewis, a'r dewis o gael newyddion am amrediad y gwasanaethau a gynigir gan y Cyngor.

Ceir cydnabyddiaeth o'r ffaith bod Strategaethau y Cyngor yn cael eu llunio yn unol â'r 5 Ffordd o Weithio, sy'n cynyddu lefel eu cydnerthedd a'u cynaliadwyedd.

Mae gan y Cyngor weledigaeth uchelgeisiol ar gyfer y dyfodol, a'r asesiad cyffredinol yw bod y strategaethau sydd yn eu lle yn gynaliadwy ac yn ystyried y cyd-destun yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir.

### CRYNODEB O SGORIO YN ÔL THEMA




Fodd bynnag, fel pob awdurdod lleol, ceir heriau er mwyn cyflawni'r uchelgais hwn. Mae'r capasiti a'r adnoddau sydd ar gael yn gyfyngedig ac mae'r galw gan gwsmeriaid yn parhau i dyfu. Er bod gan y Cyngor hanes o arloesi ac o fod yn greadigol wrth ddarparu gwasanaethau a cheisio ffyrdd newydd o weithio, cydnabyddir bod rheoli disgwyliadau o wasanaethau yn bwysig hefyd wrth i ni symud ymlaen. Mae sicrhau ein bod yn diweddaru'r strategaethau hyn yn ffordd allweddol o'n helpu i gyflawni hynny trwy osod sylfeini cadarn er mwyn buddsoddi mewn technoleg newydd, canfod ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau a chynnal lefelau perfformio.

Er y bu'r cynnydd ar ein taith berfformio yn gadarnhaol iawn yn ystod y flwyddyn, rydym yn cydnabod bod cryn dipyn o waith i'w wneud o hyd, yn enwedig wrth gwblhau'r gwaith o ddiweddaru strategaethau allweddol.

Mae'r Strategaeth Caffael a Chomisiynu ar y Cyd, y Strategaeth Rheoli Asedau, a'r Strategaeth Ddigidol yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd. Mae gweithredu'r cynlluniau hyn yn cynnig sylfaen gadarn er mwyn cynnig profiad gwell i'r cwsmer trwy weithio a darparu gwasanaethau mewn ffordd wahanol.

Mae pob awdurdod lleol yn wynebu nifer o heriau ar hyn o bryd, megis y cyllid i awdurdodau lleol, recriwtio mewn meysydd megis gofal cymdeithasol, yr argyfwng costau byw a'n gwaith parhaus i fynd i'r afael â thlodi yn y Sir. Er mwyn ein helpu i liniaru'r heriau hyn, rydym yn parhau i fonitro eu heffeithiau, gan addasu ein cynlluniau gweithredu o

# CRYNODEB O BERFFORMIAD 2023-24

### CRYNODEB O SGORIO YN ÔL THEMA

A yw'r strategaethau hyn yn gynaliadwy o ran addasu i anghenion y sefydliad yn y dyfodol?




A oes gan y Cyngor strategaethau cynhwysfawr ar waith ar gyfer Cynllunio'r Gweithlu, Rheolaeth Ariannol, Caffael a Rheoli Asedau?

A yw'r strategaethau hyn yn cyflawni eu nodau a'u hamcanion datganedig ar gyfer Cynllunio'r Gweithlu, Rheolaeth Ariannol, Caffael a Rheoli Asedau?

## DEFNYDDIO EIN HADNODDAU YN DDARBODUS, YN EFFEITHLON AC YN EFFEITHIOL

Mae gan y Cyngor strategaethau ar gyfer ei weithgareddau craidd o Gynllunio’r Gweithlu, Rheolaeth Ariannol, Caffael a Rheoli Asedau. Asesir bod y sefyllfa gyffredinol yn dda, yn enwedig mewn perthynas â’r rheolaeth o sefyllfa ariannol y Cyngor.

Mae’r farn archwilio ddiamod am gyfrifon y Cyngor a’r adborth cadarnhaol gan reoleiddwyr yn y Gweithdy Rheoliadol ar y Cyd ym mis Ionawr 2024 yn dystiolaeth o hyn, a oedd wedi amlygu arweinyddiaeth strategol, cynllunio ariannol a gweithgarwch ymgysylltu cadarn aelodau etholedig yn ystod y broses o osod y gyllideb fel cryfderau.

Yn ystod y broses o osod y gyllideb ar gyfer 2023/24, gwelwyd cymeradwyaeth unfrydol gan Aelodau ar gyfer y gyllideb. At hynny, gwnaethpwyd ymdrechion aruthrol yn ystod blwyddyn 2023/24 i sicrhau’r arbedion i’r gyllideb a nodwyd ar y dechrau.

Mae hyn yn rhoi’r Cyngor mewn sefyllfa gref i gyflawni’r Strategaeth Gorfforaethol a’r Amcanion Llesiant Corfforaethol newydd.

Mae adroddiadau rheoliadol yn gadarnhaol hefyd, ac roedd arolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru yn gadarnhaol am y Rhaglen Llesiant Gydol Oes, ac nid oes unrhyw rai o ysgolion y Sir yn destun mesurau dilynol yn dilyn asesiad Estyn.

At hynny, mae’r Polisi Gweithio Hybrid a’r trefniadau gweithio gartref yn gweithio’n dda yn gyffredinol, ac mae’r Cyngor yn parhau i fonitro cynnydd ac adborth staff yn agos.

Dros y tymor hwy, llwyddwyd i sicrhau gwerth £60m ar ffurf arbedion effeithlonrwydd cronnus er 2012, o ganlyniad i weithgarwch ailstrwythuro, ailgynllunio gwasanaethau a phrosiectau trawsnewid.

Mae cydnerthedd ariannol y Cyngor yn gryfder, yn enwedig wrth asesu cynaliadwyedd gwasanaethau. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod yr heriau cyllidebol parhaus sy’n bodoli a’r effaith y gallai hynny ei chael ar gyflawni ein huchelgais. Rydym yn cydnabod hefyd bod gofyn gwneud gwaith pellach i gynyddu gwariant ac effaith y rhaglen gyfalaf gymaint ag y bo modd, ac rydym yn rhoi sylw i hyn trwy gyfrwng ein Cynllun Gweithredu Hunanasesu.

Mae’r gwaith yn parhau hefyd i ymateb i Adolygiad Gwasanaeth Cynllunio Archwilio Cymru, er bod eu hadroddiad dilynol ym mis Awst 2023 yn nodi y llwyddwyd i sicrhau cynnydd da wrth roi sylw i’r materion a godwyd yn ystod yr adolygiad gwreiddiol.

## SICRHAU BOD EIN LLYWODRAETHU YN EFFEITHIOL

Yn gyffredinol, mae’r dystiolaeth yn dangos bod trefniadau llywodraethu y Cyngor yn gadarn ac yn cynorthwyo gwaith y Cyngor wrth gyflawni ei Amcanion Llesiant Corfforaethol a gwella’r canlyniadau i breswylwyr. Mae’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, y Fframwaith Llywodraethu a’r Cod Llywodraethu Lleol yn eu lle ac mae’r perthnasoedd gyda rheoleiddwyr yn gynhyrchiol.

Mae adroddiadau rheoleiddwyr mewnol ac allanol yn dangos tystiolaeth o hyn. Er enghraifft, mae’r Adolygiad Fframwaith Llywodraethu mwyaf diweddar a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2024 yn cynnig sicrwydd sylweddol bod system gadarn o weithgarwch craffu a chadernid yn ei lle.

Cymeradwywyd y Fframwaith Llywodraethu newydd gan y Cyngor ym mis Mawrth 2024 hefyd, ac mae’n disodli’r Cod Llywodraethu Corfforaethol. Mae’r Fframwaith yn gweithredu fel dogfen gyffredinol sy’n cwmpasu trefniant llywodraethu y Cyngor, ac sy’n dangos y trefniadau sydd yn eu lle i sicrhau bod y canlyniadau bwriadedig ar gyfer yr holl randdeiliaid yn cael eu diffinio a’u cyflawni, gan sicrhau bod y Cyngor wastad yn gweithredu er budd y cyhoedd.

Cymeradwywyd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol diweddaraf ar gyfer 2022/23 gan y Cyngor ym mis Chwefror 2024 ac roedd yn cadarnhau bod trefniadau llywodraethu y Cyngor yn effeithiol ac yn addas i’r diben gyda chynnydd da yn cael ei sicrhau yn ystod y flwyddyn a chyflawniadau wedi’u cofnodi yn erbyn y saith egwyddor llywodraethu. Mae nifer o fân faterion i’w datrys yn ystod y flwyddyn ddilynol.

Mae Ceredigion yn arwain ar waith cymhleth mewn perthynas â phartneriaethau rhanbarthol ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforedig (CJC) a Thyfu Canolbarth Cymru (TCC) hefyd. Sefydlwyd Cyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru ac mae strwythurau llywodraethu yn eu lle.

## ARLOESEDD A CHREADIGRWYDD HIRDYMOR

Un o gryfderau’r Cyngor yw ei greadigrwydd a’i weithgarwch arloesi dros y tymor hir. Mae gan y Cyngor hanes o goleddu ffyrdd newydd o weithio a nodi ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau er mwyn cynnig profiad gwell i gwsmeriaid, sicrhau arbedion effeithlonrwydd, neu’r ddau.

Mae’r blynyddoedd diwethaf wedi creu cyfleoedd i ddysgu, i drawsnewid gwasanaethau ac i sicrhau newid cynaliadwy a gwelliannau. Yn ei hanfod, mae wedi caniatáu i ni ailystyried y ffordd yr ydym yn gweithio, a’i ad-drefnu mewn ffordd sy’n cynnig budd i’r cwsmer, y gweithlu ac mae’n cael llawer yn llai o effaith ar ein hamgylchedd.

Ceir enghreifftiau niferus o hyn, gan gynnwys y model gweithio hybrid newydd sy’n cynnal

lefel uchel y ddarpariaeth gwasanaeth a chan gynnig mwy o hyblygrwydd i gyflogeion ar yr un pryd wrth iddynt sicrhau cydbwysedd rhwng eu gwaith a'u bywyd gartref. Mae ein dysgu yn dangos bod gweithio hybrid wedi arwain at lefelau cynhyrchiant uwch, cydweithio gwell ac mae wedi cynnig amgylchedd gwaith mwy hyblyg er mwyn helpu i gynnal iechyd a lles y gweithlu. Cynorthwyir cynaliadwyedd y sefydliad trwy ostyngiad mewn costau a'r gwariant cyffredinol fesul cyflogai hefyd.

Mae'r Rhaglen Llesiant Gydol Oes yn parhau i drawsnewid gofal cymdeithasol yng Ngheredigion. Mae hyn yn ymateb i'r demograffeg sy'n newid yn y Sir, sydd wedi gweld cynnydd yn y galw a mwy o bwysau ariannol ar wasanaethau. Mae darparu cymorth i bobl o bob oed ac y mae ganddynt bob math o anghenion yn her arwyddocaol i'r Cyngor, sydd ag adnoddau cyfyngedig.

Mae nifer o elfennau unigol Llesiant Gydol Oes yn gweithio'n dda, er enghraifft y buddsoddiad mewn llety ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Byddwn yn parhau i fwrw ymlaen i drawsnewid y ffordd y caiff iechyd, llesiant a diogelwch pobl ei gynorthwyo yng Ngheredigion.

Er enghraifft, cynhaliwyd agoriad swyddogol Canolfan Lles Llanbedr Pont Steffan ym mis Hydref 2023 er mwyn darparu amrediad o wasanaethau i wella llesiant corfforol a meddyliol cymunedau lleol. Bydd canolfannau pellach yn agor yng ngogledd a de y sir.

Yn ystod 2023/24, symudom ymlaen hefyd wrth helpu pobl iau a phrynwyr tro cyntaf i gamu ar yr "ysgol tai" trwy gyfrwng y Cynllun Tai Cymunedol arloesol. Mae'r cynllun yn ceisio cynorthwyo pobl leol trwy greu llwybr i berchentyaeth trwy gyfrwng cynllun rhannu ecwiti. Mae Ceredigion wedi bod yn allforwr ei phoblogaeth iau i rannau eraill o'r wlad ers amser hir, a bydd y prosiect hwn yn helpu i greu cyfleoedd i bobl aros yn eu cymunedau lleol.

Darparwyd amrywiaeth o brosiectau arwyddocaol eraill yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys ymgymryd â'r cyfrifoldeb dros Gartref Gofal Hafan y Waun er mwyn sicrhau parhad y gwasanaeth hanfodol hwn, adolygu dysgu ôl-16 i nodi dewisiadau cynaliadwy ar gyfer y dyfodol, datblygu Canolfannau Plant yn y sir, datblygiad £16m Ysgol Dyffryn Aeron, cynyddu darpariaeth y cyfleusterau Anghenion Dysgu Ychwanegol ar draws y Sir a chychwyn ar y cynllun amddiffyn rhag llifogydd yn Aberaeron, sy'n werth £32m.

Ni ellir gorbwysleisio'r buddsoddiad mewn arloesi a chreadigrwydd o fewn y sefydliad, a meithrin ei ddefnydd. Rydym yn cydnabod bod manteisio ar y creadigrwydd hwn yn hanfodol i berfformiad cyffredinol y Cyngor a'r gynaliadwyedd dros y tymor hir. Mae'r Strategaeth Ariannol ar gyfer y Tymor Canolig yn amlygu'r heriau i'r Cyngor yn y dyfodol o ran cyllido. Bu'r ymateb i bandemig COVID-19 yn dda, ond bydd angen i'r Cyngor nodi meysydd pellach i ddarparu gwasanaethau amgen er mwyn sicrhau cynaliadwyedd gwasanaethau.

## CYDWEITHIO


Mae'r Cyngor yn rhagweithiol wrth ymgysylltu â phartneriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Ceir enghreifftiau da o'r mannau lle y mae'r gwaith hwn ar y cyd yn gwella canlyniadau megis trwy gyfrwng Tyfu Canolbarth Cymru, Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru, a Phartneriaeth Addysg Canolbarth Cymru.

Mae rhai enghreifftiau eraill yn cynnwys gwaith cyffredinol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ynghylch diogelu yn ein cymunedau, y bartneriaeth gyda Chwaraeon Cymru i sicrhau cyllid i gynorthwyo datblygiadau mawr a'r Grŵp Trosolwg Rhannu Risg gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Chyngor Sir Gâr a Chyngor Sir Penfro wrth ddarparu ymagwedd pob perygl tuag at ddiogelu iechyd yn ein rhanbarth.

## CRYNODEB O SGORIO YN ÔL THEMA

A yw'r Cyngor yn gweithio'n gynhyrchiol gyda'i reoleiddwyr allanol ac yn dangos cydymffurfiaeth dda?

A oes gan y Cyngor god lleol cynhwysfawr a fframwaith llywodraethu ar waith ar gyfer cynnal llywodraethu corfforaethol y sefydliad?




Pa mor effeithiol y caiff y cod a'r fframwaith llywodraethu eu cymhwyso a'u harsylwi?

A yw'r Cyngor yn croesawu arloesedd a chreadigrwydd yn ei weithgareddau ac yn gweithredu trawsnewid?

Pa mor effeithiol fu prosiectau trawsnewid y Cyngor o ran nodi a gweithredu creadigrwydd ac arloesedd ar draws y sefydliad?



# CRYNODEB O BERFFORMIAD 2023-24

Ar lefel genedlaethol, roedd y Cyngor hefyd wedi arwain ar prosiect ar ran Llywodraeth Cymru i ymchwilio i ddefnyddio'r Fframwaith Asesu Seiber (CAF) ar gyfer seilwaith cenedlaethol hollbwysig ar draws holl Awdurdodau Lleol Cymru. Mae'r Fframwaith yn helpu pobl, busnesau a gwasanaethau cyhoeddus i leihau risgiau ymosodiadau seiber a thyfu economi seiber ffyniannus

Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn canolbwyntio ar ymgysylltu â phartneriaethau sy'n cynnig budd i bobl a chymunedau Ceredigion, a lle y gwelir buddion amlwg. Mae'r Cyngor yn ymgysylltu â'r partneriaethau hyn mewn ffordd ragweithiol ac yn herio gwerth y trefniant os na, gan ganlyn trefniadau amgen yn ôl yr angen.

Enghraifft o hyn yw'r penderfyniad i dynnu'n ôl o Addysg trwy Weithio Rhanbarthol (ERW) a chanlyn trefniadau mwy effeithiol yn lle hynny trwy Bartneriaeth Addysg Canolbarth Cymru, a gaiff ei gydnabod erbyn hyn fel enghraifft o waith effeithiol mewn partneriaeth. Yn yr achosion hyn, darparir rhesymeg gadarn bob tro sy'n nodi pam nad yw er budd Ceredigion i ganlyn y trefniant partneriaeth. Caiff y dull gweithredu rhagweithiol hwn tuag at asesu gwerth cydweithio ei gydnabod fel rhywbeth hanfodol er mwyn manteisio ar effaith cydweithio gymaint ag y bo modd a gwella'r canlyniadau i bobl leol.

Mae hyn yn bwysig gan ein bod yn cydnabod maint yr heriau cyllidebol sy'n bodoli mewn llywodraeth leol ac y bydd cyfleoedd ar gyfer partneriaethau a chydweithio yn hanfodol wrth helpu i gyflawni ein huchelgais a'n cynlluniau yn y dyfodol.

## CYNNWYS POBL

Mae Strategaeth Ymgysylltu a Chyfranogi y Cyngor yn gweithredu cynlluniau i sicrhau y defnyddir y dulliau gorau i fanteisio ar ymgysylltu gymaint ag y bo modd a chyflawni dull gweithredu cyson ar draws y sefydliad. Wrth wneud hynny, mae'r Strategaeth yn helpu i sicrhau bod llais gan bob cymuned yng Ngheredigion, a'n bod yn ceisio safbwyntiau a phrofiadau y grwpiau hynny nas clywir eu lleisiau yn aml. Mae hefyd yn ychwanegu'r elfennau cyfranogi a phenderfynu newydd sy'n ofynnol dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Gwnaethpwyd gwaith sylweddol i ymwreiddio arfer gorau ymgysylltu ac ymgynghori yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae rhywfaint o'r gwaith hwn yn cynnwys cyflwyno cofrestr ymgysylltu ac ymgynghori newydd er mwyn cynllunio digwyddiadau mewn ffordd fwy effeithiol ac osgoi gorlwytho pobl gyda gweithgarwch ymgynghori, ynghyd ag adroddiad blynyddol ynghylch y cynnydd, sy'n amlinellu pa ddigwyddiadau a gynhaliwyd a sut y defnyddiwyd y canlyniadau. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd 23 o ddigwyddiadau ymgysylltu ac ymgynghori, sy'n 7 yn fwy na'r hyn a welwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol.


Datblygwyd Pecyn Cymorth Ymgysylltu ac Ymgynghori newydd hefyd ym mis Ionawr 2024 ac mae ar gael at ddefnydd yr holl staff. Mae rhestr rhanddeiliaid wedi'i diweddaru ar gael er mwyn helpu i gynyddu'r cyfraddau ymateb gymaint ag y bo modd. Yn ogystal, cymeradwywyd y Cynllun Deisebau, gan gynnwys deisebau electronig, sy'n ofyniad dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, gan y Cyngor ym mis Rhagfyr 2023.


Mae'r Cyngor yn adolygu ei phrosiectau cydweithio yn aml er mwyn asesu ei effeithlonrwydd. Mae'r adolygiad yn darparu'r cyfle i gymryd stoc, i weld os bod prosiectau yn darparu beth maen nhw fod, os maent yn statudol/angenrheidiol, os maent yn parhau i fod yn addas ac os ydynt yn peri unrhyw risg i'r Cyngor. Mae penderfyniad yn cael i'w wneud os dylai pob prosiect parhau, i'w darfod neu i'w diwygio. Cafodd yr adolygiad mwy diweddar i'w chynnal yn Fehefin 2024.

Fodd bynnag, mae rhai meysydd i'w cryfhau o hyd wrth symud ymlaen, megis sicrhau y caiff adborth ymgynghori ei ledaenu yn fwy eang ac wrth gofnodi profiadau byw ymatebwyr er mwyn cynnwys pobl yn fwy wrth wneud penderfyniadau, a'u cynorthwyo i wneud hynny.

Ail-lansiwyd y broses Asesiadau Effaith Integredig ym mis Rhagfyr 2023, gan eu gwneud yn fwy effeithiol ac yn haws eu

## CRYNODEB O SGORIO YN ÔL THEMA



cwblhau. Mae ansawdd cwblhau'r Asesiadau yn gwella o ganlyniad i system fonitro a sicrhau ansawdd gadarn.

Ceir pryderon hefyd bod nifer isel o ymatebion i rai ymgynghoriadau allweddol, a bod angen cynyddu’r niferoedd hyn er mwyn sicrhau eu bod yn arwyddocaol ar lefel ystadegol. Cydnabyddir y bydd ymgynghoriadau a gweithgarwch ymgysylltu ynghylch materion mwy cynhyrfiol wastad yn denu nifer lawer yn uwch o ymatebion, o’u cymharu ag eraill. Disgwylir i’r cam o gyflwyno’r E-Gylchlythyr newydd fel rhan o wasanaeth ‘FyNghyfrif’ helpu i annog mwy o gyswllt a nifer uwch o ymatebion.

Ceir rhai enghreifftiau da o weithgarwch ymgysylltu yn ystod 2023/24, lle y defnyddir y canlyniadau i ysgogi gwelliannau a siapio gwasanaethau. Mae’r rhain yn cynnwys ymgynghori am y Strategaeth Dai Leol, Lleihau Llifogydd a’r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Mae’r Strategaeth ei hun yn cynnwys cynllun gweithredu manwl y mae’r Cyngor yn parhau i’w gyflawni. Ni wireddwyd canlyniadau’r Cynllun yn llawn eto, ond ceir rhai camau gweithredu i’w cyflawni o hyd megis lansio Asesiadau Effaith Integredig o’r newydd a chyflwyno mesur perfformiad ynghylch ymgynghori.

Mae cynlluniau pellach yn eu lle ar gyfer y flwyddyn i ddod, sy’n cynnwys ymgynghori am y Strategaeth Iaith Gymraeg newydd, Strategaeth Ddigidol newydd a chynnal y cyntaf mewn cyfres o Arolygon Preswylwyr Cenedlaethol a ddatblygwyd gan Data Cymru. Caiff Bwrdd Dirnadaeth newydd ei sefydlu er mwyn helpu i ysgogi dealltwriaeth well o blith amrywiaeth y ffynonellau ymgynghori ac ymgysylltu sydd ar gael i ni. Bydd y cyfuniad o’r camau gweithredu hyn yn ein helpu i ddangos ein bod wedi gwrando ar ac ystyried yr adborth o weithgarwch ymgysylltu ac ymgynghori.

Yn gyffredinol, ystyrir bod gweithgarwch ymgysylltu ac ymgynghori yn dda mewn rhai meysydd, ond ceir meysydd eraill lle y mae angen gwneud gwaith pellach. Bydd y gwaith yn parhau i gyflawni cynllun gweithredu y Strategaeth Ymgysylltu a Chyfranogi dros y deuddeg mis nesaf.

## RHEOLI RISG

Mae rheolaeth y Cyngor o risg wedi datblygu’n dda dros y blynyddoedd diwethaf. Yn ystod 2023/24, cwblhawyd adolygiad llawn o Bolisi, Strategaeth a Fframwaith Rheoli Risg y Cyngor er mwyn sicrhau bod ein trefniadau wedi cael eu diweddaru a’u bod yn addas i’r diben ac yn seiliedig ar arfer gorau.

Er y canfuwyd bod y broses yn gweithio’n dda yn gyffredinol, nododd yr adolygiad nifer o welliannau penodol y mae angen eu gwneud. Yn arbennig, gwelwyd yr angen am fwy o gysondeb wrth reoli risgiau gwasanaeth, ynghyd â chryfhau’r broses o uwchgyfeirio/isgyfeirio risgiau i’r Gofrestr Risg Gorfforaethol.

Ar ôl ymgynghori gyda rhanddeiliaid allweddol ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gydag yswirwyr y Cyngor, gweithredwyd y gwelliannau hyn a chyhoeddwyd cyfres newydd o ddogfennau rheoli risg ym mis Ionawr 2024.

Yn ogystal, eglurodd y Fframwaith Rheoli Risg a ddiweddarwyd rôl Archwilio Mewnol, gan gyflwyno’r defnydd o sgoriau risg ‘targed’ er mwyn helpu i asesu effeithiolrwydd lliniaru risgiau.

Mae Cofrestr Risg Gorfforaethol y Cyngor wedi datblygu i fod yn ddogfen ‘fyw’ ac sy’n esblygu wrth i risgiau newid ac wrth i risgiau newydd ddod i’r amlwg. Caiff y Gofrestr ei diweddaru’n rheolaidd, ac mae’n cynnwys set lawn o ddiweddariadau yn gyson, a chaiff ei hadolygu’n rheolaidd gan y Grŵp Arwain a bob chwarter gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae lefel y ddealltwriaeth o risgiau unigol wedi codi gydag amser ac mae ansawdd y gweithgarwch craffu gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi gwella hefyd.

## CRYNODEB O SGORIO YN ÔL THEMA




Fel rhan o’n hymdrech i sicrhau gwelliant parhaus, yn ystod 2023/24, gweithiom gydag yswirwyr y Cyngor, Zurich, i ddarparu rhaglen o weithdai i gynorthwyo gwasanaethau wrth gryfhau’r gwaith o adnabod, lliniaru a rheoli risgiau.

## CYNLLUN GWEITHREDU’R HUNANASESIAD

Gan ymateb i’r canfyddiadau hyn, rydym wedi nodi nifer o gyfleoedd i sicrhau gwelliant. Trwy ymgynghori gyda gwasanaethau’r Cyngor ac Aelodau etholedig, mae’r cynllun gweithredu drosodd yn cynnwys y camau yr ydym yn bwriadu eu cymryd wrth ymateb i’r dysgu hwn, a chânt eu hadlewyrchu yng nghynlluniau busnes gwasanaethau hefyd.

Cyflawnir rhan fwyaf y camau gweithredu dros y deuddeg mis nesaf, ond cyflawnir rhai dros y tymor hwy a byddant yn ymestyn i’r flwyddyn ddilynol. Mae’r Cynllun Gweithredu yn cadw camau gweithredu a gwblhawyd yn flaenorol fel cofnod o’n cynnydd ar ein taith perfformiad hunanasesu. Mae’r Cynllun yn datblygu cynllun gweithredu y llynedd wrth i’n dysgu ddatblygu ac wrth i gyfleoedd newydd gael eu nodi. Bydd yr holl gamau gweithredu yn parhau i gael eu monitro nes iddynt gael eu cwblhau, fel rhan o’n trefniadau rheoli perfformiad parhaus, ac adroddir cynnydd yn yr Adroddiad Hunanasesu.

Rydym wedi blaenoriaethu’r camau gweithredu er mwyn gosod y sylfeini ar gyfer gwaith yn y dyfodol ar draws y saith thema trwy sicrhau y bodlonir ein Prif linellau Ymholi cyn datblygu ymhellach. Rydym eisoes wedi nodi rhestr o gamau gweithredu sy’n dod i’r amlwg y byddwn yn eu hasesu eto yn ystod y flwyddyn i ddod, gan symud i’r cynllun gweithredu byw os a phan fo hynny’n briodol.

# CYNLLUN GWEITHREDU’R HUNANASESIAD: CYFLEOEDD I WELLA

| DISGRIFIAD | AMSERLEN | SWYDDOG ARWEINIOL | CANLYNIADAU |
|---|---|---|---|
| **DARPARU DULL SAFONOL AC EFFEITHIOL O YMGYSYLLTU A CHYFRANOGIAD AR DRAWS Y CYNGOR A SICRHAU BOD Y CYNGOR YN YMGYSYLLTU Â PHOBL CEREDIGION YN Y FFORDD ORAU A MWYAF PRIODOL.** | | | |
| Cyhoeddi’r Strategaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad newydd i wella cyfleoedd ymgysylltu a chyfranogi i ddinasyddion a rhanddeiliaid Ceredigion | Ionawr 2023–Mawrth 2024 | Alun Williams (SAC Partneriaethau, Perfformiad a Diogelu’r Cyhoedd) | • Yn darparu dull safonol ac effeithiol o ymgysylltu a chyfranogi ar draws y Cyngor<br>• Sicrhau bod y Cyngor yn ymgysylltu â phobl Ceredigion yn y ffordd orau a mwyaf priodol<br>• Cael y wybodaeth ddiweddaraf am arfer gorau ym maes ymgysylltu ac ymgynghori<br>• Mae dinasyddion a rhanddeiliaid yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau ac wrth lunio gwasanaethau'r Cyngor<br>• Yn sicrhau bod adnoddau'r Cyngor yn cael eu cyfeirio at feysydd blaenoriaeth, fel yr argyfwng costau byw presennol, fel y nodwyd trwy ymgysylltu ac ymgynghori<br>• Sicrhau bod lleisiau pawb yng Ngheredigion yn cael eu clywed |
| **<u>STATWS:</u> Wedi Cwblhau** ●<br>Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi ymrwymo i ymgysylltu â’i breswylwyr, ei ddefnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid allweddol eraill. Datblygwyd y Strategaeth Ymgysylltu a Chyfranogi newydd ac fe’i chymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Hydref 2022. Mae’r Strategaeth newydd yn cynnig cyfeiriad corfforaethol ac arweiniad i swyddogion ac aelodau etholedig y Cyngor er mwyn sicrhau bod gweithgarwch ymgysylltu wrth wraidd gwaith y Cyngor, a sicrhau bod gweithgareddau ymgysylltu o safon uchel yn gyson. Cyflwynir adroddiad cynnydd blynyddol am y Strategaeth i’r Cabinet ac fe’i cyhoeddir ar ein gwefan. Cyhoeddwyd y pecyn cymorth Ymgysylltu ar ein gwefan fewnol ym mis Ionawr 2024 hefyd, ac mae ar gael i’r holl staff ei ddefnyddio. Cymeradwywyd y Cynllun Deisebau, gan gynnwys deisebau electronig, sy’n ofyniad dan Ddeddf Etholiadau Llywodraeth Leol (Cymru) 2021, gan y Cyngor ym mis Rhagfyr 2023. Caiff datblygiadau pellach eu gwneud dros y deuddeg mis nesaf. | | | |
| **CYFLWYNO CYNLLUN GWEITHLU ER MWYN SICRHAU BOD GAN Y CYNGOR WEITHLU CYNALIADWY A CHYMWYSO** | | | |
| Diweddaru a chyflawni’r Cynllun Gweithlu i fynd i'r afael â materion allweddol gan gynnwys recriwtio, cadw a chynllunio olyniaeth i sicrhau lefelau staffio sefydlog, gweithlu cynaliadwy a bod swyddi gwag yn cael eu llenwi â staff â chymwysterau priodol. Bydd y Cynllun Gweithlu yn cyd-fynd â Strategaeth Gorfforaethol newydd y Cyngor ar gyfer 2022-27. | Ionawr 2023–Mawrth 2027 | Geraint Edwards (SAC Pobl a Trefnidiaeth) | • Sicrhau bod swyddi gwag yn cael eu llenwi gan staff sydd â’r cymwysterau a’r profiad priodol i ddarparu profiad cwsmer o ansawdd uchel a lefel gwasanaeth<br>• Sicrhau bod capasiti yn bodoli mewn gwasanaethau i ddarparu gwasanaethau o safon<br>• Sicrhau cynaliadwyedd gwasanaethau dros y tymor hir<br>• Galluogi ni i nodi ac ymateb i anghenion newidiol cwsmeriaid<br>• Gwella recriwtio a chadw gweithwyr<br>• Gwella cynhyrchiant ac ansawdd gwasanaeth |
| **<u>STATWS:</u> Ar y Gweill** ●<br>Cyhoeddwyd y Cynllun Gweithlu wedi’i ddiweddaru ar ôl i’r Cabinet ei gymeradwyo ym mis Medi 2023. Mae’r Cynllun newydd yn nodi dull gweithredu y Cyngor er mwyn rheoli ei weithlu i fodloni ei anghenion darparu gwasanaeth yn y presennol ac yn y dyfodol, ac i roi sylw i faterion allweddol yn benodol gan gynnwys recriwtio, cadw a chynllunio ar gyfer olyniaeth, i sicrhau lefelau staffio sefydlog, gweithlu cynaliadwy a bod swyddi gwag yn cael eu llenwi gan staff sy’n meddu ar gymwysterau priodol. Y pedair blaenoriaeth wedi’u seilio ar thema benodol yn y cynllun yw: Gwireddu Potensial, Profiad Ymgeisydd a Denu Talent, Ein Diwylliant a Ffyrdd Newydd o Weithio. Bydd y Cynllun newydd yn caniatáu i’r Cyngor ragweld gofynion sgiliau ac anghenion yn y gweithlu yn y dyfodol er mwyn rhoi sylw rhagweithiol i’r sialensiau sy’n dod i’r amlwg a manteisio ar gyfleoedd newydd. Mae’r gwaith o gyflawni’r camau gweithredu yn y Cynllun yn mynd rhagddo. | | | |

| ALLWEDD: | WEDI CWBLHAU (1) | AR Y GWEILL (8) | GWEITHRED NEWYDD (0) |
|---|---|---|---|

| DISGRIFIAD | AMSERLEN | SWYDDOG ARWEINIOL | CANLYNIADAU |
|---|---|---|---|
| **CYFLWYNO CAM 2 O'R RHAGLEN LLESIANT GYDOL OES I DRAWSNEWID GOFAL CYMDEITHASOL YNG NGHEREDIGION** | | | |
| Monitro ac adolygu cynnydd y Rhaglen Llesiant Gydol Oed er mwyn sicrhau y darperir gwasanaethau a fydd yn cyflawni canlyniadau'r rhaglen ac yn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol pobl Ceredigion | Ionawr 2023–Mawrth 2027 | Audrey Somerton Edwards<br>Swyddog Arweiniol Corfforaethol Dros Dro, Porth Cynnal<br>Chyfarwyddwr Statudol Dros Dro y Gwasanaethau Cymdeithasol | • Rheoli'r cynnydd yn y galw a'r pwysau ariannol ar wasanaethau i ddarparu gwasanaethau cynaliadwy yn y dyfodol<br>• Sicrhau bod pobl yn cael y lefel a'r math cywir o gymorth ar yr amser cywir<br>• Yn hybu iechyd a lles cadarnhaol ac yn cefnogi pobl i gefnogi eu hunain<br>• Cryfhau teuluoedd fel bod plant a phobl ifanc yn aros gyda'u teulu<br>• Galluogi unigolion i fyw'n annibynnol yn eu cymuned eu hunain<br>• Darparu ymagweddau cymesur at ofal a chymorth a reolir<br>• Amddiffyn unigolion ac yn eu cadw'n ddiogel rhag camdriniaeth, niwed ac esgeulustod |
| **STATWS:** Ar y Gweill<br>Mae'r gwaith yn parhau i gyflawni'r Rhaglen Gydol Oes a Llesiant. Ym mis Tachwedd 2022, adolygwyd strwythur llywodraethu y Rhaglen, ac o ganlyniad, cychwynnwyd ffrydiau gwaith wedi'u diweddaru, cyhoeddwyd trefniadau goruchwylio newydd, cymeradwywyd y Model Sicrhau Ansawdd newydd, caiff y Tîm Sicrhau Ansawdd ei recriwtio i symud ymlaen gydag archwiliadau ffeiliau achos a thematig, datblygir y strategaeth rhannu data ac mae'r datrysiad dros y tymor hwy i ddiwedd y contract ar gyfer System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) yn symud yn ei flaen. Roedd arolygiad ACG ym mis Chwefror/Mawrth 2023 wedi sôn am y model Gydol Oes a Llesiant mewn ffordd gadarnhaol. | | | |
| **DATBLYGU STRATEGAETH DDIGIDOL NEWYDD AR GYFER CEREDIGION** | | | |
| Datblygu a chyhoeddi Strategaeth Ddigidol newydd i barhau i ddatblygu Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu a gwasanaethau digidol ar draws Ceredigion | Medi 2023 - Medi 2024 | Alan Morris (SAC Cyswllt Cwsmer, TGCh a Digidol) | • Darparu gweledigaeth strategol glir i ddatblygu gwasanaethau digidol<br>• Sicrhau bod gan y cyngor Seilwaith Digidol modern, sefydlog a chadarn<br>• Cefnogi'r gwaith o gyflawni Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor a'i Amcanion Llesiant Corfforaethol, megis yr ymgyrch i greu cymunedau sydd â chysylltiadau da drwy wella cysylltedd digidol a gwasanaethau digidol.<br>• Yn cefnogi mynediad digidol haws i wasanaethau'r Cyngor a gwell profiad i gwsmeriaid<br>• Yn cefnogi gwaith y Cyngor i wella cynhwysiant digidol.<br>• Cefnogi cydweithwyr i wneud y defnydd gorau, llawnaf o'r offer a'r technolegau sydd ar gael iddynt, gan ddatblygu lefelau uchel o gydweithio â sgiliau digidol |
| **STATWS:** Ar y Gweill<br>Drafftiwyd y Strategaeth Ddigidol newydd ac fe'i hystyriwyd gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ym mis Mawrth 2024, a oedd wedi argymell y dylid cychwyn ar yr ymgynghoriad cyhoeddus ac y dylai'r Cabinet ei chymeradwyo. Cynhelir yr ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod mis Mai a mis Mehefin 2024, gyda'r Strategaeth drafft ar fin mynd i Cabinet yn hwyrach yn y flwyddyn i'w chymeradwyo. Roedd y broses o baratoi'r Strategaeth Ddigidol yn cynnwys trafodaethau ar draws yr awdurdod, Asesiad Aeddfedrwydd Digidol a gweithdy a gefnogwyd gan CLILC, a chynhaliodd Archwilio Cymru archwiliad am ein hystyriaethau ar gyfer y Strategaeth Ddigidol, a oedd wedi helpu i siapio'r gofynion. Ystyriwyd strategaethau craidd ar draws Cymru hefyd. | | | |

# CYNLLUN GWEITHREDU'R HUNANASESIAD: CYFLEOEDD I WELLA

| DISGRIFIAD | AMSERLEN | SWYDDOG ARWEINIOL | CANLYNIADAU |
|---|---|---|---|
| **SICRHAU Y MAE GWARIANT CYFALAF YN CAEL EI FWYAF A'I DDEFNYDDIO** | | | |
| Datblygu system fonitro i alluogi'r Cyngor i wneud defnydd llawn o'i adnoddau cyfalaf a chynyddu cyfran y gwariant cyfalaf ym mhob blwyddyn | Ionawr 2023– Mawrth 2025 | Duncan Hall (SAC Cyllid a Chaffael a Swyddog Adran 151) | • Sicrhau bod Rhaglen Gyfalaf y Cyngor yn cael ei chyflawni a gwariant yn cael ei huchafu<br>• Cefnogi gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru ar brosiectau cyfalaf<br>• Cefnogi'r gwaith o gyflawni gweledigaeth ac Amcanion Llesiant Corfforaethol y Cyngor<br>• Cefnogi lleihau costau hirdymor a chynnydd mewn cynhyrchiant<br>• Ynghyd â'r gyllideb refeniw, mae'n darparu'r adnoddau i gyflawni cynlluniau busnes y gwasanaethau |
| **STATWS: Ar y Gweill** ●<br>Mae'r Cyngor yn parhau i weithio i sicrhau y gwneir y mwyaf o wariant cyfalaf. Mae defnydd da wedi'i wneud yn y blynyddoedd diwethaf o wariant cyfalaf, gan gynnwys buddsoddi mewn meysydd allweddol megis cyfleusterau plant y sir, sefydlu Canolfannau Llesiant, Cartrefi Gofal Awdurdodau Lleol a threialu Gofal Trwy Dechnoleg. Cymeradwywyd Rhaglen Gyfalaf Aml-flwyddyn ddiwygiedig ar gyfer 2023/24 i 2025/26 gan y Cabinet ym mis Gorffennaf 2023. Nododd yr Adroddiad Alldro Cyfalaf ar gyfer 2023/24 fod y gwariant gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn £8.7m yn uwch na'r lefel a gafwyd yn ystod 2022/ 23. Mae'r Rhaglen Gyfalaf yn parhau i gael ei hadrodd i'r Cabinet gan fanylu ar y sefyllfa alldro a'r rhaglen ddiwygiedig ar gyfer y tair blynedd nesaf. | | | |
| **CEFNOGI BUSNESAU LLEOL A'R ECONOMI LLEOL TRWY WEITHREDU'R STRATEGAETH GAFFAEL DIWEDDARAF** | | | |
| Diweddaru Strategaeth Gaffael y Cyngor i gefnogi busnesau lleol a'r economi leol, ac i sicrhau bod y Cyngor yn darparu gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau ariannol | Ionawr 2023– Mawrth 2024 | Duncan Hall (SAC Cyllid a Chaffael a Swyddog Adran 151) | • Sicrhau bod arferion caffael yn gyfredol ac yn addas at y diben<br>• Helpu i sicrhau gwerth am arian drwy sicrhau bod y Cyngor yn gwario ei adnoddau ariannol yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol<br>• Cefnogi nodi arbedion effeithlonrwydd ac yn dileu gwastraff<br>• Cyflawni arbedion drwy fanteisio ar yr arbedion y gellir eu cyflawni drwy fwy o gapasiti prynu Fframweithiau Lleol, Rhanbarthol a Chenedlaethol<br>• Cynnal safonau moesegol uchel o fuddsoddi a phrynu<br>• Gwneud y mwyaf o'r cyfraniad at ddatblygu cynaliadwy trwy gaffael atebion cynaliadwy<br>• Cefnogi'r gwaith o gyflawni gweledigaeth ac Amcanion Llesiant Corfforaethol y Cyngor<br>• Cefnogi busnesau lleol, cadwyni cyflenwi a datblygiad yr economi leol |
| **STATWS: Ar y Gweill** ●<br>Mae Strategaeth Gaffael a Chomisiynu 2023-27 ar y Cyd, a ddiwygiwyd ac a ddiweddarwyd, wedi cael ei chwblhau. Mae'r strategaeth a ddiweddarwyd yn cyd-fynd ag amserlenni Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor, ac fe'i chynlluniwyd i gynorthwyo wrth gyflawni ei Hamcanion Llesiant Corfforaethol newydd yn benodol, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 trwy ei waith caffael a chomisiynu. Mae'r Strategaeth yn datblygu dull gweithredu y Cyngor tuag at gaffael, a gryfhawyd dros y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys corfforaethu'r broses gaffael, ac mae'n adlewyrchu'r sefyllfa ar ôl pandemig COVID-19. | | | |

| DISGRIFIAD | AMSERLEN | SWYDDOG ARWEINIOL | CANLYNIADAU |
|---|---|---|---|
| **DATBLYGU'R DEFNYDD O AROLYGON BODLONRWYDD CWSMER A MEWNWELEDIADAU MEWN I PROFIADAU CWSMERIAID** | | | |
| Datblygu'r defnydd o arolygon a mewnwelediadau arall mewn i brofiadau cwsmeriaid | Tachwedd 2023 - Mawrth 2025 | Y Swyddogion Arweiniol Corfforaethol i gyd | • Cael y wybodaeth ddiweddaraf am ganfyddiadau cwsmeriaid o wasanaethau a'r sefydliad yn gyffredinol<br>• Helpu i nodi meysydd i'w gwella er mwyn helpu i godi lefelau perfformiad<br>• Cryfhau a datblygu deialog barhaus gyda chwsmeriaid a'u canfyddiadau<br>• Helpu i gryfhau democratiaeth leol drwy gynnwys mwy o gwsmeriaid wrth wneud penderfyniadau a dylunio gwasanaethau<br>• Yn darparu gwell dealltwriaeth o anghenion, dymuniadau a blaenoriaethau cwsmeriaid<br>• Mae'n helpu i gryfhau democratiaeth leol trwy gynnwys mwy o gwsmeriaid wrth wneud penderfyniadau a dylunio gwasanaethau<br>• Helpu i nodi lle mae angen cyfathrebu ychwanegol i gefnogi cwsmeriaid a / neu hysbysebu gwasanaethau<br>• Yn cynorthwyo dysg y Cyngor i wella profiad cwsmeriaid |
| **STATWS:** Ar y Gweill ● | | | |
| Cyflwynwyd Arolwg Rhanddeiliaid Corfforaethol newydd yn ystod yr haf 2023, a oedd yn holi cyfres o gwestiynau am berfformiad cyffredinol y Cyngor, sut y caiff perfformiad ei fonitro a'r cynnydd sy'n cael ei wneud wrth gyflawni'r Amcanion Llesiant Corfforaethol newydd. Mae'r Cyngor hefyd wedi gweithio gyda Data Cymru i ddatblygu'r Arolwg Rhanddeiliaid Cenedlaethol i ddarparu arolwg dinasyddion cadarn a cyffelyb yn y dyfodol. Bydd y cyntaf o'r arolygon yma yn rhedeg rhwng Awst a Hydref 2024. Yn ogystal, mae'r Bwrdd Mewnwelediadau newydd wedi'i datblygu ac ar fin cynnal ei chyfarfod cyntaf yn fis Medi 2024, er mwyn macsimeiddio'r mewnwelediadau o'r ymgynghoriad ac ymgysylltu, ynghyd a'r data arall sydd ar gael i'r Cyngor i ddatblygu dealltwriaeth well o farnau cwsmeriaid i siapio gwasanaethau yn y dyfodol. Mae amrywiaeth o weithgareddau eraill yn cael eu harchwilio megis y posibilrwydd o gynnwys arolygon bodlonrwydd fel rhan o gysylltiadau cwsmeriaid drwy'r ganolfan gyswllt (CLIC), gwneud mwy o ddefnydd o'r gwasanaeth Fy Nghyfrif newydd wrth iddo gael ei wreiddio a chyflwyno arfer gorau ar draws y Cyngor. | | | |

# CYNLLUN GWEITHREDU'R HUNANASESIAD: CYFLEOEDD I WELLA

| DISGRIFIAD | AMSERLEN | SWYDDOG ARWEINIOL | CANLYNIADAU |
|---|---|---|---|
| **CYFLAWNI'R ARGYMHELLION YN AROLYGIAD AGC O'R GWASANAETHAU CYMDEITHASOL** | | | |
| Gweithredu'r deg argymhelliad a wnaed yn adroddiad arolygu AGC i helpu'r Cyngor i gyflawni ei weledigaeth ar gyfer darparu gwasanaethau cymdeithasol ledled Ceredigion yn unol â'r model Llesiant Gydol Oed | Mai 2023 - Mawrth 2025 | Audrey Somerton Edwards (Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal a Chyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol) | • Sicrhau bod lleisiau pobl yn ganolog i'r gwaith rydym yn ei wneud<br>• Cynyddu'r ddarpariaeth o seibiant i rieni a gofalwyr a chael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau pobl<br>• Sicrhau bod pobl yn cael gwybod pa mor dda y mae gwasanaethau gofal cymdeithasol yn cael eu darparu yng Ngheredigion<br>• Blaenoriaethu gweithlu digonol a chynaliadwy sydd â'r gallu a'r gallu i fodloni cyfrifoldebau statudol yn gyson<br>• Sicrhau dull safonol o oruchwylio a goruchwylio arfer Yn sicrhau gweithlu cymwys a hyderus<br>• Darparu fframwaith sicrwydd ansawdd cadarn Sicrhau yr ymatebir yn gyson i gwynion yn unol â'r amserlenni penodedig |
| **<u>STATWS:</u> Ar y Gweill** 🟢<br>Lluniwyd cynllun gweithredu i ymateb i'r gwelliannau argymelledig a amlinellwyd yn adroddiad AGC. Mae rhan fwyaf y rhain yn cael eu datblygu yn barod, gan bod y materion a nodwyd eisoes yn cael sylw cyn cynnal yr ymchwiliad. Adlewyrchwyd y meysydd yr oedd y Cyngor yn dymuno eu gwella yn y dystiolaeth i'r arolygwyr cyn yr arolygiad a chynhyrchu'r adroddiad terfynol. Ni nodwyd unrhyw feysydd o ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad. Cymeradwywyd y cynllun gweithredu gan Gabinet y Cyngor ym mis Mehefin 2023, a chaiff cynnydd ei fonitro bob chwe wythnos trwy'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach am gyfnod o flwyddyn er mwyn cynnal y cynnydd a'i olrhain nes y caiff ei gwblhau. Bwriedir cyflwyno'r adolygiad nesaf i'r Pwyllgor ym mis Medi 2024. Mae'r rhan fwyaf o feysydd ble roedd angen gwella bellach wedi cael sylw. Yn ogystal, mae lansio fframwaith Sicrhau Ansawdd ffurfiol yng Ngwanwyn 2024 a'r defnydd o Adolygiadau Thematig ac Asesiadau Ymarfer rheolaidd o fewn hwn wedi cryfhau arolygiaeth yr Is-adran. Mae rhywfaint o weithgarwch parhaus yn mynd rhagddo ar draws y pedwar parth, Pobl (llais a rheolaeth), Atal, Lles a Phartneriaethau. Mae gweithgarwch datblygu ar draws pedwar parth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn parhau i fod yn ffocws allweddol i'r Timau Gofal Cymdeithasol gan eu bod yn ganolog i'r strategaeth hirdymor Drwy Oed a Llesiant gyffredinol. | | | |

| DISGRIFIAD | AMSERLEN | SWYDDOG ARWEINIOL | CANLYNIADAU |
|---|---|---|---|
| **CYFLAWNI CYNLLUN STRATEGOL RHEOLI ASEDAU SY'N GWEITHREDU FFYRDD NEWYDD O WEITHIO I STAFF CYNGOR SIR CEREDIGION AC YN GWELLA PROFIAD Y CWSMER** | | | |
| Cyflawni'r Cynllun Strategol Rheoli Asedau newydd i adlewyrchu materion cyfredol, yn enwedig cefnogi ffyrdd newydd o weithio a manteisio ar y cyfleoedd sy'n bodoli ar ôl COVID-19 i sicrhau gwasanaethau cynaliadwy o ansawdd uchel | Ionawr 2023 - Mawrth 2025 | Russell-Hughes Pickering (Swyddog Arweiniol Corfforaethol Economi ac Adfywio) | • Yn darparu strategaeth wedi'i diweddaru a hirdymor i reoli asedau ffisegol y Cyngor<br>• Sicrhau defnydd effeithlon ac effeithiol o asedau'r cyngor (cronfeydd, tir, adeiladau, staff a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu) Yn cefnogi ffyrdd newydd o weithio ar ôl COVID-19 gan gynnwys rhesymoli asedau<br>• Darparu strategaeth i ryddhau arbedion effeithlonrwydd a ffrydiau incwm newydd posibl<br>• Sicrhau bod dull y Cyngor o reoli asedau yn addas at y diben a bod gwasanaethau'n gynaliadwy<br>• Cefnogi gwasanaethau mwy cydgysylltiedig ac o ansawdd uchel |
| **STATWS: Ar y Gweill** (●)<br>Mae'r Cynllun Rheoli Asedau Strategol newydd yn cael ei ddrafftio a rhagwelir y bydd wedi'i gwblhau yn hydref 2024, cyn mynd drwy'r broses ddemocrataidd i'w gymeradwyo. Bydd y Cynllun Rheoli Asedau Strategol yn cael ei gynhyrchu gan y Tîm Asedau a bydd ganddo ddull strategol ehangach, gan amgáu'r Strategaeth Gweithio Hybrid newydd sy'n ysgogi newid i'n hymagwedd, y pwysau cyllidebol i resymoli ystâd y Cyngor, a'r prif raglenni gwella sy'n cael eu cyflwyno. a wneir megis y rhai ar gyfer gwella ysgolion a buddsoddi mewn cartrefi gofal.<br><br>Mae'r rhain wedi cyrraedd gwahanol gamau o ran eu datblygiad. Ystyriwyd Rhaglen Datblygu Asedau sy'n ystyried dewisiadau ar gyfer tir ac adeiladau gwag gan y Grŵp Datblygu ym mis Hydref 2023. Mae'r Cyngor wedi sefydlu prosiect 'Ffyrdd Newydd o Weithio', sydd â'r dasg o wireddu gweledigaeth ein Strategaeth Gweithio Hybrid ac o ganlyniad, mae'r prif adeiladau swyddfa yn cael eu haddasu at ddibenion gwahanol. Defnyddir lle yng Nghanolfan Rheidol gan Hywel Dda i ddarparu gwasanaethau ffisiotherapi ac i adleoli lle ar gyfer desgiau swyddfa o Fronglais. Mae lle ym Mhenmorfa wedi cael ei addasu at ddibenion gwahanol er mwyn darparu Canolfan Byw'n Annibynnol. Mae'r Rhaglen Gwella Ysgolion yn sefydledig ac fe'i hadolygwyd yn ddiweddar, er mwyn edrych ymlaen dros y 3, 6 a 9 mlynedd nesaf. Datblygir y Rhaglen Gwella Gofal gan ddefnyddio model tebyg i'r rhaglen gwella ysgolion, a bydd yn adlewyrchu anghenion y strategaeth Gydol Oes a Llesiant sy'n newid. Caiff rhaglen Re:Fit ei datblygu er mwyn darparu amrediad o fesurau arbed ynni mewn adeiladau gweithredol. | | | |

# BETH YW HUNANASESIAD?

**Cyflwynodd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 broses newydd ar gyfer monitro perfformiad pob awdurdod lleol, yn seiliedig ar hunanasesiad.**

Mae'r gyfundrefn berfformiad newydd yn diffinio prif gynghorau fel 'sefydliadau hunan wella' drwy system sy'n seiliedig ar hunanasesu ac asesiad perfformiad panel. Bwriad y dull newydd yw adeiladu ar, a chefnogi, diwylliant lle mae cynghorau'n herio'r sefyllfa bresennol yn barhaus ac yn gofyn cwestiynau am sut y maent yn gweithredu a sut y gallant ddysgu o arfer gorau. Bydd hunanasesiad tryloyw ac agored o gyngor yn rhan sylfaenol o'r dull hwn.

Mae hunanasesu effeithiol yn rhoi sicrwydd dibynadwy yn fewnol ac yn allanol i reoleiddwyr ac arolygiaethau ac yn bennaf oll mae'n helpu cynghorau i ddysgu'n barhaus a chyflawni gwelliant cynaliadwy a chanlyniadau gwell i ddinasyddion, defnyddwyr gwasanaethau a'u gweithlu eu hunain.

Mae pum dyletswydd benodol wedi'u cyflwyno gan y Ddeddf:

1. **Dyletswydd i barhau i adolygu perfformiad**
   Mae gan Gyngor Sir Ceredigion ddyletswydd i adolygu i ba raddau y mae'n cyflawni ei 'gofynion perfformiad' drwy bennu i ba raddau y mae:
   - Arfer ei swyddogaethau yn effeithiol
   - Defnyddio ei adnoddau yn economaidd, effeithlon ac effeithiol
   - Sicrhau bod ei lywodraethu yn effeithiol ar gyfer sicrhau'r uchod

2. **Dyletswydd i ymgynghori ar berfformiad**
   Rhaid i gynghorau ymgynghori ag amrywiaeth o bobl o leiaf unwaith ym mhob blwyddyn ariannol ynghylch i ba raddau y maent yn bodloni eu gofynion perfformiad. Yr ymgyngoreion statudol yw:
   - Pobl leol
   - Pobl eraill sy'n cynnal busnes yn y Sir
   - Staff y Cyngor
   - Pob Undeb Llafur a gydnabyddir gan y Cyngor

3. **Dyletswydd i adrodd ar berfformiad**
   Rhaid i'r Cyngor gynhyrchu adroddiad hunanasesu bob blwyddyn ariannol. Rhaid i'r adroddiad nodi ei gasgliadau ynghylch i ba raddau yr oedd yn bodloni'r gofynion perfformiad, ac unrhyw gamau y mae'n bwriadu eu cymryd, neu y mae eisoes wedi'u cymryd i wella ymhellach.

4. **Dyletswydd i drefnu panel asesu perfformiad**
   O leiaf unwaith ym mhob cyfnod etholiad, rhaid i'r Cyngor drefnu i banel annibynnol gynnal asesiad o'r graddau y mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad ac adrodd ar ei ganlyniadau. Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn paratoi i ymgymryd â'i Asesiad Panel Perfformiad cyntaf yn ystod 2024/25.

5. **Dyletswydd i ymateb i panel asesu perfformiad**
   Rhaid i'r Cyngor baratoi ymateb i Adroddiad y Panel Asesu yn nodi
   - I ba raddau y mae'n derbyn y casgliadau yn yr adroddiad
   - Sut mae'n bwriadu dilyn unrhyw argymhellion
   - Unrhyw gamau pellach y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cymryd i wella perfformiad

Diben y darpariaethau perfformiad a llywodraethu yn y Ddeddf yw adeiladu a chefnogi ar ddiwylliant sy'n datblygu, lle mae cynghorau'n mynd ati i geisio a chroesawu her, boed yn cael ei chyflwyno gan y cyngor, er enghraifft drwy weithdrefnau craffu, neu'n allanol. Mae'r darpariaethau wedi'u cynllunio i ddatblygu fframwaith sy'n cefnogi cynghorau, trwy broses adolygu barhaus, i feddwl am eu perfformiad a'u heffeithiolrwydd nawr ac ar gyfer y dyfodol; i annog sefydliadau mwy chwilfrydig sy'n barod i herio eu hunain i wneud mwy; a bod yn fwy arloesol a mwy uchelgeisiol yn yr hyn a wnânt.

**Ymarfer Myfyriol**
Ar gyfer Ceredigion, mae egwyddorion hunanasesu eisoes yn rhan annatod o'i threfniadau llywodraethu strategol a chorfforaethol parhaus.

Rydym yn cydnabod y cyfle ar gyfer hunan fyfyrio a her adeiladol. Er enghraifft, mae'r math hwn o arfer myfyriol eisoes yn rhan annatod o Ddatganiad Cynllunio Busnes a Llywodraethu Blynyddol y Cyngor, ac eisoes wedi'i hen sefydlu yn y Cyngor. Mae arfer myfyriol yn elfen graidd o broses rheoli perfformiad cyffredinol y Cyngor, ac yn canolbwyntio ar werthuso *sut rydym yn gwneud pethau* ac nid dim ond *yr hyn a wnawn.*

Rydym wedi mabwysiadu dull tebyg gyda Hunanasesu – mae arfer myfyriol yn rhan allweddol o'n Gweithdai Hunanasesu lle rydym yn myfyrio ar sut rydym yn gweithredu ar hyn o bryd, yr heriau a wynebwn yn y dyfodol a sut rydym yn ymgorffori cynaliadwyedd yn ein gweithgareddau wrth symud ymlaen.

## Daeth Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) i rym yn 2021

## Y Pum Dyletswydd ar y Prif Gynghorau yw:

**CADW PERFFORMIAD O DAN ADOLYGIAD**

**YMGYNGHORI AR BERFFORMIAD**

**ADRODD AR BERFFORMIAD**

**TREFNU ASESIAD PANEL PERFFORMIAD**

**YMATEB I ASESIAD Y PANEL PERFFORMIAD**

# SUT YR YDYM YN CYNNAL HUNANASESIAD

## Ein Dull o Hunanasesu

Mae ein dull at Hunanasesu yn seiliedig ar asesu ein hunain yn erbyn cyfres o Lwybrau Ymholi Allweddol. Mae “KLOEs” fel y cyfeirir atynt weithiau, yn gyfres o gwestiynau allweddol perthnasol yr ydym yn eu gofyn i ni ein hunain wrth i ni weithio drwy'r Hunanasesiad.

Mae’r dull Llinellau Ymholi Allweddol yn ddull profedig o gynnal hunanasesiadau mewn Llywodraeth Leol ac ar draws y sector cyhoeddus ehangach. Mae'n sicrhau ein bod yn parhau i ganolbwyntio ar y farn gorfforaethol neu 'gyfannol' o berfformiad y Cyngor fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf. Mae hefyd yn darparu'r eglurder hunanwerthuso sydd ei angen i'n helpu i nodi cyfleoedd ar gyfer gwella, ac wrth wneud hynny, mae'n darparu llwybr archwilio cryf i esbonio'r camau gweithredu yr ydym wedi'u cymryd wrth ymateb.

Cofnodir y canfyddiadau yn ein dogfen Matrics Hunanasesu. Mae’r Matrics yn cofnodi’r dystiolaeth sy’n dangos sut yr ydym yn perfformio ar hyn o bryd, ein huchelgeisiau ar gyfer y dyfodol a’r camau y mae angen inni eu cymryd er mwyn cyflawni’r uchelgeisiau hynny. Defnyddir y ddogfen hon i nodi'r cyfleoedd sy'n bodoli ar gyfer gwelliant ac fe'i defnyddir i ddatblygu ein Cynllun Gweithredu Hunanasesu.

## Cylchred Barhaus

Mae hunanasesu yn broses barhaus o welliant - yn ystod y flwyddyn rydym yn cynnal ymgynghoriad i gefnogi hunanasesiad, rydym yn coladu tystiolaeth i lywio ein gweithdai, rydym yn cyflawni'r camau gweithredu yn ein cynllun gweithredu Hunanasesiad ac rydym yn monitro eu cynnydd tuag at ei gwblhau. Yr Adroddiad Hunanasesu yw'r allbwn allweddol o'r broses ond mae'r gwaith ar wella canlyniadau yn weithgaredd parhaus drwy gydol y flwyddyn.

Mae’r diagram isod yn crynhoi’r prif gamau a’r graddfeydd amser sydd ynghlwm wrth gynnal yr Hunanasesiad a chynhyrchu’r Adroddiad Hunanasesu.

## Gwerthuso, Myfyrio ac Adnabod Cyfleoedd

Yn ystod mis Ebrill bob blwyddyn rydym yn dod ag amrywiaeth eang o dystiolaeth ynghyd i'n helpu i asesu ein perfformiad presennol. Mae hyn yn cynnwys monitro perfformiad mewnol, megis dangosfyrdd perfformiad ac adroddiadau cwynion, adroddiadau rheolyddion o arolygiadau a chanlyniadau gweithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu.

Rydym yn cynnal ymarfer o adolygu'r dystiolaeth i nodi canfyddiadau allweddol - lle mae perfformiad wedi gwella, lle mae cyfleoedd i wella a beth yw'r themâu allweddol o'n hymgynghoriad.

Cyflwynir canfyddiadau’r ymarfer hwn i Weithdai Hunanasesu gyda Grŵp Arweiniol y Cyngor a Phwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu i helpu i asesu ein perfformiad.

Yn y gweithdai rydym yn ailasesu ein hunain yn erbyn y Prif Linellau Ymholi, gan ddiweddaru ein tystiolaeth ar gyfer pob cwestiwn a defnyddio hyn i nodi camau gweithredu ar gyfer gwella. Maent yn adolygu'r dystiolaeth sydd ar gael iddynt ac yn ychwanegu eu persbectif eu hunain i ddarparu sgorau wedi'u diweddaru ar gyfer pob cwestiwn.

Mae'r gweithdai canfyddiadau'n cael eu coladu gan y Tîm Perfformiad ac Ymchwil. Maent yn cynhyrchu'r Adroddiad Hunanasesu drafft trwy dynnu ar y matrics tystiolaeth, y sgorau a'r camau gwella a nodwyd yn y gweithdy, ynghyd â ffynonellau allweddol eraill megis strategaethau allweddol ac adroddiadau arolygu.

Mae rhan o’r coladu’n cynnwys croeswirio’r sgôr gyda’r dystiolaeth a ddarparwyd a cheisio eglurder ar ein casgliadau lle bo angen. Mae bylchau mewn tystiolaeth a dealltwriaeth o’n perfformiad hefyd yn cael eu hamlygu, sydd i gyd wedi’u cynllunio i sicrhau bod y broses yn gadarn.

Drwy ganolbwyntio ar hyn, gallwn ddysgu o’n profiadau a manteisio ar yr arloesedd a’r creadigrwydd sy’n bodoli yn y Cyngor i nodi cyfleoedd i wella ein perfformiad, boed hynny drwy godi lefelau perfformiad, nodi effeithlonrwydd neu wella boddhad cwsmeriaid.

Mae Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio’r Cyngor yn chwarae rhan allweddol yn y proses Hunan Asesu. Maent yn gyfrifol am adolygu'r Adroddiad Hunanasesu drafft a gwneud argymhellion ar gyfer newidiadau i'r casgliadau y daethpwyd iddynt neu'r camau y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cymryd. Caiff yr Adroddiad drafft ei adolygu gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Medi.

Caiff yr Adroddiad Hunanasesu ei ddiweddaru yn dilyn argymhellion y Pwyllgor a chyflwynir yr adroddiad terfynol i’r Cabinet i’w gymeradwyo ym mis Tachwedd. Ar ôl ei gymeradwyo, caiff yr Adroddiad ei gyhoeddi a'i gyflwyno i'r derbynwyr statudol, gan gynnwys copi terfynol a gyflwynir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

**Y camau a’r amserlen i gwblhau Adroddiad Hunanasesu Ceredigion**

| Mawrth/Ebrill | Ebrill/Mai | Mai i Mehefin | Gorffennaf i Awst | Medi | Tachwedd | Rhagfyr |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynnal Adolygiad Bwrdd Gwaith o Dystiolaeth | Cynnal gweithdai gyda Chynghorwyr a Swyddogion | Coladu Tystiolaeth a chynhyrchu Adroddiad Hunanasesu Drafft | Grŵp Arweiniol a Chabinet yn Adolygu Drafft yr Adroddiad Hunanasesu | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn Adolygu Drafft yr Adroddiad Hunanasesu | Adroddiad Hunanasesiad Adolygwyd gan Bwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu a'i lofnodi gan y Cabinet | Adroddiad Hunanasesu Terfynol yn cael ei Chyhoeddi |


# HUNANASESIAD YN EIN FFRAMWAITH RHEOLI PERFFORMIAD

### Integreiddio i Fframwaith Perfformiad y Cyngor

Nid yw hunanasesu yn broses annibynnol, yn hytrach mae wedi'i hintegreiddio fel rhan o drefniadau cynllunio corfforaethol a rheoli perfformiad parhaus y Cyngor. Mae'r diagram isod yn dangos sut mae hunanasesu yn cyd-fynd â'n fframwaith perfformiad cyffredinol.

Mae'n hanfodol i lywio Cynllunio Busnes a Rheoli Risg, ac yn ei dro mae'n tynnu ar ganlyniadau monitro cynlluniau busnes a'r gofrestr risg gorfforaethol i werthuso ein perfformiad presennol a chwblhau'r hunanasesiad. Yn ei hanfod, mae'n gyfathrebu dwy ffordd rhwng pob piler o'r Fframwaith Perfformiad.

Mae amseriad Hunanasesiad hefyd yn bwysig. Mae wedi'i amseru i lywio a dylanwadu'n dryloyw ar brosesau cynllunio strategol, rheolaeth ariannol a chyllideb y Cyngor, adolygiadau rheoli risg, cynllunio gwelliant a rheoli perfformiad parhaus. Er enghraifft, mae cyhoeddi'r Adroddiad Hunanasesu ym mis Tachwedd yn sicrhau ei fod yn cael ei baratoi mewn pryd i lywio'r broses cynllunio busnes a gosod targedau blynyddol yn chwarter olaf pob blwyddyn rhwng Ionawr a Mawrth.




### Hunanasesiad yn y Fframwaith Perfformiad Ehangach

Mae gan Geredigion hanes hir o ddefnyddio hunanasesu yn effeithiol i ganfod ffyrdd arloesol o ddarparu gwasanaethau, yn fwyaf diweddar yn y 'Rhaglen Gydol Oed a Llesiant' sy'n cael ei rhoi ar waith i drawsnewid darpariaeth gofal cymdeithasol yn y Sir dros y pum mlynedd nesaf.


Mae hefyd yn rhan annatod o berfformiad gweithredol a chaiff ei ddefnyddio wrth osod cynlluniau busnes blynyddol ar gyfer pob gwasanaeth. Rydym i gyd yn cydnabod bod capasiti yn brin a bod galw mawr, ac o ganlyniad ni fu cynllunio busnes effeithiol erioed mor bwysig i sicrhau ein bod yn darparu'r 'gwasanaethau cywir yn y ffordd gywir'. Mae cael y cyfle i 'fyfyrio' ar berfformiad y gorffennol a'r presennol yn hanfodol i ddeall ein cryfderau, ein gwendidau a'n cyfleoedd. Mae'r math hwn o ymarfer myfyriol yn hollbwysig i'n helpu i bennu ein gweithredoedd a'n blaenoriaethau ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

### Y Llinyn Aur

Mae'r Cyngor yn defnyddio diagram 'Llinyn Aur' (a ddangosir ar y dde) i ddangos y cysylltiadau rhwng ei strategaethau a'i gynlluniau allweddol. Mae'n disgrifio'r llif gwybodaeth o flaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol ar gyfer gwella a gynhwysir yn y Cynllun Llesiant Lleol a'r Strategaeth Gorfforaethol, drwodd i wasanaethau unigol, timau ac aelodau o staff y Cyngor sy'n gyfrifol am eu cyflawni.

Mae Llinyn Aur cryf yn bwysig gan ei fod yn dangos sut mae pob lefel o gynllunio a gweithredu yn cyfrannu at y lefel nesaf, a sut mae pob rôl o fewn y Cyngor yn cyfrannu at gyflawni Amcanion Llesiant Corfforaethol Ceredigion.

Mae lle allweddol i hunanasesu yn y Llinyn Aur fel y ffordd yr ydym yn mesur llwyddiant ac yn ysgogi gwelliannau perfformiad, ynghyd â Chynllunio Busnes a rheolaeth a risg.



# RHEOLI EIN PERFFORMIAD

## Ein Siwrne Perfformiad

Yn syml, mae rheoli perfformiad yn cymryd camau mewn ymateb i berfformiad gwirioneddol a pherfformiad a ragwelir i wneud canlyniadau i bobl Ceredigion yn well nag y byddent fel arall.

Dros y pedwar blynedd diwethaf, mae dull Ceredigion o reoli perfformiad wedi'i adfywio a'i ddiweddaru. Ers hynny, gwnaed cynnydd da yn adeiladu diwylliant cryf o reoli perfformiad ar draws y sefydliad, ac yn paratoi ar gyfer y drefn newydd o Hunanasesu perfformiad a gyflwynwyd dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y broses cynllunio busnes newydd, ail-lansiad y Bwrdd Perfformiad, a'r adborth positif i ddulliau'r Cyngor o hunanasesu.

Mae'r ddeddfwriaeth newydd yn pwysleisio pwysigrwydd ymgorffori diwylliant rheoli perfformiad cryf, a sicrhau hyn yw prif egwddor siwrne perfformiad barhaus y Cyngor.

Mae'r hyn a ddysgwyd yn ystod pandemig COVID-19 wedi creu'r cyfle i gyflwyno newidiadau a gwelliannau cynaliadwy drwy ffyrdd newydd o weithio, a buddsoddi mewn technolegau newydd i ddarparu gwasanaethau o ansawdd da, a hynny mewn ffordd effeithlon sy'n ystyriol o'r amgylchedd.

Mae gan y Cyngor enw da am arloesi a dros y pum mlynedd nesaf mi fydd yn parhau i ddatblygu'r dull arloesol hwn ac yn symud tuag at ffyrdd mwy hyblyg a doeth o weithio. Bydd rheoli perfformiad yn chwarae rôl allweddol yn y trawsnewid hwn.

## Pwy sydd yn gyfrifol am Rheoli Perfformiad?

Mae pawb yn gyfrifol am reoli perfformiad – mae gan bawb rôl i'w chwarae o ran cyflawni amcanion y cynllun busnes, y tasgau a'r mesurau sy'n cynorthwyo i gyflawni'r Amcanion Llesiant Corfforaethol a gweledigaeth gyffredinol y Cyngor. Mae Tabl 1 yn dangos pwy sy'n gyfrifol am beth.

## Fframwaith Rheoli Perfformiad

I sicrhau ein bod yn cyflawni hyn, mae gennym Fframwaith Rheoli Perfformiad yn ei le sy'n caniatáu inni adolygu ac olrhain cynnydd yn rheolaidd, gwirio sut rydym yn perfformio, a sicrhau ein bod yn cyflawni'r Amcanion Llesiant Corfforaethol ac yn gwella canlyniadau i bobl a chymunedau Ceredigion.

Mae'r fframwaith rheoli perfformiad yn gweithredu ochr yn ochr â strwythur cyffredinol y Strategaeth Gorfforaethol, Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, Amcanion Llesiant Corfforaethol, Datganiad Llywodraethu Blynyddol, a Rheoli Rhaglenni/Prosiectau.

Mae'n rhan o broses cynllunio corfforaethol y Cyngor ac yn sicrhau dealltwriaeth gyson o egwyddorion rheoli perfformiad, a sut y cânt eu gweithredu yng Ngheredigion.


## Y Cylchred Gwelliant Parhaus

Mae ein dull o reoli perfformiad yn seiliedig ar gylchred gwelliant parhaus, sy'n dilyn y cylchred Cynllunio-Gwneud-Adolygu a gydnabyddir gan y diwydiant, ac a ddangosir yn y diagram isod. Mae'r cylchred hwn yn seiliedig ar y camau canlynol:

- **Cynllunio** ein gweithgareddau i gyflawni'n gweledigaeth a'n Hamcanion Llesiant Corfforaethol
- **Gwneud** neu gyflawni'r gweithgareddau
- **Adolygu** ein cynnydd yn rheolaidd i asesu a ydyn ni'n cyflawni'n hamcanion
- **Myfyrio** ar y ffordd rydym yn cyflawni'n gweithgareddau i nodi cyfleoedd i wella, neu i fod yn fwy effeithlon, neu'r ddau.

Mae Rheoli Perfformiad yn flaenoriaeth uchel yng Ngheredigion. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i wella'n barhaus, ac mae'n gofyn barn y trigolion ac yn hunanwerthuso'n rheolaidd i nodi cyfleoedd i wella.

### Y Cylchred Gwelliant Parhaus yng Ngheredigion




- Cynllunio
- Gwneud
- Adolygu
- Adlewyrchu

# ASESIAD SY'N SILIEDIG AR DYSTIOLAETH

**Mae Ceredigion yn ymdrechu i fod yn sefydliad a yrrir gan dystiolaeth a data. Defnyddiwyd amrywiaeth eang o dystiolaeth wrth asesu ein perfformiad ac wrth gynhyrchu'r adroddiad hwn.**

Rhennir y ffynonellau hyn yn dri chategori sy'n ein helpu i wirio bod ein casgliadau'n gywir a darparu darlun cywir o'n perfformiad presennol.

Y tri chategori yw'r **dystiolaeth fewnol** sydd ar gael i ni trwy strategaethau allweddol a monitro mewnol, megis y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, ein Datganiad Llywodraethu Blynyddol a monitro Cwynion. Mae hyn yn rhoi golwg fewnol i ni o sut mae'r sefydliad yn perfformio.


Rydym hefyd yn defnyddio'r **dystiolaeth reoleiddiol ac allanol helaeth** sy'n bodoli. Mae'r rhain yn cynnwys adroddiadau arolygu gan Estyn, Arolygiaeth Gofal Cymru a'r gwaith parhaus a wneir gan Archwilio Cymru. Mae hyn yn rhoi golwg reoleiddiol neu allanol i ni o sut rydym yn perfformio gan gyrff annibynnol.

Y trydydd categori o dystiolaeth ydy'r **ymgynghori a'r ymgysylltu** a gynhelir yn barhaus.. Mae hwn yn cofnodi barn yr holl randdeiliaid yng Ngheredigion, gan gynnwys dinasyddion, busnesau, staff y cyngor ac Undebau Llafur, gan gynnig safbwynt y rhai sy'n derbyn gwasanaethau gan y Cyngor.

Mae gan y Cyngor broses ymgysylltu ac ymgynghori barhaus ar waith drwy gydol y flwyddyn a ddefnyddir i gofnodi barn trigolion ar amrywiaeth o swyddogaethau'r Cyngor (gweler tudalennau 22-27).

Mae'r tri chategori tystiolaeth hyn yn ein helpu i 'driongli' neu wirio mai'r casgliadau y byddwn yn dod iddynt yw'r rhai cywir drwy ganiatáu inni gymharu'r canfyddiadau allweddol o bob un a sicrhau eu bod yn cyd-fynd cyn cynhyrchu'r Adroddiad Hunanasesu. Dangosir y berthynas hon yn y diagram gyferbyn, lle mae'r dystiolaeth yn bwydo'n gyfartal i'r dadansoddiad bwrdd gwaith ac yn y pen draw yr adroddiad hunanasesu.

## Mathau o dystiolaeth a defnyddiwyd wrth gynnal Hunanasesiad



# CATEGORÏAU TYSTIOLAETH

### Ansawdd Data

Mae pob cam o'r broses hunanasesu a'r broses rheoli perfformiad ehangach yn dibynnu ar dystiolaeth a data i alluogi'r Cyngor i farnu beth yw anghenion Ceredigion, beth yw anghenion ei chwsmeriaid, beth mae wedi'i gyflawni, a sut mae'n cymharu. Mae'n hanfodol felly bod yr holl wybodaeth hon yn seiliedig ar ddata o ansawdd uchel, dibynadwy ac amserol er mwyn sicrhau bod y dyfarniadau sy'n seiliedig arno yn gadarn.

Mae ein fframwaith perfformiad yn cefnogi hyn drwy helpu i sicrhau y darperir data cyflawn, cywir ac amserol a ddefnyddir mewn monitro mewnol ac a gyhoeddir yn allanol i gyfleu cynnydd y Cyngor wrth gyflawni ei weledigaeth a'i Amcanion Llesiant Corfforaethol i'r cyhoedd a rhanddeiliaid.

Mae'r tabl gyferbyn yn rhoi rhestr o'r mathau o ffynonellau a data sy'n cael eu hystyried yn hunanasesiad Ceredigion, ac wedi'u rhannu yn ôl math o gategori.▶

## Ffynonellau a defnyddiwyd wrth gynnal yr Hunanasesiad ac Adolygiad o'r Amcanion Llesiant

### TYSTIOLAETH MEWNOL

- Strategaeth Corfforaethol
- Strategaeth Ariannol Tymor Canolig
- Datganiad o Gyfrifon
- Datganiad Llywodraethu Blynyddol
- Adborth ac Adroddiadau Pwyllgor Trosolwg a Chraffu
- Adborth ac Adroddiadau Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
- Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Gofal
- Dangosfyrdd Perfformiad Chwarterol
- Monitro Cynllunio Busnes
- Dangosfwrdd y Strategaeth Gorfforaethol
- Dangosfwrdd yr Hunanasesiad
- Cofrestr Risg Corfforaethol
- Adroddiadau Archwilio Mewnol
- Adroddiadau Sylwadau, Canmoliaeth a Chwynion
- Canlyniadau Mesur Perfformiad
- Adroddiadau Hunanasesu Blaenorol
- Canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru
- Treth Cyngor / Cyfraddau Casglu
- Archwiliad Sgiliau Digidol 2022
- Adolygiad o Trefniant Gweithio Hybrid
- Data Gwasanaethau

### TYSTIOLAETH RHEOLEIDDIO & ALLANOL

- Adroddiad Gwella Blynyddol Archwilio Cymru
- Adroddiad Perfformiad Blynyddol Arolygiaeth Gofal Cymru
- Adroddiadau Arolygu Archwilio Cymru
- Adroddiadau Arolygiaeth Gofal Cymru
- Adroddiadau arolygiad Estyn
- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- Panel Asesu Perfformiad
- Adorddiadau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
- Adroddiadau Blynyddol Comisiynydd Plant, Pobl Hŷn a'r Gymraeg
- Asiantaeth Safonau Bwyd, y Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio ac adroddiadau rheoleiddio eraill
- Adroddiadau Blynyddol BGC Ceredigion
- Asesiad o Lesiant Lleol BGC Ceredigion
- Asesiad Poblogaeth Gorllewin Cymru
- Data Cymru
- YstadegauCymru

### YMGYNGHORIAD & YMGYSYLLTU

- Adroddiadau Adborth Ymgynghori
  - Ymgynghoriad Rhanddeiliaid
  - Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi
  - Strategaeth Tai Lleol
  - Premiymau Treth y Cyngor ar Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag Hirdymor
  - Cynllun Cydraddoldeb Strategol
- Ymarferion Ymgysylltu gan gynnwys:
  - Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru—arolwg Cyflogaeth a Sgiliau
  - Partneriaieth Natur Lleol Ceredigion—Cynllun Gweithredu Adferiad Netur
  - Canolfan Llesiant, Aberteifi
  - Tyfu Canolbarth Cymru—Cynllunio Egni yr Ardal Leaol
  - Darpariaeth Seibiant a Gwasanaethau Dydd
- Ymgysylltu gyda grwpiau rhanddeiliaid gan gynnwys y Fforwm Anabledd,y Fforwm Pobl Hŷn
- Cyfarfodydd Misol Undebau Llafur
- Arolygon Staff Ffyrdd Newydd o Weithio
- Arolygon Iechyd a Lles Staff

# DYSGU ODDI WRTH YMGYNGHORI & YMRWYMO

**Mae ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid yn thema graidd drwy gydol ein proses hunanasesu a'n dull rheoli perfformiad ehangach.**

Mae'n rhan annatod o'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd yn ein rheolaeth perfformiad a bydd yn parhau i chwarae rhan fwy byth wrth i ni archwilio cyfleoedd i wella gydag amrywiaeth o unigolion a grwpiau ar draws y Sir.

Mae'n bwysig ein bod yn rhoi cyfle i drigolion a rhanddeiliaid ddweud wrth y Cyngor am eu gweledigaeth eu hunain ar gyfer eu cymunedau ac am yr hyn y maent ei eisiau o ran darparu gwasanaethau.

Mae ein Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi, a gymeradwywyd ym mis Hydref 2022, yn nodi sut y byddwn yn siarad ac yn gwrando gyda phawb sy'n byw, yn gweithio neu'n astudio yng Ngheredigion, gan gynnwys pobl nad yw eu lleisiau'n cael eu clywed yn aml.

Mae ein dyletswydd gyfreithiol i ymgynghori wedi'i nodi mewn gwahanol ddarnau o ddeddfwriaeth, gan gynnwys:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 - rhaid i'r Cyngor gynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau Llesiant Cenedlaethol.
- Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 - rhaid i'r Cyngor annog cyfranogiad y cyhoedd yn ein penderfyniadau.
- Mesur y Gymraeg 2011 - rhaid i'r Cyngor ofyn i'r cyhoedd am eu barn ar yr effaith y bydd ein penderfyniadau yn ei chael ar y Gymraeg.
- Deddf Cydraddoldeb 2010 - rhaid i'r Cyngor gynnwys ac ymgysylltu â phobl sy'n rhannu Nodweddion Gwarchodedig.
- Rheoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1996 - rhaid i'r Cyngor ymgynghori â sefydliadau a bennir yn y Rheoliadau a rhaid iddynt hysbysu pobl sy'n debygol o gael eu heffeithio gan orchymyn traffig.
- Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 - rhaid i'r Cyngor gydymffurfio â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion sy'n amlinellu'r egwyddorion y dylid eu hystyried wrth gynnig gwneud newidiadau i ddarpariaeth ysgolion.

Lle mae angen mwy o adborth gan grwpiau penodol, rydym yn addasu ein dull yn ystod y flwyddyn i dargedu'r ardaloedd hynny a sicrhau bod holl gymunedau Ceredigion yn cymryd rhan. Rydym yn ymgysylltu â'r llu o grwpiau a sefydliadau sy'n cynrychioli grwpiau penodol yn y sir, ac yn arbennig i sicrhau bod lleisiau'r rhai na chlywir yn aml yn cael eu clywed yn wir.

Nid yw'n ymwneud â'n dyletswydd gyfreithiol yn unig, fodd bynnag. Mae ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd yn rhoi gwell gwybodaeth i ni i'n helpu i wneud penderfyniadau. Gall hyn arwain at ganlyniadau gwell i'n trigolion.

Nid oes un ateb 'sy'n addas i bawb' i ymgysylltu. Ein nod yw defnyddio'r math gorau o ymgysylltu ar gyfer y sefyllfa gywir.

Cyflawnir ymgysylltiad parhaus trwy sgwrs barhaus rhwng y Cyngor a'n cymunedau lleol. Weithiau, ymarfer ymgysylltu neu ymgynghori wedi'i dargedu yw'r dull gorau. Mewn achosion eraill, mae gan y Cyngor ddyletswydd gyfreithiol i ddilyn proses benodol i hysbysu'r cyhoedd a rhoi cyfle i gael adborth.

Mae llawer yn cael ei wneud i ymgysylltu â thrigolion a rhanddeiliaid. Fel arfer, cyflwynir adborth ar ein hymgyrchoedd ymgysylltu ac ymgynghori i gyfarfodydd y Cabinet.


Mae sesiynau trafod, gweithdai thematig, cyfarfodydd gyda rhanddeiliaid allweddol a sesiynau galw heibio wyneb yn wyneb hefyd yn cael eu cynnig, yn enwedig lle ceisir adborth gan garfan benodol, er enghraifft y Cyngor Ieuenctid, neu mewn man penodol, er enghraifft llifogydd yn Llanybydder, Llandysul/Pont-Tyweli.

Yn 2022/23 rydym wedi elwa o rai digwyddiadau ymgysylltu pwysig sy'n rhoi cipolwg unigryw ar farn dinasyddion a rhanddeiliaid.

Mae'r rhain yn cynnwys y Strategaeth Gorfforaethol rhwng mis Medi a mis Hydref 2022, lle y mynegodd trigolion eu barn ar yr Amcanion Llesiant Corfforaethol newydd, a'r ymgynghoriad ar Ddefnyddio Swyddfeydd Cyngor yn y Dyfodol rhwng mis Rhagfyr 2022 a mis Ionawr 2023, a oedd yn gofyn am y ffordd orau o ddefnyddio swyddfeydd y Cyngor yn y dyfodol. Mae'r ddau o'r rhain wedi'u defnyddio wrth gynhyrchu'r adroddiad hwn.

### Ymgysylltu Cyhoeddus yn 2023/24

Roedd 23 ymgyrch ymgynghori ac ymgysylltu yn ystod 2023/24, sef 7 yn fwy na'r flwyddyn flaenorol. Roedd 11 ymgyrch ymgynghori a 12 ymgyrch ymgysylltu.




Mae canlyniadau'r ymgyrchoedd yn cael ei defnyddio i gyfarwyddo penderfyniadau gan Aelodau Etholedig. Yn 2023-24 gwnaeth y Cabinet a'r Cyngor unarddeg penderfyniad a arweiniodd at newidiadau i wasanaethau, polisi neu strategaeth a fyddai'n effeithio'n sylweddol ar y

cyhoedd. Mae swyddogion y Cyngor yn paratoi adroddiad i Aelodau Etholedig i helpu cyfarwyddo penderfyniadau. Roedd 100% o’r adroddiadau a oedd angen y math yma o benderfyniad yn cynnwys crynodeb o’r ymgynghoriad i helpu datblygu’r newid arfaethedig. Mae’r manylion i’w gweld yn yr adroddiad perthnasol i’r Cabinet neu’r Cyngor, ac mae’r rhain i gyd wedi’u cyhoeddi ar ein gwefan.

Rydym yn cymryd dull ‘ymgysylltu parhaol’ i ddarparu ein gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys cyfarfodydd rheolaidd gyda rhanddeiliaid penodol. Er enghraifft, Cyngor Ieuenctid Ceredigion, Fforwm Anabledd, Partneriaeth Natur Leol a ‘r Fforwm Gofalwyr. Mae’n rhoi dechrau da wrth ddatblygu gwasanaethau a strategaethau newydd oherwydd bod ni wedi siarad yn rheolaidd gyda phobl sydd â phrofiad byw o'r pwnc.

Mae ein Pecyn Cymorth Ymgysylltu newydd yn rhestru’r rhanddeiliaid gorfodol sydd angen derbyn gwybodaeth am ymgynghoriadau cyhoeddus. Mae’r rhestr yn cynnwys Aelodau Etholedig, Grŵp Arweiniol y Cyngor, Cynghorau Tref a Chymunedol, staff Cyngor Sir Ceredigion ac aelodau’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae’r pecyn Cymorth hefyd yn rhestru manylion cyswllt pobl sydd yn medru helpu ni i hyrwyddo ein hymgynghoriadau. Er enghraifft, Rhwydwaith Canolfan Teulu Ceredigion, clybiau Ffermwyr Ifanc a Fforwm Cyn-filwyr y Lluoedd Arfog.

Mae nifer yr ymatebion yn ddibynnol ar destun yr ymgyrch. Roedd nifer uchel o ymatebion i ein hymgynghoriad ar lefelau premiymau treth cyngor ar 2il gartrefi ac eiddo gwag hirdymor. I’r gwrthwyneb, roedd yr ymgyrch i adnabod rhwystrau i bobl sydd ddim mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant (NEET) wedi derbyn 6 ymateb yn unig.

Lansiwyd platform newydd Fy Nghyfrif ym Mawrth 2024 a fydd yn helpu ni i ddatblygu ein perthnasoedd ar-lein gyda phobl sydd wedi dangos diddordeb penodol yn ein hymgynghoriadau. Rydym hefyd yn gweithio ar welliannau i’r gwefan Ymgysylltu ac Ymgynghori fel bod modd i bobl gweld canlyniadau ei adborth yn fwy clir.

Bydd y polisi Ymgysylltu a Chyfranogi yn cael i’w adolygu yn 2025 ac mae’n debygol bydd y cynllun gweithredu yn cynnwys set newydd o weithredoedd. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn parhau i wella ein harfer.

Mae manylion o’r ymarferion ymgysylltu ac ymgynghori a gynhaliwyd yn ystod 2023/24 i'w weld dros y tudalen.

**Rydym yn croesawu eich barn ar ein Hasesiad Hunanasesu, Amcanion Llesiant Corfforaethol y Cyngor ac ar ein perfformiad cyfredol. Byddwn hefyd yn hoffi gwybod sut ydych chi, eich teulu, neu eich cymuned, wedi’i effeithio gan ein gwaith i wella llesiant i bawb yn y sir. Mae manylion ar sut i gysylltu ar gefn yr adroddiad yma.**

## DADANSODDIAD O YMGYRCHOEDD YMGYSYLLTU AC YMGYNGHORI YN 2023/24


### GANRAN O YMGYRCHOEDD OEDD YN STATUDOL





### YMGYRCHOEDD A DDAETH YN ÔL I RHANDDEILIAID




### DULLIAU A DDEFNYDDIWYD I YMGYSYLLTU A CHYFLWYNO'R WYBODAETH




### DULLIAU A DDEFNYDDIWYD I GYHOEDDI YMGYRCHOEDD



# YMARFERION YMRWYMO YN 2023/24

| Amser yr Ymarfer | Disgrifiad | Ymateb | Beth nesaf |
|---|---|---|---|
| **Cynlluniau Rheoli ac Arfarniadau Ardaloedd Cadwraeth (Mawrth 2023 – Mawrth 2024)** | Mae ardaloedd cadwraeth yn ardaloedd o werth hanesyddol neu bensaernïol arbennig. Ymgyrch oedd hwn i gasglu safbwyntiau a gwybodaeth gan breswylwyr lleol a phartïon sydd â diddordeb, megis Cymdeithasau Hanesyddol, er mwyn cyfrannu at y cynlluniau rheoli a'r arfarniadau. | 57 ymateb. | Defnyddiwyd yr ymgysylltiad cychwynnol i gyfrannu at y gwaith o baratoi cynlluniau ac arfarniadau ardaloedd cadwraeth drafft. Bydd gofyn cynnal gweithgarwch ymgynghori pellach cyn iddynt gael eu mabwysiadu. |
| **Darpariaeth Gwasanaethau Dydd a Seibiant (Mawrth – Mehefin 2023)** | Cynhaliwyd adolygiad o'r gwasanaethau hyn fel rhan o'r gwaith o gyflawni Strategaeth Llesiant Gydol Oes y Cyngor. Holwyd barn pobl am y gwasanaethau dydd a seibiant presennol a gofynnwyd iddynt nodi'r hyn yr hoffent ei weld yn y dyfodol. | 411 | Cymeradwywyd canlyniadau'r ymgyrch a chynllun gweithredu arfaethedig gan y Cabinet ym mis Rhagfyr 2023. Cyhoeddir yr adroddiad a chofnodion y cyfarfod ar wefan y Cyngor. Bydd bwrdd rhaglen Llesiant Gydol Oes a Grŵp Strategol Ceredigion Iachach yn sicrhau y cyflawnir y cynllun gweithredu. |
| **Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 (Mai – Gorffennaf 2023)** | Ymarfer canfod ffeithiau rhanbarthol yn holi barn y cyhoedd am gyflwr cydraddoldeb yng Ngheredigion, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Phowys. Cyflwynwyd adroddiad am yr ymgyrch ymgysylltu i'r Cabinet ym mis Hydref 2023. | 224 | Defnyddiwyd yr ymatebion i ysgrifennu drafft cyntaf Cynllun Cydraddoldeb Strategol Ceredigion 2024-28. Cyhoeddir yr adroddiad a chofnodion y cyfarfod ar wefan y Cyngor. |
| **Tyfu Canolbarth Cymru – arolwg Sero Net (Awst – Medi 2023)** | Arolwg rhanbarthol i nodi cyfleoedd a sialensiau y mae busnesau yng Nghanolbarth Cymru yn eu hwynebu i leihau eu hallyriadau nwy tŷ gwydr. Rhoddwyd adborth i'r cyhoedd, busnesau a rhanddeiliaid allweddol trwy gyfrwng cylchlythyr Tyfu Canolbarth Cymru Ionawr 2024. | 78 | Cynhaliwyd digwyddiad busnes ym mis Mawrth 2024 i ledaenu'r canfyddiadau. Defnyddir barn pobl i siapio mentrau cyllido yn y dyfodol, cyfrannu at fuddsoddiadau yn y grid trydan a sicrhau bod cymorth wedi'i deilwra ar gael i fentrau lleol. |
| **Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru – arolwg Cyflogaeth a Sgiliau (Hydref – Rhagfyr 2023)** | Arolwg rhanbarthol i nodi sialensiau recriwtio a sgiliau y mae cyflogwyr a busnesau yng Ngheredigion a Phowys yn eu hwynebu. Hyrwyddwyd yr ymgyrch trwy gyfrwng rhwydweithiau busnes lleol a gwefan y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol. Bwydwyd y canlyniadau yn ôl trwy gyfrwng yr un sianelau. | 111 (32 o Geredigion, 70 o Powys, 9 o weddill Cymru neu tu allan Cymru). | Bydd ymatebion yn cynorthwyo wrth siapio'r gwaith o ddarparu cymorth cyflogadwyedd a sgiliau yng Nghanolbarth Cymru. Trafodir ymatebion yn ystod cyfarfodydd grŵp clwstwr Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru hefyd |
| **Partneriaeth Natur Leol Ceredigion – Cynllun gweithredu Adfer Natur (Tachwedd 2023 – Mawrth 2024)** | Gofynnwyd i bobl lenwi arolwg ar-lein neu fynychu gweithdy i rannu eu barn a'u hadborth am ddrafft cyntaf Cynllun gweithredu Adfer Natur. Targedwyd yr ymgyrch at sefydliadau, tirfeddianwyr, academyddion, busnesau a'r sector cyhoeddus. | 48 | Defnyddiwyd yr ymatebion er mwyn helpu i ddatblygu ail ddrafft Cynllun Gweithredu Adfer Natur y Bartneriaeth. Cynhelir ymgynghoriad am hwn yn 2024-25. |

| Amser yr Ymarfer | Disgrifiad | Ymateb | Beth nesaf |
|---|---|---|---|
| **Partneriaeth Natur Leol Ceredigion – Cefnogaeth ar gyfer Rheoli Dolydd (Rhagfyr 2023 – Ionawr 2024)** | Roedd y Bartneriaeth Natur Leol yn dymuno dysgu mwy am y cymorth ychwanegol y bydd ei angen efallai i adfer a gwella ein cynefinoedd glaswelltir arbennig. Gofynnwyd i bobl lenwi arolwg ar-lein, cymryd rhan mewn cyfweliad strwythuredig neu ymuno â thrafodaeth yn un o gyfarfodydd y Bartneriaeth Natur Leol. | 71 | Bydd tîm Bioamrywiaeth Ceredigion yn trefnu cyfarfod gyda rhanddeiliaid ym mis Ebrill 2024 i drafod y camau nesaf. |
| **Canolfan Llesiant, Aberteifi (Rhagfyr 2023 – Chwefror 2024)** | Gofynnwyd i bobl nodi'r hyn yr hoffent ei weld fel rhan o ddatblygiad Canolfan Llesiant posibl yn Aberteifi i wasanaethu de y sir. Estynnwyd gwahoddiad i bobl ymateb trwy lenwi arolwg ar-lein neu fynychu grŵp ffocws. | 417 | Bydd y wybodaeth yn cyfrannu at adroddiad ar gyfer y Cabinet am leoliad arfaethedig ar gyfer Canolfan Llesiant yn Aberteifi a chynnig drafft am y cyfleusterau a'r gwasanaeth y byddai modd ei gynnig. |
| **Arolwg 16+ a NEET (Ionawr – Mawrth 2024)** | Anelwyd yr ymgyrch hwn at bobl yng Ngheredigion nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant. Roeddem yn dymuno cael gwybod mwy am y rhwystrau sy'n eu hatal rhag sicrhau cyflogaeth. Bydd hyn yn helpu'r tîm Cymorth Cyflogaeth i deilwra'r cymorth y maent yn ei gynnig. | 6 | Adolygir y dull ymgysylltu. Efallai y cynhelir yr ymgyrch eto er mwyn ceisio cael mwy o ymatebion. |
| **Lles Emosiynol Gofalwyr Di-dâl (Ionawr – Mawrth 2024)** | Anelwyd yr ymgyrch hwn at Ofalwyr di-dâl yn benodol. Roeddem yn dymuno cael gwybod mwy am eu defnydd o'n Canolfannau Hamdden a Llesiant. Bydd hyn yn ein helpu i gynnig gwasanaethau sy'n bodloni eu hanghenion. | 29 | Rhannwyd yr ymatebion gyda'r Tîm Cymorth Cymunedol a Gofalwyr. Ni ddadansoddwyd y data eto. Byddwn yn llunio adroddiad cryno a ffeithlun o'r canlyniadau ac yn rhannu hwn gyda'r cyhoedd. |
| **Tyfu Canolbarth Cymru – Cynllunio Ynni Ardal Leol (Ionawr – Mawrth 2024)** | Gofynnwyd i bobl fynegi eu barn am y defnydd a wneir o drafnidiaeth ac ynni ar hyn o bryd, systemau gwresogi a thechnolegau ynni carbon isel a dewisiadau teithio cynaliadwy. Y nod yw nodi llwybr effeithiol tuag at gyflawni'r targed sero net cenedlaethol. | 542 | Cwblhawyd ein Cynllun Ynni Ardal Leol (LAEP) ym mis Mawrth 2024. Fe'i cyflwynir i'r Cabinet ym mis Mai 2024. Mae'r adroddiad yn cynnig y dystiolaeth ofynnol er mwyn helpu i ddatblygu prosiectau i drawsnewid y system ynni i fod yn un sero carbon gydag amser. Caiff barn y bobl i'r arolwg eu cynnwys wrth ddatblygu'r prosiectau hyn. Yn ychwanegol, defnyddir yr LAEP i sicrhau bod Cynllun Ynni Cenedlaethol Cymru yn ystyried anghenion a blaenoriaethau lleol, gan fapio'r galw am ynni a chyflenwad ynni yn y dyfodol ar gyfer pob rhan o'r wlad. |

# YMARFERION YMGYNGHORI YN 2023/24

| Amser y Gweithgaredd | Disgrifiad | Ymateb | Trawiad yr Ymgynghoriad |
|---|---|---|---|
| **Ailddefnyddio hen adeilad llyfrgell Ceinewydd (Chwefror – Mai 2023)** | Holodd Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau y Cyngor i bobl yng Ngheinewydd yn bennaf a oeddent yn cytuno gyda chynnig i newid diben yr Ymddiriedolaeth hon i "hyrwyddo addysg trigolion Ceinewydd." Yn ogystal, holwyd pobl sut y byddai modd defnyddio safle yr ymddiriedolaeth yn y dyfodol o fewn y diben arfaethedig newydd. | 32 | Cyflwynwyd y canlyniadau i'r Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau ym mis Mehefin 2023. Cytunwyd newid y diben fel y cynigiwyd a holi a oes gan unrhyw grŵp neu sefydliad ddiddordeb mewn ymgymryd â'r cyfrifoldeb dros y safle. Mae 3 wedi mynegi diddordeb ac yn cael eu hystyried. Cyhoeddir yr adroddiad a chofnodion y cyfarfod ar wefan y Cyngor. |
| **Defnydd o arian ymddiriedolaeth elusen 'Hen Ysgol Sir, Tregaron' (Mawrth – Mai 2023)** | Holodd Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau y Cyngor i bobl yn Nhregaron yn bennaf am eu barn ynghylch sut y dylid gwario'r arian a oedd wedi cael ei ddal mewn ymddiriedolaeth o werthu'r ysgol i hyrwyddo addysg plant cyn ysgol a phlant ysgol yn Nhregaron. | 25 | Cyflwynwyd y canlyniadau i'r Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau ym mis Mehefin 2023. Roedd rhan fwyaf yr ymatebion yn ymwneud â chyfleusterau chwaraeon. Caiff penderfyniadau eu gwneud gyda swyddogion o'r Porth Cymorth Cynnar a'r gwasanaethau Ysgolion i archwilio dewisiadau perthnasol. Cyhoeddir yr adroddiad a chofnodion y cyfarfod ar wefan y Cyngor. |
| **Cyfyngiadau 20 milltir yr awr ar ffyrdd y sir (4 i 28 Ebrill 2023)** | Hysbysebwyd y cynigion i newid y terfyn cyflymder ar ffyrdd penodol yn y sir i'r cyhoedd. Roedd yr ymgynghoriad hwn yn gysylltiedig â chynllun Llywodraeth Cymru i ostwng y terfyn cyflymder ar ffyrdd preswyl/lle y ceir goleuadau stryd ym mis Medi 2023. | 76 | Cyflwynwyd y canlyniadau i'r Cabinet ym mis Mehefin 2023. Nododd y Cabinet ymateb y swyddogion i'r gwrthwynebiadau, gan gymeradwyo'r cam o lunio a chyhoeddi'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig. Teimlwyd bod modd cyfiawnhau'r penderfyniad hwn ar y sail eang a roddwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y cynllun cenedlaethol hwn. Cyhoeddir yr adroddiad a chofnodion y cyfarfod ar wefan y Cyngor |
| **Strategaeth Dai Leol – 'Tai i Bawb' (Mai – Mehefin 2023)** | Holwyd pobl a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno gyda'r weledigaeth, y blaenoriaethau, yr amcanion a'r camau gweithredu a gynigiwyd yn y Strategaeth. Arweiniodd yr ymgynghoriad at wneud rhai newidiadau i fersiwn derfynol y Strategaeth. | 40 | Derbyniodd y Cabinet y newidiadau i'r Strategaeth ar 3 Hydref. Rhoddwyd cymeradwyaeth y Cyngor llawn iddi ar 26 Hydref 2023. Cyhoeddir yr adroddiad a chofnodion y cyfarfod ar wefan y Cyngor. |
| **Arolwg Rhanddeiliaid Ceredigion (Mehefin – Awst 2023)** | Gofynnwyd i bobl am adborth ynghylch pa mor dda yr ydym yn rhedeg gwasanaethau'r cyngor ar gyfer pobl Ceredigion. Roedd yr ymgynghoriad hwn yn rhan o'n proses hunanasesu flynyddol, ac roedd yr ymatebion wedi cyfrannu at ein hadroddiad hunanasesu ar gyfer 2022-23. | 148 | Cymeradwywyd adroddiad Hunanasesu 2022-23 gan y Cyngor llawn ym mis Rhagfyr 2023. Fe'i cyflwynwyd i Weinidogion Cymru, Estyn ac Archwilydd Cyffredinol Cymru hefyd. Bellach, cyhoeddwyd yr adroddiad ar ein gwefan ac mae'n cynnwys rhestr o gyfleoedd i sicrhau gwelliant er mwyn i ni roi sylw iddynt. |
| **Premiymau Treth Gyngor ar 2il Gartrefi ac Eiddo Gwag Hirdymor (Medi – Tachwedd 2023)** | Holwyd barn pobl am lefel y premiymau treth gyngor y dylid eu codi ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi yng Ngheredigion. Hyrwyddwyd yr arolwg ymhlith y cyhoedd yng Ngheredigion a hefyd, ymhlith pobl sy'n berchen ar 2il gartrefi. | 1,403 | Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Cyngor llawn ym mis Rhagfyr 2023. Cytunodd y Cyngor godi'r premiwm treth Gyngor ar eiddo gwag hirdymor o 1 Ebrill 2024, ac y byddai'r codiad yn ddibynnol ar hyd y cyfnod yr oedd yr eiddo wedi bod yn wag. Cytunodd y Cyngor godi'r premiwm treth Gyngor ar 2il gartrefi i 100% o 1 Ebrill 2024 ac i 150% o 1 Ebrill 2025. Cyhoeddir yr adroddiad a chofnodion y cyfarfod ar wefan y Cyngor. |
| **Polisi Rheoli Harbyrau (Medi – Hydref 2023)** | Roedd yr ymgyrch hwn yn agored i'r cyhoedd ac yn targedu pobl sydd â diddordeb yn yr harbyrau yn Aberaeron, Aberystwyth a Cheinewydd. Gofynnwyd i bobl am eu hadborth am y polisi diwygiedig. Rhoddwyd y newyddion diweddaraf i randdeiliaid trwy gyfrwng cyfarfodydd y Pwyllgor Ymgynghorol Defnyddwyr Harbyrau a chyhoeddiadau Dyfroedd Tawel. Gwnaethpwyd diwygiadau i'r polisi o ganlyniad i'r ymgynghoriad. | 108 | Cyflwynwyd yr ymatebion a'r polisi diwygiedig i'r Cabinet ym mis Chwefror 2024. Cymeradwyodd y Cabinet y diwygiadau a wnaethpwyd o ganlyniad i'r ymgynghoriad, a chytunodd fabwysiadu'r polisi Rheoli Harbyrau newydd. Cyhoeddir yr adroddiad a chofnodion y cyfarfod ar wefan y Cyngor. |

| Amser y Gweithgaredd | Disgrifiad | Ymateb | Trawiad yr Ymgynghoriad |
|---|---|---|---|
| **Ad-drefnu Ysgolion (Medi – Hydref 2023)** | Holwyd barn pobl am y cynnig i newid cyfrwng yr iaith yn y Cyfnod Sylfaen yn ysgolion cynradd Comins-coch, Llwyn yr Eos, Padarn Sant, Plascrug a Cheinewydd, a chynnig lle rhan-amser i ddisgyblion 3 oed yn ysgolion Comins-coch, Padarn Sant a Cheinewydd | 74 (Ceinewydd: 10 ymateb; Comins-coch: 14 ymateb; Plascrug: 27 ymateb; Llwyn yr Eos: 6 ymateb; Padarn Sant: 11 ymateb). Roedd Cynghorau Ysgol y bum ysgol ac Estyn wedi ymateb hefyd. | Penderfynodd y Cabinet ddiwygio'r ddarpariaeth iaith yn y Cyfnod Sylfaen yn ysgolion cynradd Comins-coch, Llwyn yr Eos, Padarn Sant, Plascrug a Cheinewydd. Yn ogystal, penderfynodd y Cabinet gynnig lle rhan-amser i ddisgyblion 3 oed yn ysgolion cynradd Comins-coch a Phadarn Sant, ond nid yn ysgol gynradd Ceinewydd. Cyhoeddir yr adroddiadau a chofnodion y cyfarfodydd, a gynhaliwyd ym mis Chwefror a mis Mawrth 2024, ar wefan y Cyngor. |
| **Adolygiad o Orsafoedd Pleidleisio (Hydref – Tachwedd 2023)** | Fel rhan o'r adolygiad hwn, estynnwyd gwahoddiad i bobl roi adborth am eu gorsaf bleidleisio leol, gan gynnwys cyfleusterau parcio, hygyrchedd a'u haddasrwydd yn gyffredinol. Gofynnwyd hefyd i bobl roi adborth am newidiadau i orsafoedd pleidleisio a awgrymwyd gan y Swyddog Canlyniadau. | 16 | Trafodwyd adroddiad am y broses ymgynghori a'r newidiadau arfaethedig i orsafoedd pleidleisio yn ystod cyfarfod y Cyngor llawn ym mis Ionawr 2024. Cyhoeddir yr adroddiad a chofnodion y cyfarfod ar wefan y Cyngor. |
| **Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 (Hydref – Rhagfyr 2023)** | Holwyd pobl a oeddent yn teimlo mai'r Amcanion Cydraddoldeb drafft yw'r rhai iawn i Geredigion, ac a fyddai'r cynllun gweithredu drafft yn helpu'r Cyngor i gyflawni'r amcanion. | 59 | Cyflwynwyd adroddiad i'r Cabinet ym mis Mawrth 2024. Cymeradwywyd Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 gan y Cabinet. Cyhoeddwyd yr adroddiad a chofnodion y cyfarfod ar wefan y Cyngor. Cyhoeddir y Cynllun ei hun ar y wefan hefyd, a bydd adroddiad am gynnydd y cynllun yn cael ei gyhoeddi bob blwyddyn. |
| **Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (Rhagfyr 2023 – Ionawr 2024)** | Nid oedd hwn yn ymgynghoriad cyhoeddus. Llanwyd offeryn asesu Llywodraeth Cymru yn dilyn cyfnod o ymchwil pen desg ac ymgysylltu gydag amrediad o randdeiliaid. Estynnwyd gwahoddiad i randdeiliaid penodol, gan gynnwys Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, cynrychiolydd datblygwyr preifat, y Gymdeithas Ofal, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru, Aelodau Etholedig a thimau perthnasol y cyngor i wneud sylwadau am ganfyddiadau'r Asesiad. Arweiniodd eu hadborth nhw at rai newidiadau i'r Asesiad drafft. | 18 | Cymeradwyodd y Cabinet yr Asesiad yn ystod ei gyfarfod ym mis Mawrth 2024. Bydd unrhyw gamau angenrheidiol a fydd yn dilyn yn rhan o'r Strategaeth Dai neu'r Cynllun Datblygu Lleol. Cyhoeddir yr adroddiad a chofnodion y cyfarfod ar wefan y Cyngor. |
| **Cynllun Trwyddedu ychwanegol ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth (Ionawr – Chwefror 2024)** | Gofynnwyd i bobl am eu hadborth am ansawdd y gwasanaeth a ddarparir gan eu landlord a chan Rhentu Doeth Cymru. Yn ogystal, gofynnwyd iddynt am eu hadborth am y cynllun trwyddedu tai amlfeddiannaeth. Cyfrannodd yr ymatebion at yr adolygiad o'r cynllun trwyddedu presennol, a fydd yn | 17 | Trafodwyd yr adolygiad o'r cynllun Trwyddedu Ychwanegol presennol gan y Cabinet ym mis Mawrth 2024. Cyhoeddir yr adroddiad a chofnodion y cyfarfod ar wefan y Cyngor. Cyhoeddir yr Hysbysiad Cyhoeddus sy'n cynnwys manylion y cynllun ar y wefan hefyd. |

# CEFNOGI’R HUNANASESIAD

### Undebau Llafur

Cynhelir cyfarfodydd misol rhwng y Cyngor ac Undebau Llafur cydnabyddedig. Caiff y rhain eu cadeirio gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol ar gyfer Pobl a Thrafnidiaeth ac maent yn darparu fforwm ymgynghorol i gymryd rhan mewn a helpu i lywio cyfeiriad ar gyfer materion gweithlu a phryderon unigol ynghylch lles ac ymddygiad. Mae'r ddeialog barhaus hon yn bwysig i'r Cyngor drwy sicrhau bod gan staff lais ac adeiladu ar y wybodaeth a gafwyd o'n harolygon staff a'n hymgynghoriadau.

Fel rhan o’r hunanasesiad, rydym ni wedi parhau i gwrdd a cynrychiolyddion Undebau Llafur i amlinellu'r broses Hunanasesu a'u rôl fel ymgynghorwyr statudol. Nid oes unrhyw faterion penodol wedi’u codi gan yr Undebau Llafur ar hyn o bryd, er bod hyn yn debygol o ddatblygu wrth i’r broses ymwreiddio mwy ym mhob prif gyngor. Mae gweithio mewn partneriaeth â'n Hundebau Llafur yn hanfodol i gyflawni'r Cynllun Gweithlu yn llwyddiannus, a gall adborth ar perfformiad y Cyngor cael ei ddarparu ar unrhyw adeg.

### Ymgynghori â Staff

Mae gan Geredigion hanes cryf o hysbysu staff a mesur teimladau staff, hyd yn oed cyn pandemig COVID-19 a mabwysiadu'r fenter Ffyrdd Newydd o Weithio. Mae hwn wedi parhau mewn i 2023/24 gyda dau prif darnau o waith.

Cynhaliwyd adolygiad o Weithdrefnau Gweithio Hybrid y Cyngor yn Fehefin 2023 i recordio adborth ar effeithlonrwydd y gweithdrefnau gweithio hybrid dros dro. Gofynnwyd i weithwyr a’i rheolwyr llinell i ddarparu adborth ar ei phrofiadau. Roedd yr arolwg yn cynnwys dau rhan, y rhan gyntaf i holl weithwyr a’r ail i’r rhai gyda chyfrifoldebau rheolwr llinell. Derbyniwyd 870 ymateb a oedd yn cyfateb i gyfradd ymateb o 75% a chynrychioli’r pob un ardal gwasanaeth.

Yn Hydref 2023, defnyddiwyd yr adborth yma i helpu hysbysu penderfyniad y Cyngor i fabwysiadu gweithio hybrid fel opsiwn parhaol ac i ddatblygu’r Polisi Gweithio Hybrid i ddisodli’r Polisi Gweithio Hybrid Dros Dro.

Yn hwyrach yn y flwyddyn yn Rhagfyr 2023, cynhaliwyd y Cyngor ei Arolwg Iechyd a Llesiant diweddaraf i recordio teimladau staff ar draws ystod eang o faterion o’i llesiant personol i drefniadau gweithio. Roedd cynnydd sylweddol yn y nifer o ymatebion yn yr arolwg diweddaraf gyda 1,293 ymateb. Roedd yr adborth a derbyniwyd o staff yn amhrisiadwy wrth helpu creu gweithle iachach a hapusach i bawb ac yn cael ei defnyddio i hysbysu hyfforddiant a chefnogaeth a ddarparwyd i staff.

# AROLWG RHANDDEILIAD 2023

### Arolwg Rhanddeiliaid 2023

Un enghraifft o’r ymgynghoriad a gynhaliwyd oedd yr Arolwg Rhanddeiliaid rhwng Mehefin ac Awst 2023. Roedd yr ymgynghoriad yn edrych am farnau preswylwyr, busnesau a rhanddeiliaid ar berfformiad cyffredinol y Cyngor ac ar ei chynnydd wrth gyflawni ei Amcanion Llesiant Corfforaethol.

Roedd cyfanswm o 148 ymateb, roedd y rhan fwyaf yn breswylwyr (139), gyda 5 ymateb pellach o fusnesau lleol a 4 o rhanddeiliaid arall. Cafodd yr ymgynghoriad i’w gynllunio i hysbysu proses Hunanasesu'r Cyngor a monitro parhaus o’i pherfformiad.

Yn gyfan gwbl, roedd graddfa uchel o gefnogaeth i greu cyfleoedd swyddi a darparu cyfleoedd hyfforddi i bobl leol, a hefyd cefnogaeth i wrando ar farnau pobl ifanc a blaenoriaethu cynnwys a gwasanaethau lleol. Roedd ymatebwyr hefyd yn cefnogi digwyddiadau i hybu pobl ifanc i fod yn gorffórol actif, i ddatblygu digwyddiadau cyfranogiad i sicrhau bod gan gymunedau lleol llais a bod angen i bobl leol gallu prynu tai o fyw yn lleol.

Mae’r tabl gyferbyn yn dangos sut mae’r gweithredu i ni’n cymryd yn ein Strategaeth Gorfforaethol yn alinio gydag ardaloedd blaenoriaeth a nodwyd gan ymatebwyr yn yr arolwg.

Gallwch chwilio allan mwy am ein hymgynghoriadau diweddaraf ynghyd a’r canlyniadau ar ein gwefan ymgynghoriad.

## PENAWDAU

**59%** **yn fodlon neu yn fodlon iawn gyda Ceredigion fel lle i fyw**

*(26% anfodlon neu anfodlon iawn)*

**30%** **yn teimlo bod yr Adroddiad Hunanasesu yn defnyddiol neu defnyddiol iawn**

*(31% ddim yn gweld yn ddefnyddiol neu ddim yn ddefnyddiol o gwbwl, dywedodd 35% ychwaith)*

**28%** **yn cytuno neu cytuno’n gryf gyda’r mesuriadau perfformiad sy’n cael ei monitro**

*(18% anghytuno neu anghytuno yn gryf , dywedodd 48% ychwaith)*



# YR HYN A DDYWEDOCH

**ALLWEDD:**

- Hybu'r Economi, Cefnogi Busnesau a Galluogi Cyflogaeth
- Darparu'r Dechrau Gorau Mewn Bywyd a Galluogi Bobl o Bod Oed i Ddysgu
- Creu Cymunedau Gofalgar ac Iach
- Creu Cymunedau Cynaliadwy sy'n fwy Gwyrdd ac sydd wedi'u Cysylltu'n Dda â'i Gilydd

| YR HYN A DDYWEDOCH | SUT MAE EIN STRATEGAETH GORFFORAETHOL YN ALINIO |
|---|---|
| **90%**<br>yn cytuno neu gytuno yn gryf bod creu **cyfleoedd swyddi** a phrentisiaethau i bobl ifanc yn bwysig | • Datblygu Bargen Twf Canolbarth Cymru gwerth £110m<br>• Cefnogi busnesau newydd a busnesau sy'n tyfu yn y Sir<br>• Creu cyfleoedd gwaith newydd i bobl ifanc medrus<br>• Hybu cyfle cyfartal mewn cyflogaeth<br>• Datblygu prentisiaethau yn y Sir ymhellach |
| **82%**<br>yn cytuno neu cytuno yn gryf bod hi'n bwysig i **flaenoriaethu cynnyrch** a chadwynai cyflenwi **o ffynonellau lleol** | • Blaenoriaethu cynnyrch o ffynonellau lleol a chadwyni cyflenwi<br>• Cefnogi busnesau lleol wrth wella o COVID-19<br>• Cyflawni twf economaidd cynaliadwy<br>• Cyllid teg o fewn rhaglen Arfor |
| **78%**<br>yn cytuno neu gytuno yn gryf bod **tlodi** yn broblem yng Ngheredigion | • Mynd i'r afael a thlodi yng Ngheredigion<br>• Cefnogi rhieni sy'n gweithio yng Ngheredigion |
| **80%**<br>yn cytuno neu gytuno yn gryf bod angen **datblygu gweithgareddau cyfranogiad** i sicrhau bod gan gymunedau lleol llais | • Datblygu digwyddiadau cyfranogiad ymhellach i sicrhau bod gan gymunedau lais<br>• Gwella rôl Cysylltwyr Cymunedol i gefnogi datblygiad cymunedau cydnerth |
| **62%**<br>yn cytuno neu gytuno yn gryf bod hi'n bwysig hybu a diogelu'r **iaith Gymraeg** yng Ngheredigion | • Hybu'r Gymraeg yng Ngheredigion<br>• Cyflawni Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSCA) 2022 i 2032<br>• Sicrhau bod disgyblion yn gyfathrebwyr hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg erbyn digwydd Cyfnod Allweddol 2 (blwyddyn 6)<br>• Annog cadw enwau lleoedd Cymraeg |
| **49%**<br>yn cytuno neu gytuno yn gryf bod yna nifer o gyfleoedd i bobl cyfranogi tuag at ei chymuned leol trwy **wirfoddoli** | • Datblygu a chynyddu nifer y grwpiau a rhaglenni cymorth<br>• Gweithffyrdd+ Ceredigion i helpu pobl nad ydynt mewn cyflogaeth i gael mynediad at hyfforddiant, profiad gwaith, gwirfoddoli a chyfleoedd gwaith<br>• Datblygu perthnasoedd ymhellach gyda sefydliadau trydydd sector, gan hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli a llwybr 'hyrwyddwr cymunedol' |

| YR HYN A DDYWEDOCH | SUT MAE EIN STRATEGAETH |
|---|---|
| **93%**<br>agreed or strongly agreed that opportunities for **local people to upskill** through education and training is important | • Gwella'r ddarpariaeth sgiliau a chyfleoedd dysgu i bobl 16+ oed<br>• Datblygu sgiliau arwain ein Plant a'n Pobl Ifanc ar y cyfle cyntaf<br>• Sicrhau bod pob dysgwr sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cael eu cefnogi i fod yn unigolion annibynnol |
| **83%**<br>agreed or strongly greed that it is important that the **voices of children and young people** are heard | • Cefnogi Cyngor Ieuenctid Ceredigion fel fforwm i blant a phobl ifanc |
| **83%**<br>agreed or strongly agreed that developing confidence in children to be **physically active** is important to providing the best start in life | • Annog a galluogi pobl i fod yn gorfforol egnïol fel y gallant elwa ar iechyd a lles cadarnhaol<br>• Datblygu cynllun gwella ar gyfer darpariaeth strategol cyfleusterau i gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol yn y sir<br>• Datblygu sgiliau, gwybodaeth a hyder Plant a Phobl Ifanc i wneud ymarfer corff<br>• Lansio Canolfannau Llesiant ar draws y Sir |
| **86%**<br>agreed or strongly agreed It is important that local people are able to **buy homes, or live locally** | • Byddwn yn parhau i fynd i'r afael a materion ail gartrefi, perchnogaeth tai haf, a throsi cartrefi preswyl i dai gwyliau drwy geisio cefnogaeth Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth o dan y Ddeddf Cynllunio a'r Gwasanaeth Trethi<br>• Galluogi mwy o bobl ifanc i adeiladu cartref am oes |
| **65%**<br>agreed or strongly agreed that more **social housing** is needed | • Gweithio gyda Chymdeithasau Tai i gynyddu ein stoc tai cymdeithasol |
| **64%**<br>agreed or strongly agreed that further **provision for active travel** (e.g. walking and cycling) is needed in Ceredigion | • Cynyddu'n sylweddol y ddarpariaeth teithio llesol gan gynnwys cerdded a beicio ledled y Sir er mwyn gwella iechyd ein poblogaeth.<br>• Sicrhau mwy o arian ar gyfer darparu ystod eang o welliannau teithio llesol<br>• Ymgyrchu dros lwybrau teithio llesol ar hyd ein cefnffyrdd i gyd |

# ADOLYGIAD O'R AMCANION LLESIANT

Cyhoeddwyd y Strategaeth Gorfforaethol newydd ym mis Tachwedd 2022 a chytunwyd mai'r Amcanion Llesiant Corfforaethol newydd oedd:

- Hybu'r economi, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth
- Creu cymunedau gofalgar ac iach
- Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd a galluogi pobl o bob oed i ddysgu
- Creu cymunedau cynaliadwy a gwyrdd sydd wedi'u cysylltu'n dda â'i gilydd

Mae Amcanion Llesiant Corfforaethol y Cyngor yn galluogi darparu gwasanaethau a fydd yn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol dinasyddion a chymunedau Ceredigion. Adolygwyd yr Amcanion yn ystod 2022 a chytunwyd ar set newydd i gyd-fynd â'r Strategaeth Gorfforaethol newydd. Nodwyd yr Amcanion newydd drwy amrywiaeth eang o dystiolaeth, gan gynnwys ymgysylltu â'r cyhoedd, Asesiad Llesiant Lleol Ceredigion ac uchelgeisiau'r weinyddiaeth wleidyddol newydd.

Cam cyntaf y broses oedd cynnal dadansoddiad pen bwrdd o amrywiol ddarnau o dystiolaeth, er mwyn nodi'r prif faterion sy'n effeithio ar lesiant dinasyddion Ceredigion. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys adolygu Asesiad Llesiant Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion, a oedd yn darparu darlun cynhwysfawr o lesiant yn y sir, gan gynnwys gwaith ymgysylltu eang â'r cyhoedd yn ystod 2021. Trwy hyn, cawsom wybod am bryderon pobl a'r meysydd y byddent yn dymuno eu gweld yn cael eu gwella.

Ar ôl hynny, tynnwyd yr adborth ynghyd a'i ddehongli gan ystyried blaenoriaethau'r weinyddiaeth newydd dros y bum mlynedd nesaf a'i gymharu â'r Asesiad i nodi unrhyw flychau. Cynhaliwyd gweithdai gyda gwasanaethau'r Cyngor fel cam arall yn y broses ac aethpwyd ati i ddatblygu'r camau unigol y byddai angen eu cymryd i gyflawni'r Amcanion.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor osod a chyhoeddi Amcanion Llesiant sydd wedi'u cynllunio i wneud y mwyaf o'n cyfraniad at gyflawni'r saith Nod Llesiant ar gyfer Cymru a nodir yn y Ddeddf. Ar yr un pryd mae'n rhaid i ni gyhoeddi datganiad yn egluro pam y bydd cyflawni'r amcanion yn cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant a pha gamau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni'r amcanion.


Mae'r Ddeddf hefyd yn gofyn i ni adolygu'r Amcanion yn flynyddol i sicrhau bod nhw'n parhau i fod yr Amcanion cywir i Geredigion ac yr ydym yn eu cyflawni. Yn hydref 2023 cafwyd ei adolygu a chytunwyd gan y Cyngor bod y rhain yn parhau i fod yn ardaloedd blaenoriaeth i'r Cyngor a fyddant yn parhau yn ei le i 2024/25.

Mae'r tudalennau canlynol yn rhoi crynodeb o sut mae ein Hamcanion Llesiant ar yn cyfrannu at y Nodau Llesiant cenedlaethol, adolygiad o gynnydd yn erbyn cyflawni'r Amcanion a sut rydym wedi cymhwyso'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy.

## Ein Gweledigaeth:

**Mae Cyngor Sir Ceredigion yn darparu gwasanaethau cyhoeddus dwyieithog cynaliadwy gwerth am arian sy'n cefnogi economi gref ac amgylchedd iach wrth hyrwyddo llesiant yn ein pobl a'n cymunedau**

## Ein Amcanion Llesiant Corfforaethol:



# ASESU CYNNYDD 2023/24

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol adolygu cynnydd yn cyflawni eu hamcanion llesiant. Er ein bod yn adolygu cynnydd yn barhaus, rydym yn cyhoeddi ein perfformiad diweddaraf bob blwyddyn yn ein Hadroddiad Hunanasesu.

Mae'r adroddiad hwn yn cyfuno gofynion adrodd statudol Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Wrth asesu ein cynnydd drwyddi draw, rydym yn defnyddio Gwiriwr Siwrnai Cenedlaethau'r Dyfodol i gynorthwyo wrth lunio asesiad safonol o'n cynnydd yn erbyn pob Amcan Llesiant Corfforaethol.

Mae'r Gwiriwr Siwrnai yn offer defnyddiol sy'n categoreiddio cynnydd yn ôl pum maen prawf, sy'n amrywio o 'Dim Newid' lle nad oes cynnydd wedi'i wneud i 'Arwain y Ffordd' sy'n golygu y gwnaed cynnydd da a bod lefel ein dealltwriaeth am y materion sy'n effeithio llesiant yn gynhwysfawr a bod anghenion cenedlaethau'r dyfodol yn cael eu deall a'u hystyried gan bawb. Gwelir y categorïau hyn yn y system sgorio yn y tabl isod. Gwelir tudalennau 38, 42, 46 a 50 ar gyfer y sgôr yn erbyn pob Amcan.

Mae'r Gwiriwr Siwrnai yn ffordd ddefnyddiol o asesu'r camau gweithredu unigol a wnaed, yn ogystal ag asesu sut rydym yn cyflawni'r amcanion.

Ar y tudalennau canlynol ceir adolygiad o'n cynnydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys rhai uchafbwyntiau a llwyddiannau diweddar, ynghyd â rhai o'r cyflawniadau i'r hirdymor wrth gyflawni ein Hamcanion Llesiant Corfforaethol.

## Gwiriwr Taith Cenedlaethau'r Dyfodol

| DIM NEWID | NEWID SYML | MWY ANTUROL | HUNAIN UCHELGAIS | ARWAIN Y FFORDD |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |



## CYFLAWNIADAU ALLWEDDOL

Yn ystod 2023/24 ymdriniodd ein canolfan cyswllt cwsmeriaid (CLIC) â'r ymholiadau canlynol:

**106,079**

Galwad ffôn wedi derbyn yn ystod y flwyddyn 2023/24

**22,555**

E-bost wedi ymateb i yn ystod y flwyddyn 2023/24

**90,419**

Ymholiad wedi cofnodi yn ystod y flwyddyn 2023/24

**15.5%**

O galwadau ffôn yn y Gymraeg yn ystod 2023/24



# HYBU'R ECONOMI, CEFNOGI BUSNESAU A GALLUOGI CYFLOGAETH

## CYNNYDD A WNAED

- Dros y flwyddyn ddiwethaf, llwyddwyd i sicrhau cynnydd da ar Fargen Twf Canolbarth Cymru, sydd bellach ar fin cyrraedd y cam cyflawni. Yn ystod y flwyddyn, cyflwynwyd yr Achos Busnes Portffolio Strategol wedi'i ddiweddaru i Lywodraethau Cymru a'r DU yn ffurfiol, a chafwyd cyfran gyntaf cyllid y Fargen Twf, a oedd yn werth £4m. Cytunodd y ddwy lywodraeth ddarparu £55m, gan roi cyfanswm o £110m, dros gyfnod o hyd at 15 mlynedd. Bydd y cam cyflawni yn golygu y bydd rhai o'r prosiectau a'r rhaglenni mewn sefyllfa i gychwyn ar y gwaith cyflawni yn 2024 efallai, gan arwain at greu swyddi, rhoi hwb i weithgarwch economaidd a denu buddsoddiad pellach.
- Mae'r Cyngor wedi bod yn llwyddiannus hefyd wrth wneud cais am £10.9m ar ffurf cyllid Ffyniant Bro ar gyfer Aberystwyth gan Lywodraeth y DU, a llwyddwyd i sicrhau buddsoddiad pellach sy'n werth £2.8m gan Gronfa Adfywio Cymunedol Llywodraeth y DU.
- Mae'r Cyngor wedi gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Sir Powys ac amrediad o fusnesau lleol i lansio Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru 2022-25. Trwy ymgysylltu'n agos â busnesau a rhoi llais iddynt i ddylanwadu ar flaenoriaethau ar gyfer y rhanbarth, mae'r Cynllun yn rhoi sylw i bwysigrwydd ffurfio cysylltiadau cryf rhwng y system ddysgu leol a'r sgiliau y mae eu hangen ar draws y rhanbarth, fel ein bod yn creu'r amodau cywir ar gyfer gweithlu sy'n ffynnu.
- Mae Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru 2022-25 yn rhoi sylw i'r rhwystrau a'r problemau y mae busnesau yng Nghanolbarth Cymru yn eu hwynebu. Lansiwyd y Cynllun yn ystod digwyddiad Tyfu – Diffinio – Darparu Gyda'n Gilydd, ac mae'n nodi sectorau a sgiliau allweddol, blaenoriaethau ar gyfer buddsoddiad rhanbarthol i gynorthwyo swyddi a thwf yn rhanbarth Canolbarth Cymru ac mae'n nodi'r mecanwaith er mwyn creu seilwaith sgiliau mwy ffyniannus ar gyfer y rhanbarth ar gyfer y 3 blynedd nesaf a thu hwnt. Mynychwyd y digwyddiad gan 61 o bobl a oedd yn cynrychioli 17 sefydliad, yr oeddent oll wedi cyfrannu at y trafodaethau bord gron rhyngweithiol i ddeall y rhwystrau o ran sgiliau a recriwtio. Estynnwyd gwahoddiad i fusnesau gofrestru eu diddordeb mewn mynychu'r grŵp clwtswr busnes cyntaf ac ymuno â rhestr bostio Tyfu Canolbarth Cymru er mwyn ymwneud yn fwy â gwaith y Bartneriaeth.
- Mae Gweithffyrdd+ Ceredigion wedi parhau i helpu pobl nad ydynt mewn cyflogaeth i fanteisio ar hyfforddiant wyneb yn wyneb ac ar-lein wedi'i ariannu, profiad gwaith, cyfleoedd gwirfoddoli a swyddi. Caiff y cynllun ei staffio gan swyddogion o Gyngor Sir Ceredigion, ac fe'i ariannir yn rhannol trwy Lywodraeth Cymru. Mae cymorth ar gael i helpu pobl sy'n cael eu heffeithio gan gyflyrau neu anableddau sy'n cyfyngu ar eu gwaith; gofalwyr; y rhai heb gymwysterau neu gymwysterau ar lefel isel; pobl sydd â chyfrifoldebau gofal plant; y rhai dros 54 oed; pobl mewn aelwyd unigolion sengl neu aelwyd heb waith neu unrhyw un o grŵp Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol.
- Mae'r Tîm Cymorth Cyflogadwyedd, a ariannir gan brosiect Cymunedau ar gyfer Gwaith + gan Lywodraeth Cymru, yn cynnig help i bobl yng Ngheredigion nad ydynt mewn gwaith, addysg, na hyfforddiant, i chwilio am swyddi a chyfleoedd hyfforddi.
- Neilltuwyd cyllid i 14 prosiect er mwyn codi lefelau rhifedd oedolion ar draws Canolbarth Cymru. Trwy gyfrwng rhaglen Multiply Llywodraeth y DU, sy'n rhan o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, rhoddir dyraniad o ychydig dan £2 filiwn i gyflawni amrywiaeth o brosiectau. Mae'r mathau o brosiectau sydd wedi llwyddo i sicrhau cyllid yn cynnwys cynorthwyo pobl i fod yn fwy hyderus gyda rhifau, cynnal cyrsiau er mwyn helpu pobl i ddefnyddio rhifedd i reoli eu harian, gweithio gyda chyflogwyr i ddarparu cyrsiau sy'n ymwneud â sgiliau rhifedd penodol y mae eu hangen yn y gweithle a chynorthwyo'r dysgwyr anoddaf i'w cyrraedd.
- Ar y cyd â Chyngor Sir Powys, llwyddodd Cyngor Sir Ceredigion i sicrhau cyllid i gefnogi prosiect er mwyn galluogi 'Trefi Clyfar' yng Ngheredigion. Mae'r prosiect wedi golygu gosod pwyntiau mynediad wi-fi yn Aberaeron, Llandysul, Llanbedr Pont Steffan, Ceinewydd a Thregaron, ac mae systemau eisoes yn eu lle yn Aberystwyth ac yn Aberteifi. Bydd y defnydd mwy o dechnoleg yn galluogi Cynghorau Tref a'r Cyngor Sir i fanteisio ar ddata a gwaith dadansoddi, a fydd yn cynorthwyo gweithgarwch cynllunio ar gyfer y dyfodol a busnes mwy effeithlon yn gweithredu a thwf, yn ogystal â'r posibilrwydd o gynnig gwell profiad i ymwelwyr. Barnir y bydd y dechnoleg hon yn cynorthwyo busnesau ac yn cynnig budd cadarnhaol i weithgarwch adfywio. Bydd hyn yn galluogi busnesau i gynllunio prosiectau sy'n arwain at dwf economaidd, yn ogystal â'u helpu i wneud y defnydd gorau o dechnoleg ddigidol.
- Mae buddsoddiadau wedi arwain at sefyllfa lle mai Ceredigion yw'r sir gyntaf i gael rhwydwaith LoRaWAn ar draws y sir sydd ar gael i bartneriaid yn y sector cyhoeddus a phreifat i wella'r defnydd o dechnoleg fel cymorth ar gyfer effeithlonrwydd busnes. Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi cwblhau'r broses o osod 40 o Byrth LoRaWAN ar nifer o asedau'r Cyngor er mwyn creu'r rhwydwaith. Ceredigion yw'r rhwydwaith mwyaf helaeth ar draws unrhyw awdurdod lleol arall yng Nghymru, a'r cyntaf i sicrhau cwmpas ar draws cryn dipyn o'r sir. Yn ogystal â mynediad i'r Cyngor, bydd y rhwydwaith ar gael ac yn hygyrch i bob busnes, sefydliad a phreswylydd.
- Y Cyngor yw'r awdurdod arweiniol dros Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU (UKSPF) yn Rhanbarth Canolbarth Cymru. Y cyllid dangosol ar gyfer Ceredigion yw £12.4m ar gyfer blynyddoedd 2022/23 i 2024/25. Mae £2.9m yn gyllid ar gyfer prosiectau cyfalaf ac mae £9.5m ar gyfer prosiectau refeniw. Mae UKSPF yn rhan o gyfres o gyllid gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'i Pholisi Ffyniant Bro a'i fwriad yw meithrin balchder mewn ardaloedd lleol, grymuso cymunedau lleol a chynyddu cyfleoedd bywyd pobl leol. Mae Cynghorau Powys a Cheredigion yn rheoli darpariaeth leol prosiectau yn eu

hardaloedd.  Hyd yn hyn, dyfarnwyd cyllid ar gyfer 162 o brosiectau yn y rhanbarth, sy'n werth £37 miliwn.

- Mae pedwar prosiect yng Ngheredigion, ynghyd â phump ym Mhowys, wedi cael cyllid sy'n werth ychydig dros £1.3m at ei gilydd gan raglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru, a disgwylir y bydd hyn yn ysgogi buddsoddiad posibl a fydd yn werth ychydig dros £3m.  Mae'r prosiectau hyn yn rhan o'r cynllun Grant Creu Lleoedd cyffredinol, sy'n eistedd dan y rhaglen Trawsnewid Trefi.  Y canol trefi yng Ngheredigion lle y mae'r prosiectau yn cael eu cynnal yw Aberystwyth, Aberteifi a Llandysul.  Mae Trawsnewid Trefi yn rhaglen gan Lywodraeth Cymru sy'n darparu £7 miliwn pellach ar gyfer adfywio canol trefi yng nghanolbarth Cymru dros dair blynedd.
- Gyda chymorth cyllid Leader trwy gyfrwng rhaglen Cynnal y Cardi, mae Swyddog Datblygu Trefi yn ei le i ymgysylltu â chynrychiolwyr trefi er mwyn helpu i hwyluso a chynorthwyo syniadau i adfywio trefi gwledig Ceredigion.
- Ym mis Mawrth 2024, cymeradwyodd Cyngor Sir Ceredigion y cam o fabwysiadu Ardrethi Annomestig - Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25.  Nod y cynllun yw cynnig cymorth trwy gynnig gostyngiad o 40% ar filiau ardrethi annomestig i fusnesau cymwys sydd mewn safleoedd ac sy'n gweithredu yn y sectorau manwerthu, hamdden a lletygarwch, megis siopau, tafarndai a bwyta, campfeydd, lleoliadau perfformio a gwestai.  Bydd y cynllun, a ariannir yn llawn gan Lywodraeth Cymru, yn cynorthwyo tua 600 o fusnesau yng Ngheredigion, gyda swm amcangyfrifedig o £2.3m.
- Mae Cyngor Sir Ceredigion a'i bartneriaid ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion yn parhau i weithio mewn ffordd ragweithiol i liniaru achosion ac effeithiau tlodi yng Ngheredigion.
- Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi darparu banciau bwyd ar draws y sir, gyda chyfran o £30,000 gan y gronfa Atal Digartrefedd Ddewisol, a roddir i awdurdodau lleol gan Lywodraeth Cymru.  Daw yr hwb wrth i fanciau bwyd weld cynnydd enfawr yn y galw am eu gwasanaeth o ganlyniad i'r argyfwng costau byw.
- Canfu yr Adolygiad Dilynol o'r Gwasanaeth Cynllunio bod y Cyngor wedi "gweithredu yn gyflym" i ymateb i'r argymhellion a wnaethpwyd gan Archwilio Cymru a bod cynnydd da yn cael ei sicrhau.  Bu'r archwilwyr yn cydweithio'n agos â'r Cyngor i nodi meysydd y mae angen rhoi sylw iddynt a'u gwella, sydd wedi ei alluogi i symud yn gyflym i ymateb i a gweithredu nifer o argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol.  Mae'r Adroddiad Dilynol yn cydnabod y cynnydd da a wnaethpwyd, trwy gyflwyno sawl newid i'r trefniadau llywodraethu sy'n cynorthwyo'r Pwyllgor Rheoli Datblygu.  Mae hefyd yn cynnig argymhellion pellach sy'n cynnwys gwaith i fireinio'r trefniadau a'r prosesau archwilio safle er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor yn canolbwyntio ar geisiadau sy'n strategol bwysig.
- Bydd Prosiect Neuadd y Farchnad Aberteifi yn hwyluso'r gwaith o adnewyddu, trwsio a darparu cyfleusterau wedi'u diweddaru ar gyfer y Neuadd y Farchnad Gradd 2* hanesyddol, gan sicrhau ei dyfodol ar gyfer y tymor hir a'i chynaliadwyedd ar gyfer masnachwyr marchnad a chyfleoedd ar gyfer mentrau newydd.  Bydd y prosiect yn rhoi sylw i rai gwelliannau strwythurol y mae'n ofynnol eu gwneud i'r adeilad ac sy'n gwella ei apêl cyffredinol a'i gyfraniad i fywiogrwydd y dref.
- Cost amcangyfrifedig y prosiect ar gyfer Cam 1 a 2 yw £2.95 miliwn, a chaiff cyllid ei sicrhau gan amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys gan Gronfa Strategol Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru, y mae Cyngor Sir Ceredigion wedi darparu cyllid cyfatebol rhannol ar ei gyfer.  Yn ogystal â bod yn fan i fusnesau bychain ddatblygu a thyfu, gan sicrhau cyflogaeth gynaliadwy dros y tymor hir, mae'n cynnig gwerth treftadaeth arwyddocaol i'r dref ac mae'n denu ymwelwyr o'r ardal ehangach.

## CYFLAWNIADAU ALLWEDDOL

**£10.9m**
o gyllid cyfalaf wedi'i sicrhau trwy'r Gronfa Codi'r Gwastad 2022-25

**£2.5m**
cyllid cyfalaf allanol a ddenwyd

**111**
o Fusensau wedi'i cefnogi ar draws Ceredigion a 38 o fusnesau newydd a chefnogwyd

**35**
Cefnogir prosiectau adfywio ar draws y Sir

**312**
Talwyd cyfanswm o £124,800 i dderbynwyr y Cynllun Cymorth Mesur Ynni

**387**
Cynllun Cymorth Bil Ynni Derbynwyr Taliadau Tanwydd Amgen yn cael eu talu gwerth cyfanswm o £77,400

**46**
Swyddi newydd wedi eu creu yn ystod y flwyddyn trwy waith y Cyngor

**£42.4m**
Cymeradwyo cais rhanbarth Canolbarth Cymru ar gyfer Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU

# GWELLA CANLYNIADAU

## CEFNOGI BUSNESAU LLEOL

Mae Cynnal y Cardi yn parhau i gynorthwyo gweithgarwch adfywio cymunedol gwledig trwy gyfrwng prosiectau peilot, astudiaethau dichonolrwydd, hwyluso, gweithgareddau rhwydweithio a hyfforddiant a mentora.

Ei nod yw ysgogi arloesi sy'n cynyddu gwerth ac amrywiaeth cyfle economaidd cynaliadwy i bobl Ceredigion. Cefnogwyd tua 70 prosiect hyd yn hyn.

Ailagoroddd dau gynllun sy'n darparu cyllid er mwyn cynorthwyo cymunedau a busnesau yng Ngheredigion am ail rownd o geisiadau ym mis Chwefror 2024.

Mae Cronfa Cymorth a Datblygu Cymunedol Cynnal y Cardi yn cynnig grantiau bychain o £1,000 i £10,000 a grantiau mwy o £10,001 i £50,000.

Mae Cronfa Cynorthwyo Busnesau Lleol Cynnal y Cardi hefyd yn cynnig grant busnes bach o £1,000 i £10,000 a grantiau datblygu busnes o £10,000 i £50,000.

Nod y cronfeydd hyn yw **cryfhau entrepreneuriaeth leol** a **chynorthwyo busnesau yn ystod pob cam o'u datblygiad**, o'u cychwyn ac wrth iddynt gynnal, tyfu ac arloesi, gan gynnwys trwy rwydweithiau lleol.

Yn y pen draw, mae **meithrin cydnerthedd, tyfu'r economi leol** a **chreu cyfleoedd i bobl leol** yn cynorthwyo adfywio cymunedol Ceredigion trwy ddatblygu cymunedau **cryfach a mwy bywiog** a **chan hyrwyddo datblygiad cymdeithasol ac economaidd**.

## RHANNU FFYNIANT

Mae Strategaeth Economaidd 15 mlynedd Ceredigion yn nodi sut y byddwn yn cydweithio i sicrhau twf economaidd cadarn, cynaliadwy a mwy cydnerth i Geredigion, a gaiff ei greu a'i rannu gan bawb.

Mae'r Strategaeth yn canolbwyntio ar y meysydd dylanwad lle y gall y Cyngor wneud gwahaniaeth i'r economi, h.y. sut y mae'n defnyddio ei asedau cyfalaf, dynol a refeniw i gael effaith gadarnhaol ar yr economi yng Ngheredigion.

Mae'r Strategaeth yn nodi'r camau a fydd yn rhoi sylw i'r heriau a'r cyfleoedd sy'n bodoli yn yr economi leol. Mae'n canolbwyntio ar bedwar maes blaenoriaeth – Pobl, Menter, Lle a Chysylltedd, ac mae pob adran yn amlinellu rhai o'r ymyriadau cynnar a ystyriwyd.

Mae nifer o fentrau eisoes wedi cael eu datblygu a'u gweithredu dan y cyfeiriad strategol a bennwyd gan y Strategaeth Economaidd. Llwyddwyd i sicrhau swm sylweddol o gyllid allanol gan amrediad o sefydliadau sy'n rhanddeiliaid, a fydd yn galluogi'r blociau adeiladu i weithredu twf economaidd pellach.

Mae'r buddsoddiad a darpariaeth prosiectau hyd yn hyn wedi cynorthwyo nodau'r strategaeth i **gynorthwyo busnesau i gychwyn a thyfu, gan hyrwyddo Ceredigion fel lle i fyw, gweithio ac ymweld ag ef, gan arwain at ddatblygu sgiliau yn y gweithlu.**

Bydd y Strategaeth yn parhau i dywys datblygiad prosiectau pellach i gyflawni nodau'r Strategaeth dros y bymtheg mlynedd nesaf.

## TYFU'R ECONOMI

Mae Bargen Twf Canolbarth Cymru wedi parhau i sicrhau cynnydd yn ystod 2023/24, ac mae bellach ar fin cyrraedd y cam cyflawni, a fydd yn golygu y bydd rhai o'r prosiectau a'r rhaglenni mewn sefyllfa i ddechrau darparu yn 2024/25 efallai, gan arwain at greu swyddi, rhoi hwb i weithgarwch economaidd a denu buddsoddiad pellach.

Mae'r Fargen Twf yn bartneriaeth sy'n torri tir newydd, gan ddwyn buddsoddiad cyfunol o £110m gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, y disgwylir iddo sicrhau buddsoddiad ychwanegol sylweddol gan ffynonellau cyhoeddus a phreifat eraill.

Yn ystod y flwyddyn, cyflwynwyd yr achos Busnes Portffolio Strategol wedi'i ddiweddaru i Lywodraethau Cymru a'r DU a chafwyd cyfran gyntaf y cyllid, sy'n werth £4miliwn, gan alluogi'r Fargen Twf i symud ymlaen i'r cam cyflawni nesaf.

Mae hon yn garreg filltir allweddol i Geredigion a rhanbarth Canolbarth Cymru ac mae'n ategu ymddiriedaeth Llywodraeth Cymru a'r DU yn y Fargen Newydd i gyflawni ei hamcanion.

Ers hynny, mae'r Rhaglenni a'r Prosiectau sy'n ffurfio Portffolio Bargen Twf Canolbarth Cymru wedi bod yn datblygu eu hachosion busnes. Byddant yn cyfrannu at gyflawni un o'r meysydd Blaenoriaeth Twf Strategol canlynol:

- Arloesi ac Ymchwil Gymhwysol
- Amaethyddiaeth, Bwyd a Diod
- Cynnig Twristiaeth Cryfach
- Digidol

Cynorthwyo Menter

Disgwylir i'r Fargen Twf ddwyn buddion uniongyrchol ac anuniongyrchol, gan gynnwys twf o ran ffyniant rhanbarthol a chreu swyddi o ansawdd gwell ar gyfer y farchnad lafur leol. Bydd dyraniad cyntaf y cyllid i'r rhanbarth yn galluogi Tyfu Canolbarth Cymru i gynnig cymorth ariannol i'r prosiectau a'r rhaglenni pan fyddant yn barod i'w gael.

Mae'r allbynnau y mae modd eu cyflawni yng Nghanolbarth Cymru trwy gyfrwng buddsoddiad y Fargen Twf fel a ganlyn:

- Creu rhwng 1,100 a 1,400 o swyddi newydd yng Nghanolbarth Cymru erbyn 2032.
- Cynorthwyo ymgodiad Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) ychwanegol net o rhwng £570m a £700 miliwn ar gyfer Economi Canolbarth Cymru erbyn 2032.
- Darparu buddsoddiad cyfan gwbl o hyd at £400 miliwn yn economi Canolbarth Cymru erbyn 2032.

Mae'r canlyniadau y disgwylir i'r Fargen Twf eu cyflawni fel a ganlyn:

- **Twf mewn ffyniant rhanbarthol**
- **Creu swyddi o ansawdd gwell ar gyfer y farchnad lafur leol**
- **Gweithlu mwy medrus yn y rhanbarth**
- **Gwelliannau mewn safonau byw ar draws y rhanbarth.**

Yn ogystal, disgwylir i'r rhaglenni a'r prosiectau a gefnogir gan y Fargen Twf i sicrhau buddion cymdeithasol ac economaidd ehangach, megis **ansawdd bywyd gwell, creu cyfleoedd** busnes yn dilyn effaith COVID-19, **datgarboneiddio** mewn diwydiant ac ystyried effeithiau newid hinsawdd.

# DARPARU DATBLYGU CYNALIADWY

## Asesiad cyffredinol o'r daith hyd yn hyn

Mae cynnydd wrth fodloni'r flaenoriaeth hon yn ***dda*** ac mae'r rhagolygon gwella yn ***dda***. Mae'r camau i ddarparu cyfleoedd cyflogaeth a datblygu cynlluniau partneriaeth gydweithredol ac arloesol yn symud ymlaen yn dda. Un pwynt penodol ydy'r symudiad yn nes at dynnu lawr y fargen dwf o £110m ar gyfer y rhanbarth i ddatgloi potensial yr economi leol a chreu amrywiaeth o gyfleoedd ar gyfer cyflogaeth a datblygu sgiliau busnesau lleol yn arbennig o bwysig.

Mae Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru yn enghraifft o gydweithio i sicrhau ein bod yn cryfhau'r economi leol a rhanbarthol fel rhan o Gymru lewyrchus a chydnerth ar ôl COVID-19.

YN BERCHEN AR EIN HUCHELGAIS

## MWYHAU EIN CYFRANIAD AT Y NODAU LLESIANT CENEDLAETHOL

Mae'r nod llesiant corfforaethol **Hybu'r economi, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth** yn cefnogi'r nodau llesiant cenedlaethol canlynol.

▶

| |
|---|
| Llewyrchus |
| Cydnerth |
| Iachach |
| May Cyfartal |
| Cydlynus |
| Diwylliant |
| Byd-eang |

### Hirdymor

- Mae'r Strategaeth Economaidd yn cynllunio ar gyfer datblygiad hirdymor yr economi hyd at 2035
- Mae Bargen Twf Canolbarth Cymru a'r Strategaeth Economaidd yn mynd i'r afael â gwendid-au strwythurol hirdymor
- Mae Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru yn gosod y weledigaeth ar gyfer amserlen 15+ mlynedd
- Defnyddiwyd dadansoddiad tueddiadau yn y dyfodol i ddatblygu gweledigaeth Tyfu Canol-barth Cymru

### Atal

- Bydd mwy o gyfleoedd economaidd yn atal allfudo pellach o bobl ifanc medrus
- Bydd twf economaidd yn atal effaith negyddol patrymau mudo yn y dyfodol ar y Gymraeg a diwylliant Cymru
- Bydd ymyriadau yn y Strategaeth Economaidd yn atal twf pellach yn y bwlch cynhyrchiant
- Bydd denu a chreu cyfleoedd swyddi â chyflogau uchel yn helpu i atal aelwydydd rhag mynd i dlodi a chaledi

### Cydweithio

- Mae Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru yn dod â'r sectorau cyhoeddus, preifat ac academ-aidd ynghyd i gyflawni nodau a rennir
- Gweithio gyda Chyngor Sir Powys a Llywodraeth Cymru a'r DU i wneud y defnydd gorau o adnoddau a manteisio ar gyfleoedd
- Mae Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru yn dod ag arweinwyr busnes a rhan-ddeiliaid ar draws y rhanbarth ynghyd i ddeall y ddarpariaeth sgiliau ac anghenion y farchnad lafur, er mwyn ysgogi buddsoddiad sy'n bodloni gofynion cyflogwyr a'r gweithlu.

### Cynnwys

- ae busnesau'r sector preifat, ysgogwyr twf economaidd yn y dyfodol, yn rhan o'r gwaith o nodi blaenoriaethau a strategaethau allweddol
- Y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector sy'n ymwneud â llunio rhaglen y Cyn-llun Twf sy'n dod i'r amlwg
- Ymgymerwyd yn helaeth â datblygiad y Strategaeth Economaidd
- Seiliwyd yr Arolwg Llesiant Rhanbarthol sy'n allweddol o ran llywio'r holl strategaethau lleol ar ymgysylltu helaeth â'r cyhoedd a rhanddeiliaid

### Integreiddio

- Mae'r Strategaeth Economaidd yn darparu gweledigaeth a chamau gweithredu a rennir ar gyfer datblygu'r economi leol a bydd yr ymyriadau a gynhwysir ynddi yn cael eu cyflawni gan amrywiaeth o bartneriaid a rhanddeiliaid dros y 15 mlynedd nesaf.
- Strategaethau twf economaidd wedi'u hintegreiddio â gwasanaethau eraill a ddarperir, gan gynnwys addysg, sgiliau, cynllunio a seilwaith

## CYFLAWNIADAU PELLACH

**5**

Hyfforddiant caffael a chomisiynu, sesiynau ymwybyddiaeth, a digwyddiadau a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn

**7**

Contractau a dendro sy'n ymgorffori naill ai dulliau newydd/arloesol, mesurau lleihau carbon, mesurau budd cymunedol neu'r cyfle i ddatblygu mentrau cymdeithasol yn well.

**100%**

O'r ceisiadau cynllunio a gofrestrwyd o fewn 7 diwrnod gwaith, gwelliant sylweddol ar y 50% yn y flwyddyn flaenorol

**86.6%**

O'r ceisiadau cynllunio yr ymdriniwyd â hwy ar amser, gwelliant sylweddol ar y 36.7% yn y flwyddyn flaenorol



# CREATING CARING AND HEALTHY COMMUNITIES

## CYNNYDD A WNAED

- Mae Ceredigion wedi ymateb i'r heriau wrth ddarparu gofal cymdeithasol trwy symud tuag at gyfuno'r gwasanaeth plant a'r gwasanaeth oedolion a arferai fod ar wahân yn flaenorol, mewn un Gwasanaeth Lles Gydol Oes. Mae hyn yn gwaredu rhwystrau adrannol, mae'n cynnig gwasanaeth mwy cyson a gydol oes i ddefnyddwyr ac mae'n cynnal sgiliau generig a hyblygrwydd y staff.
- Mae'r gwasanaeth gofal cymdeithasol a drawsnewidiwyd yn canolbwyntio ar atal, gan ymyrryd yn gynnar er mwyn helpu i gysylltu pobl gyda'r cymunedau a'r cyfleusterau o'u cwmpas, gan feithrin cydnerthedd unigolion a theuluoedd ac atal problemau rhag gwaethygu i fod yn angen am wasanaethau ar y pen uchaf.
- Bellach, mae'r Cyngor yn gweithredu model Lles Gydol Oes (TAW) er mwyn darparu'r hyn a fyddai wedi cael ei ystyried yn wasanaethau Gofal Cymdeithasol yn draddodiadol.
- Mae gweithredu a darparu'r Rhaglen Lles Gydol Oes (TAW) yn parhau wrth i'r gwaith o drawsnewid gwasanaethau symud yn ei flaen yn dda wrth integreiddio Gofal Cymdeithasol a Dysgu Gydol Oes yn 3 Gwasanaeth - Porth Cymorth Cynnar, Porth Gofal a Phorth Cynnal sy'n creu, gyda Chyswllt Cwsmeriaid, y 4 prif faes sy'n perthyn o fewn Rhaglen newid Lles Gydol Oes.
- Yn ystod y flwyddyn, bu'r Cyngor yn gweithio gyda Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO) i sefydlu rhwydwaith o 48 o Fannau Croeso Cynnes ar draws y Sir, gan gynnig budd i tua 1,760 o bobl, gyda chymorth tua 260 o wirfoddolwyr. Y nod yw annog cymunedau i ddod ynghyd i gael 'sgwrs a phaned' ac mae rhai yn cynnig pryd poeth a gweithgareddau.
- Cydlynodd y Cyngor Rwydwaith Bwyd (Tlodi) Ceredigion, gan ddosbarthu £121,500 i un ar bymtheg o grwpiau dosbarthu bwyd cymunedol, a chynnig budd i dros 13,000 o bobl a'u helpu i ddarparu tua 59,577 o brydau a pharseli bwyd.
- Dyfarnwyd Gwobr Lefel Efydd "Buddsoddwyr mewn Gofalwyr" i Ysgol Bro Teifi yn Llandysul am ei hymrwymiad i gynorthwyo myfyrwyr sy'n ofalwyr ifanc ac aelodau o staff sy'n gofalu hefyd. Aseswyd yr ysgol yn erbyn chwe thema ar gyfer cynllun Buddsoddwyr mewn Gofalwyr: arweinydd gofalwyr, hyfforddiant i staff, adnabod, gwybodaeth a chymorth i ofalwyr, a gwerthuso. Yn dilyn hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg, mae'r marc ansawdd yn dynodi bod yr ysgol yn gallu nodi a chynorthwyo gofalwyr mewn ffordd effeithiol.
- Dosbarthwyd tua 1,000 o lyfrynnau er mwyn helpu pobl i fwyta'n dda yn rhatach ar draws Ceredigion. Cynlluniwyd y llyfrynnau dwyieithog gan elusen amgylcheddol UKHarvest er mwyn lleihau gwastraff bwyd ac maent yn cynnwys cyngor defnyddiol a gwybodaeth am wastraff bwyd, cynllunio prydau, manteisio i'r eithaf ar bob siop, storio bwyd, diogelwch bwyd a ryseitiau sylfaenol. Dosbarthwyd y llyfrynnau i grwpiau bwyd cymunedol ar draws y sir gan Gyngor Sir Ceredigion ac maent yn annog preswylwyr i fanteisio ar y cyngor yn ystod yr argyfwng costau byw.
- Mae Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd y Cyngor, a weinyddir gan y Cyngor, wedi cynnig manteision parhaol i ddefnyddwyr a busnesau trwy wella safonau mewn busnesau bwyd. Mae 69% o fusnesau wedi sicrhau sgôr o 5, sef y sgôr uchaf ar gyfer hylendid bwyd. Mae'r cynllun yn cynnig yr hyder i ddefnyddwyr bod bwyd yn cael ei baratoi a'i weini mewn ffordd lân a hylan.
- Ar ôl agor y Ganolfan Lles gyntaf yn Llanbedr Pont Steffan ym mis Hydref 2023, mae'r Cabinet wedi cymeradwyo ail ganolfan yn Aberteifi, a chaiff astudiaeth ddichonolrwydd am y lleoliad a'r cyfleusterau ei chwblhau yn ystod yr haf 2024. Mae dewisiadau ar gyfer y Ganolfan Lles yng ngogledd y sir yn cael eu hystyried ar hyn o bryd hefyd.
- Agorom Ganolfan Lles Llanbedr Pont Steffan ym mis Hydref 2023, gosodom arwyneb newydd ar y Cwrt Tenis / Safle Aml-Chwaraeon yn Llanbedr Pont Steffan a darparom Faes Chwarae Pob Tywydd yng Nghanolfan Hamdden Plascrug.
- Mae'r Cyngor wedi bod yn cydweithio â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i wneud y defnydd gorau o asedau'r Cyngor er mwyn darparu gwasanaethau effeithlon a chynaliadwy ar gyfer y ddau sefydliad. Bellach darparir clinigau ffisiotherapi gan Hywel Dda i gleifion allanol ar lawr gwaelod a llawr cyntaf swyddfeydd y Cyngor yng Nghanolfan Rheidol yn Aberystwyth.
- Estynnwyd gwahoddiad i dros 200 o ffoaduriaid a oedd wedi setlo yng ngorllewin Cymru i fynychu digwyddiad arbennig i nodi Wythnos y Ffoaduriaid ym mis Mehefin 2023 yng Ngwersyll yr Urdd Llangrannog. Mynychwyd y digwyddiad gan ffoaduriaid sydd wedi setlo yng Ngheredigion o Wcráin, Affganistan a Syria, lle y cynhaliwyd amrediad o weithgareddau hwyliog a darparwyd lluniaeth. Trefnwyd y digwyddiad gan Gyngor Sir Ceredigion mewn partneriaeth ag Urdd Gobaith Cymru i ddathlu'r cyfraniad y mae ffoaduriaid wedi ei wneud yn y DU ac er mwyn hyrwyddo dealltwriaeth well o'r rheswm pam bod pobl yn ceisio lloches mewn gwledydd eraill.
- Bu pedwar ffoadur o Geredigion yn rhan ganolog o ddathliadau Dydd Gŵyl Dewi yn y Senedd ar 1 Mawrth 2024. Canmolwyd Ceredigion am gynnig hafan ddiogel i'r rhai sydd wedi dianc rhag rhyfel, y mae nifer ohonynt yn gwneud cyfraniad mawr i'n cymdeithas ac yn cyfoethogi ein bywydau.
- Mae banciau bwyd yng Ngheredigion wedi cael cyfran o gyllid sy'n werth £30,000 a ddarparwyd gan y Cyngor o'r Gronfa Atal Digartrefedd Ddewisol, a ddarparir i'r awdurdodau lleol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r hwb ariannol yn dod ar ôl i fanciau bwyd weld cynnydd mawr yn y galw o ganlyniad i'r argyfwng costau byw.
- Mae banciau bwyd yn cael eitemau sy'n para am gyfnod hir, i'w defnyddio mewn parseli bwyd, ond gall rhoddion ariannol helpu i gynyddu cyflenwadau megis cynnyrch ffres a thalu costau tanwydd er mwyn gwresogi'r adeilad ac ar gyfer y cerbydau sy'n casglu ac sy'n dosbarthu parseli bwyd.
- Llwyddwyd i sicrhau cynnydd da wrth recriwtio mwy o Gynorthwywyr Personol. Mae'r Gwasanaeth Taliadau Uniongyrchol wedi defnyddio dulliau arloesol er mwyn ymgysylltu â chymunedau lleol i godi proffil Taliadau

Uniongyrchol, gan gynnwys cymunedau amaethyddol yn ogystal â Chanolfannau Gwaith. Llwyddwyd i recriwtio 254 o Gynorthwywyr Personol yn ystod 2023/24, sydd lawer yn uwch na'r swm o 133 a gafodd eu recriwtio yn ystod y flwyddyn flaenorol.

- Mae'r Achos Busnes wedi cael ei gwblhau erbyn hyn ar brosiect iechyd a gofal cymdeithasol integredig arloesol Cylch Caron, mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.
- Yn ystod 2023/24, gwelwyd twf sylweddol yn nifer y bobl sy'n manteisio ar sesiynau ymyriadau iechyd, gyda dros 100 o atgyfeiriadau newydd y mis i'r Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i wneud Ymarfer Corff. Mae'r cynllun yn ymyriad iechyd sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n cynnwys gweithgarwch corfforol a newid ymddygiadol, ac mae'n helpu cleientiaid i wneud a chynnal dewisiadau ffordd o fyw iachach er mwyn gwella eu lles.
- Yn ogystal, bu cynnydd arwyddocaol mewn sesiynau gweithgarwch corfforol ar draws pob oedran – yn 2022/23, roedd 362,611 o gyfranogwyr ac yn 2023/24, mae hwn wedi codi i 510,711.
- Mae cefnogaeth Ceredigion i ofalwyr di-dâl yn parhau i gryfhau a bellach, mae 2,219 o ofalwyr wedi cofrestru gyda'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr, cynnydd o'r 1,888 yn ystod y flwyddyn flaenorol. Cyhoeddwyd tri chylchgrawn i ofalwyr yn ystod y flwyddyn, a oedd wedi cynnig llawer iawn o wybodaeth am wasanaethau a chymorth ar gyfer ein gofalwyr. Datblygwyd y gwasanaeth Seibiant i Ofalwyr hefyd, gyda'n Cerdyn Gofalwyr, a oedd yn cynnwys gostyngiadau i atyniadau a siopau lleol, a rhoddodd aelodaeth am ddim i gyfleusterau hamdden i'n gofalwyr di-dâl hefyd.
- Mae'r Tîm Gwaith Ieuenctid Cymunedol ac Atal yn cynnal darpariaeth mynediad agored gan gynnwys 3 chanolfan ieuenctid, darpariaeth symudol Y Fan a chynorthwyo digwyddiadau cymunedol.
- Mae Cysylltwyr Cymunedol yn parhau i fod yn weithgar iawn mewn cymunedau, ac maent wedi dechrau cydweithio'n agosach gyda chymunedau i ddatblygu eu cydnerthedd. Er enghraifft, yn ardal Llandysul, mae'r Cysylltydd Cymunedol wedi bod yn cynorthwyo gyda'r broses o greu Caffi Atgofion lleol. Mae'r digwyddiadau misol hyn yn cynnig lle hamddenol i bobl sydd â dementia neu broblemau cof, a'u gofalwyr, ac i bobl sydd wedi bod yn gofalu am un o'u hanwyliaid oedd â dementia yn flaenorol.
- Mae'r Cysylltwyr Cymunedol yn cynorthwyo preswylwyr o bob oed yng Ngheredigion, trwy eu helpu i fanteisio ar gyfleoedd cymorth yn eu hardal y gallent gynnal a gwella eu lles.
- Bu swyddogion y Cyngor yn cynorthwyo mudiadau cymunedol i fanteisio ar dros £125,000 ar ffurf cymorth grant yn ystod 2023/24 i ddatblygu eu gwasanaethau.
- Llwyddwyd i sicrhau cyllid gan UKSPF a Chynnal y Cardi i gynorthwyo datblygiad parhaus rhaglen 'Cerdded er Lles' ar draws y sir, sy'n galluogi'r Cyngor i barhau i hyrwyddo a hwyluso rhagnodi cymdeithasol, megis garddio, cerdded a gweithgareddau nofio.
- Cyflwynwyd rhaglen "Ffit am Byth" newydd sy'n annog y rhai sydd wedi llwyddo i gwblhau rhaglen NERS i ddod yn aelodau llawn o'r Ganolfan Lles/ Hamdden. Mae'r rhaglen yn cynnig rhaglen ymarfer corff pleserus dan oruchwyliaeth er mwyn gwella iechyd a lles.
- Mae'r cynllun Gweithredu Chwarae a ddatblygwyd er mwyn ymateb i'r Asesiad Digonolrwydd Chwarae yn 2022 yn cael ei weithredu ar hyn o bryd. Mae'r Cyngor yn parhau i weithio gyda Ray Ceredigion i ddatblygu'r ddarpariaeth chwarae yn y sir.
- Yn ystod 2023/24, mae'r gwaith ar Ganolfan Byw'n Annibynnol newydd Penmorfa wedi bod yn symud yn ei flaen, ac agorodd ei drysau ym mis Ebrill 2024. Mae'r ganolfan yma i gynorthwyo gofalwyr a'r sawl y maent yn eu cynorthwyo, gyda'r offer a'r adnoddau y mae eu hangen arnoch i ddilyn eich taith o ddarparu gofal. Nid yw'r Ganolfan yn ymwneud ag offer yn unig. Mae'n ganolfan gymunedol lle y gallwch gysylltu ag arbenigwyr trwy gyfrwng sesiynau galw heibio, gweithdai ac arddangosiadau rheolaidd, gan ymwneud ag ystod eang o wasanaethau cymorth trwy gydol y flwyddyn.
- Mae dangosfyrddau data newydd wedi'u datblygu i gefnogi'r gofynion adrodd parhaus ar gyfer gofal cymdeithasol.

## CYFLAWNIADAU ALLWEDDOL

**607**
Atgyfeiriadau at y Cysylltwyr Cymunedol am gefnogaeth a dderbyniwyd

**703**
Derbyniodd gofalwyr di-dâl cymwys £500 o daliadau cymorth gofalwyr

**4,250**
Cylchgrawn gofalwyr wedi'i phrintio a'i dosbarthu ar draws Ceredigion

**13,188**
Mynychwyr rhaglenni ymyrraeth iechyd

**48**
Mannau Cynnes ar gael ar draws Ceredigion

**521**
Atgyfeiriadau am gefnogaeth gan Wasanaeth Ieuenctid Ceredigion

**1,150**
Camau gorfodi diogelu'r cyhoedd a gymerwyd i wella llesiant ac iechyd y cyhoedd pobl a chymunedau

**144%**
Cynnydd yn aelodaeth Gwasanaeth Gwybodaeth Gofalwyr Ifanc

**510,711**
Pobl sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni gweithgaredd corfforol a gefnogir / a ddarperir gan y Ganolfan Llesiant

**12**
Ymarferion ymgysylltu a 11 gweithgaredd ymgynghori â gwblhawyd gan y Cyngor yn 2023/24

# GWELLA CANLYNIADAU

## CEFNOGI POBL BREGUS

Dangoswyd yr ymrwymiad tuag at greu cymunedau Gofalgar ac Iach trwy gynorthwyo rhai o breswylwyr mwyaf agored i niwed Ceredigion yn y penderfyniad i drosglwyddo Cartref gofal Hafan y Waun i berchnogaeth y Cyngor.

Y cartref yw prif gyfleuster preswyl y Sir ar gyfer y rhai sydd â dementia, gan ddarparu 90 o welyau, ond tynnodd y rheolwyr blaenorol allan o redeg y cartref yn gynnar yn 2023, a arweiniodd at y Cyngor yn camu i mewn i sicrhau parhad y gwasanaeth lleol pwysig hwn.

Mae Hafan y Waun yn adeilad modern, hollol weithredol, sy'n bodloni gofynion Arolygiaeth Gofal Cymru mewn perthynas â'r cyfleusterau sydd ar gael. Mae'n cynnwys gardd fawr hefyd sy'n ystyriol o ddementia.

Mae trosglwyddo'r berchnogaeth yn **sicrhau parhad yr adnodd hanfodol hwn ar gyfer y dyfodol** ac **mae'n cynnig sicrwydd i breswylwyr a'u teuluoedd** yn y Sir sy'n dibynnu ar y gwasanaethau a ddarparir gan y cartref. Bydd cynnal y cyfleuster pwysig hwn yn **cynorthwyo lles preswylwyr a theuluoedd.**

Mae'r newid yn cyd-fynd â Rhaglen Lles Gydol Oes y Cyngor hefyd, trwy **ddarparu gofal amser llawn arbenigol, gwella ansawdd y cyfleusterau** trwy fabwysiadu cyfleuster pwrpasol, a chynnig y **cyfle i ddatblygu gwasanaethau ymhellach** o'r cyfleuster yn y dyfodol.

## CREU CYFLEOEDD TAI

Lansiwyd Strategaeth Tai newydd Ceredigion ar gyfer y cyfnod 2023-28 ym mis Hydref 2023, gan nodi gweledigaeth glir ar gyfer tai yn y Sir, ynghyd â'r blaenoriaethau allweddol a'r ymateb i'r sialensiau yn y dyfodol.

Gweledigaeth y Strategaeth yw gweithio tuag at lety digonol, addas a chynaliadwy er mwyn bodloni anghenion preswylwyr nawr ac yn y dyfodol. Y blaenoriaethau er mwyn cyflawni hyn yw cynyddu'r cyflenwad tai, gwella amodau tai a chynorthwyo pobl yn eu cartrefi a'u cymunedau.

Mae'r Strategaeth yn cydnabod rôl bwysig tai, ynghyd â'i ddylanwad ar **iechyd a lles unigolion, teuluoedd, a'r gymuned ehangach,** ac mae'n parhau i roi ystyriaeth i'r iaith Gymraeg ac i ddiwylliant Cymru.

Mae angen tai ar Geredigion y mae modd eu haddasu ac sy'n gallu cynnal pobl yn ystod gwahanol gyfnodau o'u hoes. Bydd hyn yn cyfrannu cryn dipyn at sicrhau **poblogaeth iachach**, ynghyd â **defnydd gwell o'r stoc tai** sy'n bodoli eisoes, a **safonau ac amodau byw gwell.** Mae angen tai mewn lleoliadau addas hefyd, a fydd yn **galluogi pobl i fyw gartref am gyfnod hwy**, ac mae gan hyn y potensial i greu **cymunedau mwy cydnerth a chysylltiedig.**

## GWELLA LLESIANT CORFFOROL, MEDDYLIOL A CHYMDEITHASOL TRIGOLION CEREDIGION

Agorwyd Canolfan Lles gyntaf Ceredigion yn Llanbedr Pont Steffan yn ystod 2023/24 ac mae iddi le amlwg yng ngwaith y Cyngor i hyrwyddo cymunedau iach ar draws y Sir.

Y Ganolfan Lles yw'r un gyntaf o'i bath yn y Sir a chaiff ei hariannu gan Grant Cymunedau Dysgu Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Ceredigion.

Mae'r ganolfan yn darparu amrediad o wasanaethau a chymorth er **mwyn gwella lles corfforol, meddyliol a chymdeithasol y cymunedau** yn yr ardal, a **grymuso unigolion i feithrin sgiliau a chydnerthedd a fydd yn eu galluogi i ymdopi â heriau bywyd.**

Mae'r Ganolfan Lles yn garreg filltir fawr tuag at wireddu gweledigaeth Strategaeth Lles Gydol Oes y Cyngor a chyflawni ei Amcan Lles Corfforaethol o **Greu Cymunedau Gofalgar ac Iach.** Bwriedir agor canolfannau eraill yng ngogledd a de y Sir dros y blynyddoedd nesaf.

Mae tu mewn Canolfan Lles Llanbedr Pont Steffan, a ddyluniwyd o'r newydd, yn cynnig capasiti ychwanegol i ddarparu'r cynllun atgyfeirio cleifion i wneud ymarfer corff ac mae pwysau ac offer cardio newydd sbon wedi arwain at welliannau i'r rhaglen hon hefyd.

Gwnaethpwyd gwaith nodedig i uwchraddio seilwaith y ganolfan, gan gynnwys casgliad o gyfleusterau gydag ystafelloedd amlbwrpas, ystafelloedd cyfarfod, ystafell sgiliau ymarferol sy'n cynnwys cegin a lleoedd newid.

Mae ychwanegu mannau aml-ddefnydd wedi caniatáu i grwpiau cymunedol gael mynediad i'r cyfleuster a darparwyd sawl digwyddiad hyfforddiant, megis Ymwybyddiaeth o'r Menopos. Yn ogystal, cynhaliodd y Ganolfan ddiwrnod Rhyngwladol Pobl H⍰n ym mis Hydref 2023, a fu'n llwyddiant mawr, pan welwyd dros 100 o bobl yn mynychu'r diwrnod a 40 o stondinau darparwyr i'w gweld.

Yn ogystal, mae'r Ganolfan yn cynnig **mwy o fynediad i Wybodaeth, cyngor a chymorth** i breswylwyr yn holl wasanaethau'r cyngor, gan gynnwys cyngor ynghylch sgiliau a chyflogaeth, caledi a chymorth tai, gwasanaethau i bobl ifanc, cymorth i ofalwyr, Cysylltwyr Cymunedol a chymorth cynnar ar gyfer Iechyd Meddwl.

Ers ei hagoriad ffurfiol ym mis Hydref 2023, cafwyd ymateb cadarnhaol gan y gymuned wrth i fwy a mwy o breswylwyr ddod i ddefnyddio'r gwahanol adnoddau sydd ar gael.

Er enghraifft, bu cynnydd arwyddocaol o 135% yn y Defnydd a wneir o'r Ystafell Ffitrwydd, cynnydd o 10% yn nifer y rhai sy'n cymryd rhan mewn Dosbarthiadau Ymarfer Corff, a chynnydd enfawr o 765% yn Aelodaeth y Ganolfan.

Mae'r Rhaglenni Ymyrraeth Iechyd a gyflwynir yn y Ganolfan wedi gweld 78 o atgyfeiriadau i'r Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i wneud Ymarfer Corff (NERS), mae 67 o gleientiaid wedi cael eu hymgynghoriad cyntaf ac mae 16 ar y rhestr aros.

Gan edrych i'r dyfodol, mae'r Cyngor yn cydweithio'n agos gyda Thimau Therapi ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i weld pa wasanaethau eraill y gellir eu darparu o'r Ganolfan.

# DARPARU DATBLYGU CYNALIADWY

## Asesiad cyffredinol o’r daith hyd yn hyn

Mae cynnydd wrth fodloni'r flaenoriaeth hon yn ***dda*** ac mae'r rhagolygon gwella hefyd yn ***dda***.

Mae’r cynnydd o ran cefnogi pobl i fod yn iach a chreu cymunedau sy’n gofalu yn dda ac mae canlyniadau eisoes i’w gweld megis creu canolfannau llesiant ar draws y sir, darpariaeth barhaus y rhaglen Llesiant Gydol Oes a’r cymorth i ffoaduriad Wcrain i ailsefydlu yn y Sir.

Er gwaethaf yr heriau sy'n bodoli, megis recriwtio mewn gofal cymdeithasol, mae cynlluniau ar waith i sicrhau manteision pellach yn y flwyddyn i ddod.

## YN BERCHEN AR EIN HUCHELGAIS

### MWYHAU EIN CYFRANIAD AT Y NODAU LLESIANT CENEDLAETHOL

Mae’r nod llesiant corfforaethol **Creu Cymunedau Gofalgar ac Iach** yn cefnogi’r nodau llesiant cenedlaethol canlynol.

- Llewyrchus
- Cydnerth
- Iachach
- May Cyfartal
- Cydlynus
- Diwylliant
- Byd-eang

### Hirdymor

- Mae Model Gydol Oed yn ymwneud â chynllunio hirdymor i sicrhau gwasanaethau cynaliadwy ar gyfer y 15 mlynedd + nesaf
- Mae Tueddiadau'r Dyfodol, megis newid demograffig wedi'u defnyddio yn y Model
- Mae’r Strategaeth Llesiant Trwy Oedran yn cwmpasu cyfnod o chwe blynedd o 2021 i 2027
- Rhagwelir y bydd yr adferiad o’r pandemig yn para am nifer o flynyddoedd ac mae ein cynlluniau i wella llesiant corfforol a meddyliol yn cymryd agwedd hirdymor at gefnogaeth i ymateb

### Atal

- Mae’r Model Gydol Oed yn darparu dull cydgysylltiedig o ymdrin â gofal cymdeithasol er mwyn atal, lleihau neu ohirio’r angen am gymorth parhaus, a chaniatáu i bobl aros yn eu cartrefi eu hunain.
- Mae atal digartrefedd a hyrwyddo annibyniaeth yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Cyngor a dyma'r ffordd fwyaf effeithiol o fynd i'r afael â digartrefedd
- Mae Datblygu’r Canolfannau Llesiant yn cefnogi’r uchelgais i greu cymunedau iach
- Fel rhan o’i waith atal, mae’r Cyngor wedi buddsoddi mewn rhoi cydnabyddiaeth lawn a chefnogaeth i ofalwyr drwy ddarparu cyfleoedd ar gyfer seibiant o’u rôl heriol 24/7.

### Cydweithio

- Mae’r Bwrdd Iechyd, y Cyngor a phartneriaid y Trydydd Sector yn cydweithio i roi rhaglenni iechyd a gofal cymdeithasol integredig ar waith ar draws gorllewin Cymru
- Mae cyfarfodydd monitro tensiwn wythnosol aml-asiantaeth yn mynd i'r afael ag arwyddion cynnar tensiynau cymunedol trwy ymyrraeth gynnar ac atal.
- Mae’r Cyngor yn gweithio’n rhagweithiol gyda phartneriaid drwy Is-grŵp Tlodi Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion i fynd i’r afael ag achosion ac effeithiau tlodi ar draws y Sir.

### Cynnwys

- Mae cefnogi llesiant corfforol ac emosiynol pobl yn effeithio ar bob un o’r Nodau Llesiant cenedlaethol ac yn helpu i adeiladu cymunedau cryfach a mwy llewyrchus
- Roedd yr Amcan o greu cymunedau gofalgar ac iach yn cynnwys canfyddiadau o’r Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion ac ymgynghoriad helaeth

### Integreiddio

- Cydweithio cyhoeddus a phreifat i wneud y cyfraniad mwyaf posibl at Gymru iachach a nodau eraill
- Mae cefnogi llesiant corfforol ac emosiynol pobl yn effeithio ar bob un o’r Nodau Llesiant cenedlaethol ac yn helpu i adeiladu cymunedau cryfach a mwy gwydn

## CYFLAWNIADAU ALLWEDDOL

**100%**

O blith aelodau’r Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr, derbyniodd Siarter Llywodraeth Cymru ar gyfer gofalwyr di-dâl

**158**

Cefnogi gofalwyr ifanc drwy weithio gyda Gofalwyr Ceredigion i gael bywyd y tu allan i’w rôl ofalu

**1,722**

O drigolion Ceredigion sy’n cymryd rhan yn y Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff

**1,148**

Cyfranogwyr yn y rhaglen newydd “Fit 4 Life” i wella iechyd a lles



DARPARU'R DECHRAU GORAU MEWN BYWYD A GALLUOGI BOBL O BOB OED I DDYSGU

# CYNNYDD A WNAED

- Mae'r Cyngor yn parhau i foderneiddio sefydliadau addysg. Er enghraifft, cwblhawyd yr estyniad 3 llawr carbon sero net yn Ysgol Uwchradd Aberteifi ym mis Mehefin 2023, a chwblhawyd yr estyniad a'r gwelliannau yn Ysgol Gynradd Aberteifi ym mis Awst 2023. Mae Ysgol newydd Dyffryn Aeron yn Felin-fach yn cael ei hadeiladu ar hyn o bryd, a bydd yn agor ym mis Ionawr 2025, a nodir y manylion pellach drosodd.
- Mae system Addysg Ceredigion yn parhau i gael ei hystyried ymhlith y mwyaf llwyddiannus yng Nghymru. Canran yr oedolion oedran gweithio sydd wedi sicrhau cymwysterau lefel 2 yw 91.7% yng Ngheredigion, sy'n uwch na'r cyfartaledd (87.4%), ac mae'n un o'r rhai uchaf ar lefel genedlaethol. Cymwysterau lefel 2 yw TGAU graddau A* - C neu rai sy'n cyfateb â hynny.
- Bu canlyniadau arolygiadau ysgolion Ceredigion yn gryf yn ystod 2023/24. Roedd y naw adroddiad arolygu a gyhoeddwyd gan Estyn yn myfyrio mewn ffordd gadarnhaol ar yr ysgol a arolygwyd, ac nid oes gofyn i unrhyw ysgol yng Ngheredigion fod yn destun mesurau dilynol.
- Mae menter E-SGOL wedi parhau i ddarparu cymorth blaenllaw yn y sector ar gyfer y ddarpariaeth addysg yng Ngheredigion ac ar draws y wlad. Mae E-SGOL yn fenter dysgu cyfunol er mwyn darparu cyfleoedd dysgu ac addysgu ar-lein gan ddefnyddio dulliau gweithredu dysgu rhyngweithiol, uniongyrchol ac amser real. Ariannir y prosiect gan Lywodraeth Cymru a chaiff ei gydlynu ar lefel genedlaethol gan Geredigion.
- Mae 42 o ysgolion uwchradd yn gweithio gydag E-SGOL yn genedlaethol ar hyn o bryd, ac mae 584 o ddysgwyr o fis Medi 2023, ac mae sesiynau adolygu a lles "Carlam Cymru" e-sgol bellach wedi cael eu defnyddio dros 74,000 gwaith.
- Cefnogodd Ceredigion y Diwrnod Chwarae Cenedlaethol ar 2 Awst yn Aberaeron, a fynychwyd gan y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, Julie Morgan AS. Cynhaliwyd y digwyddiad gan RAY Ceredigion a bu sefydliadau o bob cwr o Geredigion yn darparu gweithgareddau chwarae amrywiol i'r plant a'u teuluoedd. Roedd sawl un o wasanaethau'r Cyngor wedi cynorthwyo yn ystod y diwrnod gan gynnwys y Tîm Cymorth Cyflogaeth, Dechrau'n Deg, yr Uned Gofalwyr a Ceredigion Actif. Gyda'i gilydd, cynigiont y cyfle i blant gymryd rhan mewn sesiynau aml-sgiliau, gweithgareddau ar feiciau cydbwysedd, paentio wynebau, gweithgareddau celf a chrefft a chwaraeon amrywiol.
- Roedd dros 2,000 o bobl ifanc yng Ngheredigion wedi cymryd rhan ym mhleidlais 'Rhoi dy Farn' a drefnwyd gan Wasanaeth Ieuenctid Ceredigion i bleidleisio am bynciau a fydd yn siapio blaenoriaethau'r Cyngor Ieuenctid yn ystod y flwyddyn. Y prif themâu a godwyd gan bobl ifanc yn ystod y digwyddiad oedd yr argyfwng costau byw sy'n parhau, gyrfaoedd ac addysg. Mae hwn yn un o'r gweithgareddau a gefnogir gan y Cyngor fel rhan o'i ymrwymiad i sicrhau bod lleisiau pobl ifanc yn cael eu clywed.
- Ym mis Ionawr 2024, bu Ceredigion yn dathlu'r Wythnos Genedlaethol Prentisiaethau. Mae'r wythnos yn gyfle i fyfyrio ar gyflawniadau prentisiaid, yn rhai presennol a blaenorol. Mae'r Cynllun Prentisiaethau wedi cynorthwyo 29 o brentisiaid hyd yn hyn, mewn ystod eang o rolau, ac mae 100% ohonynt wedi llwyddo i sicrhau eu cymhwyster ar y diwedd. Ar ôl cwblhau eu prentisiaethau, penderfynodd y Cyngor gadw 14 o'r 18 prentis, ac mae 11 o brentisiaid newydd yn dilyn cymwysterau eleni.
- Llwyddodd deg Mentor sgiliau Plant a Phobl Ifanc Ceredigion i gwblhau'r cwrs 'Ymarferwyr Ffynnu' yn llwyddiannus. Mae'r mentoriaid yn gweithio ar draws y sir mewn ysgolion, gan gynorthwyo disgyblion sy'n wynebu heriau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol, gan ddarparu ymyriadau wedi'u targedu. Mae Ffynnu yn ddull gweithredu sy'n canolbwyntio ar y plentyn, lle y gellir deall anghenion cymdeithasol ac emosiynol plant yn well, a'u bodloni.
- Mae Cered, menter yr iaith Gymraeg, yn parhau i gefnogi, dylanwadu a datblygu'r defnydd o'r iaith Gymraeg yng Ngheredigion. Maent yn darparu gwybodaeth, cyngor ac arweinyddiaeth i sicrhau bod yr iaith yn llwyddo ac yn parhau i fod yn iaith graidd ac efo rôl ganolog yn gymunedau Ceredigion.
- Datblygwyd Strategaeth Iaith Gymraeg 2024-29 newydd yn dilyn digwyddiadau gweithdy gyda rhanddeiliaid, ac ymgynghorir ar hon yn ystod mis Awst 2024.
- Mae 81 aelod o staff y Cyngor yn dilyn cyrsiau "Cymraeg yn y Gweithle" ar hyn o bryd er mwyn dysgu neu gryfhau eu sgiliau Cymraeg a meithrin hyder wrth ddefnyddio'r iaith Gymraeg.
- Lansiwyd E-gylchlythyr misol newydd i'r staff o'r enw "Gwena" er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r diwylliant a'r iaith Gymraeg ymhellach.
- Lansiwyd prosiect newydd i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'i diwylliant ymhlith pobl sy'n symud i Geredigion. Nod prosiect "Croeso i Geredigion" yw codi ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg ac agweddau ar fywyd trwy gyfrwng y Gymraeg ymhlith pobl sy'n symud i'r ardal. Y nod yw grymuso cymunedau trwy ddangos y cyfleoedd sydd ar gael i gyfrannu at a chynorthwyo cymunedau, yn ogystal â helpu pobl i ddeall sut y mae'r iaith Gymraeg yn rhan naturiol o wead bywyd yng Ngheredigion. Cynhelir y prosiect gan Cered (Menter Iaith Ceredigion), Cyngor Sir Ceredigion ac fe'i noddir gan Cynnal y Cardi.

- Ym mis Hydref 2023, daeth grŵp o deuluoedd sy’n maethu yng Ngheredigion ynghyd yng Nghanolfan Cymorth Cymunedol Canolfan Steffan yn Llanbedr Pont Steffan i gymryd rhan mewn gweithgarwch paentio crochenwaith gyda Pot-Sian. Trefnwyd y gweithgarwch gan Dîm Ceredigion Maethu Cymru fel rhan o raglen o weithgareddau misol a drefnwyd i gynorthwyo Teuluoedd sy’n Maethu yng Ngheredigion. Bu’r digwyddiad hwn yn gyfle i’r teulu maethu cyfan gymryd rhan mewn gweithgarwch gyda’i gilydd ac i gydnabod y rôl werthfawr a gyflawnir gan bob aelod o’r teulu wrth gynorthwyo plant agored i niwed sy’n derbyn gofal yng Ngheredigion.
- Mae’r Cyngor yn ymrwymedig i gynyddu recriwtio gofalwyr maeth mewnol sy'n siarad Cymraeg, ac fel ymateb i hyn, mae ymgyrchoedd recriwtio diweddar wedi’i chefnogi ac mae cyfleoedd wedi archwilio i gyflawni hyn.
- Mae Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru, sy’n cynnig help i deuluoedd gyda chostau gofal plant, wedi cael ei hyrwyddo ar draws Ceredigion, a chymeradwywyd 371 o blant ar gyfer y Cynnig rhwng mis Hydref 2023 a mis Mawrth 2024, o’u cymharu â 195 yn ystod yr un cyfnod yn ystod y flwyddyn flaenorol.
- Mae Gwasanaeth Sgiliau a Dysgu Gydol Oes y Cyngor yn un o chwe darparwr yng Ngheredigion sy’n cynnig ‘Prosiect Lluosi’, sy’n cynorthwyo pobl ifanc 19+ oed ar ffurf mynediad i ddatblygiad sgiliau rhifedd trwy gyfrwng cymwysterau a chyfleoedd hyfforddiant amrywiol. Hyd yn hyn, mae dros 270 o ddysgwyr wedi ymgysylltu â phrosiect Lluosi.
- Mae gan 36 o Ysgolion Cynradd Ceredigion amgylchedd Chwarae Cyfoethog o ganlyniad i’r Prosiect Chwarae. Mae’r prosiect yn cynnig y cyfle i’r plant sy’n mynychu’r ysgolion hynny i wella eu hiechyd a’u lles corfforol, meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol. Mae’r prosiect yn bartneriaeth rhwng Gwasanaeth Ysgolion Ceredigion a Ceredigion Actif. Mae’r prosiect yn golygu mentora staff ysgol, a ddilynir gan sesiynau Chwarae a ddarparir gan RAY Ceredigion, Arbenigwr Chwarae.
- Mae Cenhadon Ieuenctid yn fudiad arwain yr ifanc sy’n ceisio datblygu arweinwyr y dyfodol trwy gyfrwng chwaraeon, gweithgarwch corfforol, a chwarae. Mae’r Cenhadon Ifanc yn trefnu ac yn darparu cyfleoedd chwaraeon, gemau a chyfleoedd chwarae anffurfiol ar gyfer pobl ifanc eraill yng Ngheredigion. Roedd 123 o Genhadon Ifanc Efydd yn 2023-24 yn rhedeg ar draws 42 o ysgolion, a 21 o Genhadon Ifanc Arian yn darparu mewn ysgolion uwchradd.
- Mae cyllid wedi’i diogelu oddi wrth Gronfa Ffyniant a Rennir y DU er mwyn cyflawni astudiaeth dichonoldeb ar opsiynau ar gyfer adeilad theatr newydd yn dilyn trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau i Gymru.
- Mae’r Strategaeth Amddifadedd ac Ecwiti wedi’i chymeradwyo a’i gweithredu yn llwyddiannus yn ystod y flwyddyn. Mae’r effaith cynnar yn dangos trafodaethau buddiol, adeiladol a heriol rhwng ysgolion a’r Awdurdod Lleol, i weithio tuag at ddarpariaeth decach.
- Mae pob arolygiad Estyn yn dilyn arolygon ysgol cynradd, uwchradd a gydol oes yn dangos y gall disgyblion sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yng Ngheredigion sicrhau cynnydd da yn erbyn targedau personol y dysgwyr.
- Yn ystod 2023/24, cafodd 160 o bobl ifanc ar gyfartaledd gymorth wythnosol gan waith ieuenctid mewn ysgol, roedd 112 wedi manteisio ar weithgareddau wythnosol yn y gymuned, roedd 596 wedi manteisio ar raglenni gweithgarwch yn ystod y gwyliau ac roedd 133 o bobl ifanc 16-25 oed wedi cael eu cynorthwyo gydag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.

## CYFLAWNIADAU ALLWEDDOL

**9,500**
Dysgwyr wedi’i cefnogi ar draws 36 Ysgol Gynradd, 3 Ysgol Ganol, 4 Ysgol Uwchradd ac 1 Uned Cyfeirio Disgyblion

**270**
Mae dysgwyr wedi ymgysylltu â'r Prosiect Lluosi i wella medrau rhifedd trwy gyfleoedd hyfforddi yng Ngheredigion

**315**
Pobl ifanc sy'n cael cymorth neu ymyriad Gweithiwr Ieuenctid Ysgol wedi'i dargedu

**680**
Gweithgareddau dysgu cymunedol a ddarperir gan yr awdurdod lleol

**520**
Atgyfeiriadau i Wasanaeth Ieuenctid Ceredigion am gefnogaeth

**380**
Pobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl ysgol a ddarperir gan y Gwasanaeth Ieuenctid

**£61,000**
Dyfarnwyd mewn Grantiau Cynaladwyedd i gefnogi darparwyr gofal plant cofrestredig yng Ngheredigion

**47.4%**
Cynnydd yn nifer y teuluoedd cymwys sy’n defnyddio’r Cynnig Gofal Plant yn ystod 2023/24

**8,620**
Sesiynau cyfrifiadurol cyhoeddus wedi defnyddio ar draws y llyfrgelloedd

**54,715**
Ymwelwyr â phedair llyfrgell tref y Sir

# GWELLA CANLYNIADAU

## GWELLA CYFLEUSTERAU ADDYSG GWLEDIG

Cychwynnwyd ar y gwaith o adeiladu Ysgol Dyffryn Aeron newydd ym mis Gorffennaf 2023. Bydd y prosiect a fydd yn costio £16.3m yn dwyn tair ysgol gynradd ynghyd – Ysgol Gynradd Ciliau Parc, Ysgol Gynradd Dihewyd ac Ysgol Gynradd Felin-fach, yn ogystal ag Ysgol Feithrin a'r Ganolfan Trochi iaith yn Felin-fach.

Bydd yr ysgol 3-11 cyfrwng Cymraeg i 240 o ddisgyblion yn darparu ysgol gynradd ar un llawr gydag Uned Anghenion Dysgu Ychwanegol, Canolfan Iaith, Meithrin a seilwaith gan gynnwys mynediad newydd o'r ffordd, lle parcio ac ardal gemau amlddefnydd.

Mae'r prosiect arloesol hwn yn tystio i ymrwymiad Cyngor Sir Ceredigion a Llywodraeth Cymru i fuddsoddi mewn addysg wledig. Mae'n cyfuno addysg cyfrwng Cymraeg traddodiadol gyda'r cynaliadwyedd amgylcheddol diweddaraf, ac mae'n adlewyrchu ymwybyddiaeth gynyddol o rôl hollbwysig sefydliadau addysgol wrth hyrwyddo cynaliadwyedd.

Bydd y cyfleuster newydd yn dwyn y lle dysgu yn Nyffryn Aeron i fyny i safonau'r Rhaglen Dysgu Cymunedau Cynaliadwy. Yn ogystal â darparu **cyfleusterau addysgu modern a gwell**, bydd y prosiect hefyd yn darparu **ysgol carbon sero net** gyda chostau rhedeg is, sy'n cyd-fynd ag uchelgais y Cyngor o fod yn awdurdod **carbon sero erbyn 2030, ynghyd** â mwy o **gyfleoedd i ddysgu a chymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol** trwy'r maes chwaraeon newydd.

## DATBLYGU CYNALIADWYEDD

Er mis Medi 2021, mae Cynghorau Sir Ceredigion a Phowys wedi gweithio mewn partneriaeth gydweithredol ar elfennau o'r gwasanaeth addysg.

Mae'r trefniant cydweithio, a elwir Partneriaeth Addysg Canolbarth Cymru, yn cyfuno adnoddau ac yn cael cyllid gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r Bartneriaeth, a ffurfiwyd er budd ein hysgolion, ein hymarferwyr a'n dysgwyr, yn parhau i fynd o nerth i nerth, ac mae'r cynnydd yn amlwg wrth weld cynnydd y dysgwyr, y cydweithio rhwng swyddogion ac ymwybyddiaeth penaethiaid ac ymarferwyr.

Mae adroddiadau rheoliadol yn cefnogi'r perfformiad cryf. Nid oes unrhyw ysgolion yng Ngheredigion mewn mesurau dilynol ac mae adroddiadau arolygu gan Estyn yn ddiweddar yn myfyrio mewn ffordd gadarnhaol ar y diwylliant dysgu mewn ysgolion, gan ddatblygu sgiliau disgyblion, a hyrwyddo cyfleoedd trwy gyfrwng cynwysoldeb.

Mae'r bartneriaeth yn cynnig amrediad o fuddion i addysg ar draws Canolbarth Cymru. Mae'n **cynnig mwy o gymorth ar gyfer addysg Gymraeg a dwyieithog**, mae'n helpu i **leihau effaith amddifadedd gwledig** ac mae'n **gwella lles disgyblion**, ac mae'n cynnig llwybr datblygu i athrawon newydd ac i'r rhai sy'n cyflawni rolau arwain i **gadw staff allweddol er budd y system addysg**. Mae cydweithio a rhannu adnoddau fel hyn yn sicrhau addysg fwy cynaliadwy ar draws rhanbarth Canolbarth Cymru.

## CREU CYFLEOEDD

Mae prosiect Sgiliau Bywyd Sgiliau Gwaith yn gweithio gyda phobl yng Ngheredigion sydd rhwng 13 a 25 oed ac y maent mewn perygl o fod yn NEET (pobl Nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant). Mae'n cynorthwyo'r rhai sydd mewn perygl o ymddieithrio wrth addysg neu hyfforddiant trwy ddarparu ymyriadau dwys er mwyn gwella eu presenoldeb a'u cyrhaeddiad yn yr ysgol.

Ariannir y prosiect gan Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU ac mae'n rhan o uchelgais y Cyngor i gynorthwyo'r rhai sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad lafur.

Mae'n cynnig mynediad i ddysgwyr agored i niwed i gwricwlwm galwedigaethol wedi'i deilwra er mwyn bodloni eu hanghenion gydag amrediad o wahanol gyrsiau a gynigir er mwyn cynnig **y cyfle gorau iddynt gyflawni a gwireddu eu potensial yn llawn.**

Y nod yw datblygu **sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol** dysgwyr, a **gwella eu cyrhaeddiad a'u presenoldeb**, gan sicrhau eu bod yn cael **cyfleoedd priodol i sicrhau cynnydd a lefelau uwch o ran cymwysterau** neu gyfleoedd profiad gwaith er mwyn **sicrhau cyflogaeth**.

Llwyddodd 72 o ddysgwyr i sicrhau achrediadau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a chynigiwyd lleoliadau profiad gwaith i 36 dysgwr.

## GWELLA IECHYD A LLEIHAU TLODI

Estynnwyd Prydau Ysgol Am Ddim i gynnwys pob disgybl Blwyddyn 5 a 6 yng Ngheredigion o fis Medi 2023.

Ariannir y cynllun Prydau Ysgol Cynradd Am Ddim Cyffredinol gan Lywodraeth Cymru ac fe'i cyflwynwyd er mwyn ymateb i'r pwysau gan gostau byw ar aelwydydd.

Cyflwynodd y Cyngor gam cyntaf Prydau Ysgol Am Ddim i ddisgyblion yn y Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a 2 ym mis Medi 2022, ac i Flwyddyn 3 a 4 ym mis Ebrill 2023. Bellach, gall holl ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen a CA2 fanteisio ar y cynllun hwn sy'n darparu prydau iach a maethlon.

Roedd cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r cynllun yn flaenoriaeth allweddol i'r Cyngor yn ei Strategaeth Gorfforaethol a gyhoeddwyd yn 2022. O ganlyniad, mae Ceredigion ymhell o flaen amserlen Llywodraeth Cymru er mwyn cynnig Prydau Ysgol Am Ddim i'r holl ddisgyblion cynradd erbyn mis Medi 2024.

Yn ogystal â helpu i **fynd i'r afael â thlodi**, mae Prydau Ysgol Am Ddim yn cynnig y maeth i blant y mae ei angen arnynt i **dyfu a datblygu, mae'n gwella eu gallu i ganolbwyntio** a sicrhau **cyrhaeddiad**, mae'n **gwella sgiliau cymdeithasol** ac **ymddygiad**, ac mae'n **cyflwyno arferion bwyta'n iach** ar yr un pryd. Mae'r rhain oll yn rhannau allweddol o amcan y Cyngor i "gynnig y cychwyn gorau mewn bywyd a galluogi dysgu i blant o bob oed".

## DARPARU DATBLYGU CYNALIADWY

### Asesiad cyffredinol o’r daith hyd yn hyn

Mae cynnydd wrth fodloni'r amcan hwn yn ***dda*** ac mae rhagolygon gwella yn ***dda.***

Mae buddsoddiadau cyfalaf mewn ysgolion yn mynd rhagddynt megis y gwaith ar Ysgol Dyffryn Aeron yn ogystal ag uwchraddio amrywiol yn y blynyddoedd diwethaf. Mae cyrhaeddiad addysgol disgyblion Ceredigion yn parhau i fod ymhlith yr uchaf yn genedlaethol, ac mae adroddiadau rheoleiddio hefyd yn gadarnhaol heb unrhyw ysgolion mewn mesurau dilynol.

Mae cyfleoedd dysgu hefyd yn parhau i ddatblygu megis Sgilliau Bywyd Sgilliau Gwaith sy’n cefnogi pobl iau, y gefnogaeth e-sgol barhaus ar gyfer darpariaeth addysg ac mae Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn un o chwe darparwr yng Ngheredigion sy’n cynnig y gwasanaeth ‘Lluosi’. Mae dysgu ôl-16 y prosiect yn parhau i ddarparu hyfforddiant a chymorth i agor cyfleoedd newydd i holl ddysgwyr Ceredigion.

YN BERCHEN AR EIN HUCHELGAIS

### MWYHAU EIN CYFRANIAD AT Y NODAU LLESIANT CENEDLAETHOL

Mae’r nod llesiant corfforaethol **Darparu’r Dechrau Gorau mewn Bywyd a Galluogi Pobl o bob oed I Ddysgu** yn cefnogi’r nodau llesiant cenedlaethol canlynol. ▶

- Llewyrchus
- Cydnerth
- Iachach
- May Cyfartal
- Cydlynus
- Diwylliant
- Byd-eang

### Hirdymor

- Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Ceredigion yn strategaeth 10 mlynedd i gryfhau’r ddarpariaeth Gymraeg a gweithio tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg ledled Cymru erbyn 2050.
- Rhagwelir y bydd yr adferiad o’r pandemig yn para am nifer o flynyddoedd ac mae ein cynlluniau i fynd i’r afael â thlodi yn cymryd agwedd hirdymor
- Mae gwelliannau i ysgolion yn darparu cyfleusterau gwell ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol o ddysgwyr

### Atal

- Mae cefnogi pob dysgwr yn helpu i roi gwell cyfleoedd dysgu a gyrfa iddynt
- Bydd gweithio i godi lefelau incwm ar draws y Sir yn helpu i atal tlodi mewn gwaith
- Mae cefnogi pobl trwy Gynllun Gostyngiadau’r Dreth Gyngor neu Daliadau Tai Dewisol yn elfennau allweddol o gymorth ariannol i aelwydydd drwy’r argyfwng costau byw ac i atal eu sefyllfa rhag gwaethygu.

### Cydweithio

- Gweithio gyda’r Trydydd Sector i ddarparu cymorth iechyd meddwl i bobl ifanc yn dilyn pandemig COVID-19
- Bydd gweithio gyda phartneriaid i gyflawni’r Strategaeth Mamolaeth a’r Blynyddoedd Cynnar ar gyfer Gorllewin Cymru yn helpu i roi’r dechrau gorau mewn bywyd i bobl ifanc Ceredigion.
- Cefnogi darpariaeth Cinio Ysgol am Ddim i ddisgyblion ysgolion cynradd ac ariannu gofal plant i bob plentyn dwy oed

### Cynnwys

- Mae cefnogi Cyngor Ieuenctid Ceredigion fel fforwm i blant a phobl ifanc yn sicrhau bod lleisiau pobl ifanc ledled Ceredigion yn cael eu clywed
- 

### Integreiddio

- Bydd darparu’r dechrau gorau mewn bywyd yn cael effaith gadarnhaol ar bob un o’r Amcanion Llesiant Corfforaethol a’r Nodau Llesiant Cenedlaethol.
- Mae gwell sgiliau a swyddi yn cynyddu lefelau incwm ac felly'n galluogi'r economi leol i dyfu
- Mae Rhaglen Arfor i gefnogi a chryfhau’r cysylltiadau rhwng twf economaidd a’r Gymraeg hefyd yn cryfhau pob un o’r pedair piler llesiant (economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol)

## CYFLAWNIADAU PELLACH

**93.2%**

o ddisgyblion blwyddyn 13 sy’n gadael ysgol, mewn addysg, hyfforddi neu cyflogaeth, uwchben y cyfartaledd cenedlaethol (92.2%)

**70.0%**

o ddisgyblion yn cael ei addysgu yn y Gymraeg fel iaith cyntaf yng Ngheredigion, uwchben y cyfartaledd cenedlaethol (21.6%)

**91.7%**

O poblogaeth oedran gwaith Ceredigion gyda cymwysterau Lefel 2 neu uwch, uwchben y cyfartaledd cenedlaethol (87.4%)

**70.5%**

O poblogaeth oedran gwaith Ceredigion gyda cymwysterau Lefel 3 neu uwch, uwchben y cyfartaledd cenedlaethol (67.4%)



## CREU CYMUNEDAU CYNALIADWY, MWY GWRYDD SYDD WEDI'U CYSYLLTU'N DDA A'I GILYDD



# CYNNYDD A WNAED

- Mae'r cynlluniau amddiffyn yr arfordir yng Ngheredigion yn dod yn eu blaen yn dda. Mae'r gwaith adeiladu yn dod yn ei flaen yn dda yn Aberaeron, ac mae'r ymdrechion yn parhau i ddatblygu achos busnes amlinellol i fodloni gofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer cynllun Aberystwyth. Fodd bynnag, bu'n rhaid oedi'r achos busnes ar gyfer Borth/Ynyslas wrth i ni aros am ddarn o waith rheoli risg llifogydd cysylltiedig i gael ei gwblhau.
- Mae'r gwaith yn parhau hefyd law yn llaw â Chyngor Sir Gâr a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu datrysiad priodol a fforddiadwy i broblem llifogydd yn Llanybydder ac yn Llandysul, ac mae gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd wedi cael ei gyflawni. Yn flaenorol, sicrhawyd cyllid i ddatblygu'r achos busnes ar gyfer y prosiectau hyn a disgwylir i Gyfoeth Naturiol Cymru arwain ar y gwaith adeiladu ar ôl cytuno arnynt.
- Mae'r gwaith ar Gynllun Rheoli Risg Llifogydd y Llanw Aberteifi wedi symud yn ei flaen hefyd, gyda cham y dyluniad amlinellol yn cael ei gwblhau a digwyddiad ymgysylltu â'r cyhoedd yn cael ei gynnal yng Nghastell Aberteifi, ynghyd â chyfarfod ar-lein dilynol gyda swyddogion o'r Cyngor. Nod y cynllun, dan arweiniad Cyfoeth Naturiol Cymru, yw diogelu preswylwyr Aberteifi rhag llifogydd o Afon Teifi a disgwylir i'r gwaith gychwyn yn 2025.
- Yn 2019, datganodd y Cyngor bod Argyfwng Hinsawdd yn bodoli, gan ymrwymo'r Cyngor i sicrhau Carbon Sero Net erbyn 2030. Cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu Carbon Sero Net ar gyfer Cyngor Sir Ceredigion, gan nodi ei ymateb i'r argyfwng hinsawdd, a chan esbonio pam bod angen i ni gymryd y camau hyn a pham bod 2030 mor bwysig fel targed er mwyn mynd i'r afael â newid hinsawdd.
- Er 2005, mae Ceredigion wedi gweld gostyngiad yn ei hallyriadau carbon deuocsid. Mae'r data diweddaraf gan yr Adran Diogeledd Ynni a Sero Net yn dangos bod allyriadau wedi gostwng 41% yn y Sir o gyfanswm o 611 ktCO2e yn 2005 i 362 ktCO2e yn 2022. (ktC02e = cilodunnell o garbon deuocsid cyfatebol)
- Mae mentrau sydd wedi cynnwys uwchraddio goleuadau stryd LED, cynlluniau gwresogi ardal biomas, disodli boeleri, adnewyddu'r fflyd, paneli solar a gwaith rhesymoli adeiladu oll wedi cyfrannu at y gostyngiad mewn allyriadau carbon. Mae'r Cyngor yn mynd trwy'r broses o ddatblygu cynlluniau er mwyn lleihau ein defnydd o ynni a'n hallyriadau ymhellach er mwyn cyflawni targed 2030.
- Mae'r rhaglen o osod bylbiau LED sy'n arbed ynni mewn goleuadau stryd ac arwyddion ffordd wedi'u goleuo ar draws y Sir wedi cael ei gwblhau i raddau helaeth, gan arwain at arbed dros £2 filiwn.
- Mae prosiect wedi cychwyn i ddisodli'r goleuadau ar y brifffordd a gwella cysylltedd teithio llesol rhwng y promenâd a'r harbwr yn Aberystwyth. Mae hyn yn dilyn cyllid a gafodd Cyngor Sir Ceredigion gan fenter Ffyniant Bro Llywodraeth y DU. Mae'r cynllun yn enghraifft arall o'r buddsoddiad y mae'r Cyngor yn ei wneud yn Aberystwyth ac mae'n symud yr ymdrechion i fod yn sir carbon sero net wrth ddefnyddio llusernau LED, yn eu blaen.
- Dros y chwe blynedd ddiwethaf, mae Ceredigion wedi llwyddo i sicrhau un o'r cyfraddau ailgylchu uchaf yng Nghymru ac yn y DU, ac ar hyn o bryd, mae'n 72.0% ar gyfer y deuddeg mis tan fis Rhagfyr 2023, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 66.1%, gan sicrhau'r ail safle uchaf yn genedlaethol. Mae'r lefelau ailgylchu uchel yn y Sir yn dargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi. Mae Ceredigion wedi cynnal ei safle fel un o'r ychydig awdurdodau lleol y disgwylir iddynt ragori ar dargedau ailgylchu Llywodraeth Cymru yn 2023/24.
- Ym mis Mawrth 2024, cynhaliodd Tyfu Canolbarth Cymru ddigwyddiad datgarboneiddio mewn partneriaeth â Chynghorau Sir Powys a Cheredigion. Roedd y digwyddiad yn dwyn ynghyd arweinwyr o'r diwydiant, arbenigwyr a busnesau, gan ganolbwyntio ar leihau allyriadau nwy tŷ gwydr a chostau ynni. Yn unol ag amcanion Tyfu Canolbarth Cymru a'r ddau gyngor lleol, mae'r digwyddiad yn hyrwyddo'r genhadaeth i rymuso busnesau i fabwysiadu arferion cynaliadwy a lleihau eu hôl troed carbon trwy feithrin deialog, cydweithio ac arloesi.
- Mae dulliau gweithredu newydd tuag at heriau casglu gwastraff yn ystod y gaeaf wedi arwain at berfformiad gwell. Casglwyd 93.8% o'r llwybrau casglu gwastraff ar y diwrnod casglu disgwyliedig yn ystod 2023/24, i fyny o 89.3% yn ystod y flwyddyn flaenorol. Yn y cyfamser, casglwyd 98.8% o lwybrau casglu gwastraff yn ystod yr wythnos ddisgwyliedig, i fyny o 96.6% yn ystod y flwyddyn flaenorol. Mae'r dull gweithredu newydd yn cynnwys dwyn Casgliadau Gŵyl y Banc ymlaen.
- Bellach, mae'r gwasanaeth torri porfa mewn mwynderau yn cynnwys 'Mai Di-dor' i gynorthwyo bywyd gwyllt a bioamrywiaeth yn y Sir. Mae rheolaeth hirsefydlog ymylon ffyrdd yn galluogi bioamrywiaeth a blodau gwyllt i ffynnu. Ysgogir y fenter gan yr angen i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd trwy gynnig cydbwysedd rhwng diogelu cynefinoedd, diogelwch y cyhoedd a chynnal harddwch yr amgylchedd naturiol.
- Bydd pedwar o draethau mwyaf poblogaidd Ceredigion yn hedfan Baneri Glas unwaith eto yn 2024 ar ôl cael y wobr gan Cadwch Gymru'n Daclus. Y traethau Baner Las yw Borth, De Aberystwyth, Llangrannog a Thre-saith.
- Mae chwe thraeth pellach wedi sicrhau statws Gwobr Glan Môr, sef Aber-porth, Gogledd Aberystwyth, Harbwr Ceinewydd, Traeth Gwyn Ceinewydd, Traeth y Dolau, Ceinewydd a Clarach. Rhaid i draethau sy'n sicrhau statws gwobr y Faner Las ac Arfordir Gwyrdd fodloni'r

safon uchaf am safon y dŵr, sef “rhagorol”, ac fe’u barnir am ddarpariaeth cyfleusterau i ddefnyddwyr y traeth ac am ddangos rheolaeth dda a darpariaeth diogelwch.

- Mae Cilborth, Llanrhystud, Mwnt a Phenbryn wedi ennill y Wobr Arfordir Gwyrdd. Mae’r Wobr yn cydnabod traethau lle y mae ansawdd y dŵr, y cyfleusterau cyhoeddus, y rheolaeth a’r ddarpariaeth diogel yn “Dda” yn gyffredinol.
- Datblygwyd Strategaeth Ddigidol newydd ar gyfer y cyfnod tan 2030 ac mae’n destun ymgynghoriad yn ystod yr haf 2024. Mae’r Strategaeth newydd yn ceisio darparu ‘Ceredigion sy’n Hyderus yn Ddigidol’, lle y mae’r Cyngor yn hyderus i ddatblygu, arloesi a darparu gwasanaethau digidol mewn partneriaeth â’n cymunedau, a lle y mae cymunedau yn gysylltiedig, yn ymgysylltu ac yn barod i gael budd ganddynt. Fe’i chynlluniwyd i gynorthwyo Cenhadaeth Ddigidol Genedlaethol Llywodraeth Cymru ac i gynorthwyo wrth gyflawni pedwar Amcan Llesiant Corfforaethol y Cyngor.
- Mae lobïo arwyddocaol gan Gyngor Sir Ceredigion ac eraill wedi arwain at ganran o 50.6% o ran y gwasanaeth band eang ffeibr llawn sy’n cynnig galluogrwydd o dros 100 Mbps. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae canran darparu Ffeibr i’r adeilad (FTTP) wedi codi o 40.9% i 50.6%.
- Cynhaliwyd 4.2m o gasgliadau gwastraff, gan gasglu 127 cilogram o wastraff y pen a rheoli dros 700 o finiau sbwriel ar draws y Sir.
- Rheolwyd dros 1,700 o leoedd parcio talu ac arddangos ar draws y Sir.
- Yn ystod yr hydref 2023, gweithredodd y Cyngor er mwyn mynd i’r afael â phroblem ail gartrefi ac eiddo sydd wedi bod yn wag yng Ngheredigion am gyfnod hir, trwy godi ardoll y Dreth Gyngor ar ail gartrefi ac eiddo sydd wedi bod yn wag am gyfnod hir, o fis Ebrill 2024. Cyflwynwyd y codiadau yn dilyn cyfnod hir o drafod, casglu tystiolaeth a gweithgarwch ymgynghori â’r cyhoedd, lle y cafwyd dros 1,400 o ymatebion. Cyflwynwyd y newidiadau er mwyn helpu i sicrhau bod cyflenwad da o dai ar gael yn y farchnad ar gyfer pobl leol.
- Yn ogystal, roedd y Cyngor wedi cymryd rhan yng Nghynllun Grantiau Tai Gwag Llywodraeth Cymru. Ceir tua 800 eiddo sydd wedi bod yn wag am gyfnod hir yng Ngheredigion, yn ystod cyfnod lle y gwelir prinder cyflenwad ar draws y Sir. Yn aml, mae eiddo gwag yn ddrud i’w hunioni ac maent yn cyfrannu at ddirywiad ardal, ond maent hefyd yn ased cymunedol nad ydynt yn cael eu defnyddio ddigon, pan welir prinder tai. Mae grantiau o hyd at £25,000 ar gael dan y cynllun i adnewyddu eiddo gwag, eu gwneud yn ddiogel i fyw ynddynt a gwella eu gallu i ddefnyddio ynni mewn ffordd effeithlon.
- Cyhoeddwyd Strategaeth Tai newydd ar gyfer y cyfnod rhwng 2023 a 2028. Mae’r Strategaeth yn nodi’r weledigaeth ar gyfer tai yn y Sir, ynghyd â blaenoriaethau allweddol sy’n nodi ac sy’n ymateb i’r sialensiau dros y bum mlynedd nesaf. Mae’r Strategaeth yn cydnabod rôl bwysig tai o ran ei ddylanwad ar iechyd a lles unigolion, teuluoedd a’r gymuned ehangach. Y ddwy flaenoriaeth bennaf yn y Strategaeth yw cynyddu cyflenwad a gwella amodau tai, a chynorthwyo preswylwyr yn eu cartrefi a’u cymunedau. Cyflawnir y Strategaeth mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol.
- Llwyddwyd i atal 69% o aelwydydd a oedd yn cael eu cynorthwyo gan y Tîm Digartrefedd rhag mynd yn ddigartref, sydd ychydig yn uwch na’r ganran a welwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol, sef 67%.
- Llwyddwyd i sicrhau cyllid o £1.5m i adeiladu cam cyntaf cynllun teithio llesol a fydd yn cysylltu Bow Street ac Aberystwyth gyda llwybr cerdded a beicio yn y pen draw. Bydd y llwybr rhannu defnydd newydd ar gyfer cerddwyr a beicwyr yn helpu i gysylltu Aberystwyth ymhellach gydag aneddiadau Comins-coch, a gyda Phenrhyn-coch a Bow Street yn y pen draw.

## CYFLAWNIADAU ALLWEDDOL

**72.0%**
gwastraff wedi’i ailgylchu wedi’i gompostio neu ei ailddefnyddio am y deuddeg mis hyd at fis Rhagfyr 2023

**3.8m**
Cyfanswm yr oriau cilowat o ynni adnewyddadwy a gynhyrchir gan asedau’r cyngor, yn uwch na’r 1.8m awr llynedd

**2.42**
diwrnod ar gyfartaledd i glirio tomenni anghyfreithlon ledled y Sir

**41%**
Ostyngiad mewn allyriadau carbon ers 2005

**14**
o draethau Ceredigion wedi adnabod mewn Gwobrau Arfordir Cymru eleni

**95.0%**
O'r diffygion priffyrdd categori 1 a gaiff eu hatgyweirio neu eu gwneud yn ddiogel erbyn diwedd y diwrnod gwaith nesaf, yn uwch na’r 93.6% llynedd

**93.8%**
O lwybrau casglu sbwriel wedi’i chasglu ar ddiwrnod rhestredig casglu, cynnydd o 89.3% yn y flwyddyn flaenorol

**50.6%**
Darpariaeth band eang Ffibr i’r Adeilad (FTTP) wedi cynnyddu o 40.9%, oherwydd buddsoddiad mewn cysylltedd digidol dros y ddwy flynedd ddiwethaf

# GWELLA CANLYNIADAU

## DATGARBONEIDDIO TRFNIDIAETH

Ar ôl darparu dau gam o osodiadau seilwaith Cerbydau Trydan (EV) yn llwyddiannus ym meysydd parcio Cyngor Sir Ceredigion, mae'r Sir bellach yn cynnwys nifer uchaf y pwyntiau gwefru EV fesul 100,000 o'r boblogaeth at ddefnydd y cyhoedd ar draws Cymru gyfan.

Yn ôl data Llywodraeth Cymru, mae gan Geredigion 158.5 o gyfleusterau gwefru fesul 100,000 o'r boblogaeth, o'i gymharu â'r cyfartaledd yng Nghymru, sef 60.7.

Mae hyn yn golygu y gall preswylwyr, busnesau ac ymwelwyr ddewis o blith 112 o bwyntiau gwefru ar draws y Sir nawr. Darparir 76 o'r rhain gan Gyngor Sir Ceredigion yn uniongyrchol mewn 18 o wahanol leoliadau, gan gynnwys meysydd parcio y Cyngor.

Ers datgan Argyfwng Hinsawdd yn 2019, mae'r Cyngor wedi bod ar flaen y gad wrth **fynd i'r afael â newid hinsawdd.** Mae lleihau **allyriadau carbon** ac annog pobl i ddefnyddio **ynni glân** yn rhan ganolog o sicrhau carbon sero net erbyn 2030, a bydd yn cyflawni rôl allweddol wrth **atal a dadwneud effeithiau newid hinsawdd.**

Mae'r buddsoddiad mewn gwefru EV yn dangos ymrwymiad y Cyngor i sicrhau carbon sero net erbyn 2030, a'r gobaith yw y bydd yn gwneud y penderfyniad i drawsnewid i EV yn haws. Llwyddwyd i sicrhau cyllid ar gyfer trydydd cam o osodiadau gwefru EV hefyd, a chyflawnir hyn yn ystod 2024/25.

## CYNYDDU EFFEITHLONRWYDD YNNI

Ym mis Medi 2023, dyfarnwyd Canmoliaeth Arbennig i Gyngor Sir Ceredigion yng nghategori "Cyngor Cenedlaethol neu Awdurdod Lleol y Flwyddyn" yn Seremoni y Gwobrau Effeithlonrwydd Ynni Cenedlaethol a gynhaliwyd yn Birmingham ym mis Medi 2023.

Mae'r Gwobrau Effeithlonrwydd Ynni yn cydnabod y gwaith a gyflawnir gan y sector effeithlonrwydd ynni yng Nghymru.

Mae'r Cyngor wedi bod yn darparu cynllun 'Cymhwystra Hyblyg ECO' Awdurdod Lleol ers sawl blynedd. Mae'r cynllun hwn wedi helpu aelwydydd i **ostwng eu biliau ynni, mynd i'r afael â thlodi tanwydd** a lleihau **allyriadau carbon** trwy osod systemau gwresogi a mesurau inswleiddio cysylltiedig, gan wella **effeithlonrwydd ynni a chysur thermol cartrefi.**

Mae'r gwaith hwn wedi bod yn hanfodol hefyd wrth helpu aelwydydd i **reoli'r argyfwng costau byw ac ynni** a welwyd dros y ddwy flynedd ddiwethaf, sydd wedi arwain at filiau cyfleustodau yn codi'n ddramatig ac sydd wedi rhoi mwy o bwysau ar sefyllfa ariannol aelwydydd.

Mae'r wobr yn gwobrwyo un cyngor eithriadol sydd wedi dangos gwir ymrwymiad i hyrwyddo effeithlonrwydd ynni yn ei ranbarth. Mae'n cydnabod ymdrechion y Cyngor a'i wasanaeth i'w gymuned leol.

## CREU CYFLEOEDD TAI

Lansiwyd Cynllun Tai Cymunedol newydd cyffrous ym mis Medi 2023 i **gynorthwyo pobl leol i fyw ac i aros yn eu cymunedau lleol** yng Ngheredigion.

Mae'r cynllun yn ceisio cynorthwyo pobl gyda thai fforddiadwy yn eu hardal leol trwy **greu llwybrau i fod yn berchen** ar gartref trwy gynnig benthyciadau rhannu ecwiti di-log.

Mae Tai Fforddiadwy yng Ngheredigion yn flaenoriaeth allweddol i'r Awdurdod Lleol, ac mae'r Cyngor yn defnyddio adnoddau sylweddol i greu a rheoli tai fforddiadwy. Ym mis Mawrth 2022, gwnaeth y Cyngor ymrwymiad i gefnogi'r cynllun yn ei Strategaeth Gorfforaethol newydd.

Gwelwyd cynnydd arwyddocaol yn y galw am eiddo gwledig ac unedau fforddiadwy mewn aneddiadau gwledig. Cynlluniwyd y cynllun i **atal yr aelwydydd cymwys hynny rhag cael eu prisio allan o'r farchnad, gan atal diboblogi a dirywiad pellach cefn gwlad, a chynnig dewisiadau newydd i alluogi pobl i aros yn eu cymuned leol.**

Gall cynlluniau fel hyn arwain at **fwy o ymdeimlad o gysylltiad** hefyd, gan **wella cynaliadwyedd hirdymor cymuned.** Caiff cronfeydd a godir trwy Bremiwm Ail Gartrefi y Dreth Gyngor eu clustnodi i ariannu cynlluniau a disgwylir y ceisiadau cyntaf yn fuan.

## MYND I'R AFAEL AG ERYDU ARFORDIROL A LLIFOGYDD

Mae'r gwaith ar gynllun amddiffyn yr arfordir Aberaeron, a fydd yn costio £32m, bellach wedi cychwyn. Bydd preswylwyr ac ymwelwyr â'r dref wedi sylwi ar glogfeini yn cael eu dadlwytho ar gyfer yr amddiffynfeydd wrth Draeth y De y dref dros y misoedd diwethaf.

Mae'r cynllun yn cynnwys adeiladu morglawdd creigiau a fydd yn ymestyn allan o Bier y Gogledd, adnewyddu ac ailadeiladu pen Pier y De, adeiladu muriau llifogydd, adeiladu llifddor wrth harbwr mewnol Pwll Cam a gwelliannau i'r amddiffynfeydd presennol ar Draeth y De.

Mae stormydd a chodiad yn lefel y môr yn fygythiad difrifol i'r dref. Mae stormydd dros y blynyddoedd diwethaf wedi arwain at gau Pen Cei a dŵr yn dod dros yr amddiffynfeydd presennol yn yr harbwr ac ar Draeth y De.

Bydd y cynllun yn diogelu'r dref a'r arfordir gerllaw rhag lefel y môr yn codi, gan atal llifogydd ac erydu arfordirol. Bydd yn **gwella lefel y diogelwch i'r busnesau a'r cartrefi** niferus yn y dref, a bydd yn **diogelu cymeriad hanesyddol ac unigryw yr ardal ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.**

Ariannir y cynllun trwy gyfrwng cyfraniad o £25.85m gan Raglen Rheoli Risgiau Arfordirol Llywodraeth Cymru, ynghyd â chyfraniad o £4.74m gan Gyngor Sir Ceredigion.

# DARPARU DATBLYGU CYNALIADWY

## Asesiad cyffredinol o’r daith hyd yn hyn

Mae cynnydd wrth fodloni'r amcan hwn yn ***dda*** ac mae'r rhagolygon gwella yn ***dda iawn***.

Mae Ceredigion wedi cymryd rhan flaenllaw yn ei huchelgeisiau i gyflawni sero net a diogelu ei hamgylchedd unigryw ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Er gwaethaf yr heriau sy’n bodoli o ran cyflawni sero net, mae’r camau i leihau ein hôl troed carbon, gwella teithio llesol a chysylltu cymunedau ar y trywydd iawn ac mae datblygiadau pellach ar y gweill yn y flwyddyn i ddod.

Mae Cynllun Rheoli Carbon y Cyngor, y Cynllun Tai Cymunedol a pherfformiad uchel parhaus mewn ailgylchu yn enghreifftiau o sut mae Ceredigion yn arwain y ffordd wrth gyflawni'r amcan hwn.

## YN ARWAIN Y FFORDD

## MWYHAU EIN CYFRANIAD AT Y NODAU LLESIANT CENEDLAETHOL

Mae’r nod llesiant corfforaethol **Creu Cymunedau Cynaliadwy, mwy Gwyrdd sydd wedi’u Cysylltu’n Dda a’l Gilydd** yn cefnogi’r nodau llesiant cenedlaethol canlynol. ▶

- Llewyrchus
- Cydnerth
- Iachach
- May Cyfartal
- Cydlynus
- Diwylliant
- Byd-eang

### Hirdymor

- Bydd cynllunio hirdymor i leihau allyriadau carbon yn helpu i ddiogelu ein tirwedd hardd ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol
- Defnyddiwyd dadansoddiad Tueddiadau’r Dyfodol i ddatblygu Cynllun Rheoli Carbon 5 Mlynedd y Cyngor

### Atal

- Mae'r amcan cyntaf yn canolbwyntio ar atal effaith pellach ar yr amgylchedd, yn enwedig lleihau allyriadau carbon, ond hefyd yr effaith ar fioamrywiaeth ar draws y Sir
- Mae teithio llesol yn rhan allweddol o strategaeth Ceredigion i wella iechyd a llesiant, ac felly atal problemau sy’n ymwneud ag iechyd yn y dyfodol.
- Mae bod yn gysylltiedig wedi dod i’r amlwg dros ers pandemig COVID-19, a bydd budd-soddi mewn cysylltedd yn helpu i greu cymunedau cryfach a mwy llewyrchus.

### Cydweithio

- Bydd gweithio ar y cyd â phartneriaid a rhanddeiliaid yn helpu i sicrhau dull cydgysylltiedig o leihau effaith newid yn yr hinsawdd a’n bod i gyd yn canolbwyntio ar fathau mwy cynaliadwy o ynni yn y dyfodol.
- Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â chydweithwyr ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion, er enghraifft, i ddatblygu Prosiect Gwresogi Ardal Penglais lle bydd pob sefydliad sector cyhoeddus yn yr ardal yn gallu manteisio ar ynni gwyrdd.

### Cynnwys

- Mae pawb yn cymryd rhan ac yn cael eu hannog i wneud dewisiadau a fydd yn lleihau cost-au nawr ac yn gwarchod yr amgylchedd ar gyfer y dyfodol

### Integreiddio

- Mae datgarboneiddio, gwella iechyd y Sir trwy annog teithio llesol, a gwella cysylltedd yn dod â buddion clir ar gyfer cynyddu ein cyfraniad i bob un o’r nodau llesiant

## MESURIADAU ALLWEDDOL

**156**
Gwellodd anheddau trwy Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ar gyfanswm gwerth o £960,600

**68.3**
Prosiectau cynhyrchu ynni carbon isel ar draws y Sir (fesul 1,000 o’r boblogaeth)

**123**
Aelwyd a oedd dan fygythiad o ddigartrefedd wedi cael eu hatal rhag dod yn ddigartref yn llwyddiannus

**100%**
O geisiadau cynllunio a ddilyswyd o fewn 7 diwrnod

# CYFRANIAD AT Y NODAU LLESIANT CENEDLAETHOL

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ceisio gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gydweithio i greu Cymru gynaliadwy. Ei bwriad yw helpu i greu Cymru yr ydym ni eisiau byw ynddo, nawr ac yn y dyfodol. Mae 7 nod llesiant cenedlaethol sy’n nodi gweledigaeth a rennir i bob corff cyhoeddus weithio tuag at (dangosir ar y dde).

Gwyddom ein bod yn wynebu heriau yng Ngheredigion - mae pandemig COVID-19 wedi bod yn ddigynsail o ran ei effaith ar bob cefndir, ond yn fwy diweddar mae'r argyfwng costau byw yn effeithio ar lawer o aelwydydd yn y Sir. Mae rhai o’r materion hyn wedi’u gwaethygu gan y pandemig ac wedi dod i’r amlwg fel fforddiadwyedd tai, tra bod eraill yn parhau i fod yn her gyson fel mynd i’r afael a thlodi.

Mae hefyd angen tyfu’r economi leol a chreu cyfleoedd i bobl leol aros a ffynnu yn eu cymunedau lleol. Bydd demograffeg newidiol y Sir tuag at boblogaeth sy’n heneiddio ac allfudiad o bobl iau yn cael effeithiau pellgyrhaeddol ar draws y pedwar piler llesiant.

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi cydweithio â’i bartneriaid lleol a rhanbarthol i fynd i’r afael â’r materion cymhleth hyn i greu’r Ceredigion yr ydym ei heisiau. Rhai enghreifftiau yw Bargen Twf Canolbarth Cymru yn ysgogi cyllid sylweddol ar gyfer adfywio ar draws y rhanbarth, yr ymateb cydgysylltiedig i bandemig COVID-19 gydag amrywiaeth o bartneriaid ar draws y Sir, ac Is-grŵp Tlodi’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wrth fynd i’r afael ag effaith Tlodi ar draws y sir.

Roedd Amcanion Llesiant 2021/22 y Cyngor yn canolbwyntio ar yr ymateb uniongyrchol i pandemig COVID-19 ac yn cefnogi’r adferiad tymor hwy. Fe'u gosodwyd yn seiliedig ar dystiolaeth o anghenion lleol ac ar farn pobl leol. Defnyddiwyd amrywiaeth o ffynonellau i bennu'r anghenion hyn gan gynnwys Asesiad diwethaf Ceredigion o Lesiant Lleol a’r Cynllun Llesiant Lleol.

Bydd yr Amcanion Llesiant yn ein helpu i wella canlyniadau i bobl leol a hefyd yn gwneud y mwyaf o’n cyfraniad at y Nodau Llesiant cenedlaethol.

Rydym yn monitro ac yn adolygu cynnydd tuag at gyflawni'r Amcanion yn rheolaidd ac yn cynhyrchu Adroddiad Hunanasesu blynyddol lle rydym yn cyfleu cynnydd.


Mae **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion** yn dod ag arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus y Sir a’r rhai sy’n gwneud penderfyniadau ynghyd, i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol y Sir drwy gryfhau cydweithio ar draws gwasanaethau’r Sir.

Fel y Cyngor, datblygwyd ei flaenoriaethau gan ddefnyddio tystiolaeth ac adborth ymgysylltu o ffynonellau allweddol megis yr Asesiad o Lesiant Lleol.

Mae hyn yn sicrhau bod Amcanion Llesiant Cyngor Sir Ceredigion a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion wedi’u halinio i ganolbwyntio ar anghenion blaenoriaeth y Sir, a chynyddu’r cyfraniad at y Nodau Llesiant cenedlaethol.

Mae themâu cyffredin fel mynd i’r afael a thlodi, cyfrifoldeb amgylcheddol, creu cyfleoedd a darparu’r dechrau gorau mewn bywyd i gyd yn cyd-fynd yn agos ac yn caniatáu i ni ddarparu ymateb cydgysylltiedig a rennir i wella llesiant. Mae’r tabl trosodd yn dangos sut mae Amcanion Llesiant Ceredigion yn cyfrannu at y 7 Nod Llesiant cenedlaethol.

## Y 7 NOD LLESIANT CENEDLAETHOL




**Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi 7 Nod Llesiant ar waith.**

**Mae’r Ddeddf yn rhoi’r uchelgais, y caniatâd a’r rhwymedigaeth gyfreithiol i ni wella ein llesiant cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd.**

**Mae’n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, i weithio yn well gyda phobl, cymunedau a’i gilydd, ac i atal problemau parhaus fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd.**

| ▼ Nod Llesiant | Sut mae Amcanion Llesiant y Cyngor yn cyfrannu at y Nodau Llesiant cenedlaethol ▼ |
|---|---|
| Cymru lewyrchus | Mae ein holl Amcanion Llesiant yn adlewyrchu'r pwysigrwydd o ddatblygu economi leol Ceredigion. Bydd galluogi cyflogaeth, datblygu sgiliau, darparu tai fforddiadwy, amddiffyn yr amgylchedd, cefnogi busnesau a buddsoddi mewn adfywio i gyd yn cyfrannu tuag at y nod cenedlaethol o Gymru lewyrchus. Bydd cefnogi busnesau i ymateb i effeithiau Covid-19 yn helpu'r ymateb ar unwaith a'r ymateb yn y tymor hir wrth i ni edrych i gynyddu tyfiant economaidd, creu mwy o swyddi a swyddi tal gwell ac i gefnogi'r gweithlu trwy ddarparu cyfleoedd i ddysgu. |
| Cymru gydnerth | Bydd cyflwyno ein huchelgais o fod yn garbon net sero, cynyddu cyfleoedd i deithio llesol a sicrhau bod cymunedau wedi'i chysylltu yn dda yn helpu amddiffyn ein hamgylchedd naturiol ac yn creu cymunedau cryf a gydnerth. Mae hyn yn cyfrannu tuag at y nod llesiant cenedlaethol o greu Cymru gydnerth trwy leihau ein heffeithiau ar yr amgylchedd a gwella ein gallu i addasu i newid. |
| Cymru iachach | Mae cefnogi dysgwyr mewn addysg a hyfforddiant, amddiffyn pobl rhag tlodi, a hybu bywydau iachach a mwy llesol yn ceisio adeiladau Ceredigion a Chymru iachach. Mae hyn hefyd yn galluogi byw annibynnol ac yn darparu ymyrraeth gynnar a gwasanaethau atal i'r rhai sy'n agored i niwed. Bydd cefnogi dinasyddion sydd wedi'i effeithion anghymesur gan COVID-19 i wella ei llesiant ffisegol ac emosiynol yn cefnogi mentrau arall i ddarparu Cymru iachach. |
| Cymru sy'n fwy cyfar-tal | Mae pob un o'n Hamcanion Llesiant yn ceisio sefydlu Cymru fwy Cyfartal drwy sicrhau cyfle cyfartal i bawb mewn cyflogaeth, tai, addysg, ffyrdd iach-ach o fyw a chymunedau cynaliadwy. |
| Cymru o gymunedau cydlynus | Mae adeiladu cryfder ein cymunedau yn nodwedd allweddol yn ein Hamcanion Llesiant. Bydd darparu cefnogaeth i'n cymunedau fod yn gryf ac wedi'u cysylltu'n dda fel eu bod yn gallu ffynnu er gwaethaf Covid-19 yn gwella Cymru o gymunedau cydlynol. |
| Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Mae'r Cyngor yn parhau i hyrwyddo diwylliant a hunaniaeth ddwyieithog unigryw a bywiog Ceredigion. Amlygwyd piler diwylliannol Llesiant fel un sy'n arbennig o bwysig i Ddinasyddion yn Asesiad Llesiant Lleol Ceredigion, ac mae mesurau pellach i hyrwyddo dwyieithrwydd a'r Iaith Gymraeg yn eu lle. |
| Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | Wrth ystyried ein Hamcanion Llesiant, rydym wedi ystyried Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion a gweithgarwch ymgysylltu er mwyn sicrhau y gallwn wneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant byd-eang. Mae cymorth ar gyfer teithio llesol, dulliau eraill o deithio a ffyrdd newydd o weithio sy'n adeiladu ar ein huchelgais di-garbon yn parhau â'n gwaith yn y maes hwn. |

# YR EGWYDDOR DATBLYGU CYNALIADWY

**Cyflwynodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy ac mae'n amlinellu'r 5 ffordd o weithio y mae'r rhaid i bob corff cyhoeddus eu mabwysiadu. Datblygu Cynaliadwy yw'r egwyddor drefnu ganolog sy'n llywio'r hyn yr ydym yn ei wneud a'r ffordd yr ydym yn gwneud hynny.**

Yn ei hanfod, mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ni ymdrechu i sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Mae'r dull hwn yn rhoi cyfle i feddwl yn arloesol, gan adlewyrchu'r ffordd yr ydym yn byw ein bywydau a'r hyn a ddisgwyliwn gan ein gwasanaethau cyhoeddus

Rydym wedi gwreiddio'r egwyddor ar draws y Cyngor ac wedi mabwysiadu'r egwyddor wrth gynllunio a chyflawni ein Hamcanion Llesiant.

Mae rhai o'r ffyrdd yr ydym wedi defnyddio'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy wedi'u hamlinellu i'r dde.

| | Ffyrdd o Weithio | Sut mae'r Cyngor wedi dangos yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy |
|---|---|---|
| | **Hirdymor**<br>Edrych i'r tymor hir fel nad ydym yn peryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu anghenion eu hunain | • Mae Cynllunio Ariannol Tymor Canolig yn sicrhau bod penderfyniadau yn ystyried yr effaith ar cenedlaethau'r dyfodol<br>• Mae cynllunio'r gweithlu yn sicrhau datblygiad sgiliau'r gweithlu ar gyfer y dyfodol a sicrhau bod gwasanaethau yn cynaliadwy yn hir dymor.<br>• Mae'r Strategaeth Gorfforaethol yn ceisio datblygu a gwella llesiant cymdeithasol, economi, amgylcheddol a diwylliannol Ceredigion dros y 5 mlynedd nesaf a thu hwnt.<br>• Rhagwelir y bydd yr adferiad o'r pandemig COVID-19 yn para am nifer o flynyddoedd ac mae ein cynlluniau i fynd i'r afael â thlodi a mabwysiadu ymagwedd hirdymor at ddatblygu economaidd yn adlewyrchu hyn. |
| | **Integreiddio**<br>Cymryd ymagwedd integredig fel bod cyrff cyhoeddus yn edrych ar yr holl nodau llesiant wrth benderfynu ar eu Hamcanion llesiant | • Mae'r Amcanion Llesiant yn cyd-fynd â rhai Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion sy'n hyrwyddo cyd-ddealltwriaeth ac ymateb cydgysylltiedig i'r heriau y mae Ceredigion yn eu hwynebu i wella llesiant dinasyddion. |
| | **Cynnwys**<br>Cynnwys amrywiaeth o'r boblogaeth yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt | • Mae Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor wedi ystyried Asesiad o Lesiant Lleoly Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, a gynhyrchwyd yn dilyn ymgysylltu helaeth â dinasyddion, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig.<br>• Mae'r Cyngor yn ymgynghori'n flynyddol â dinasyddion a'i grwpiau ymgysylltu ar adolygu a gosod ei Amcanion Llesiant blynyddol.<br>• Bydd Strategaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad y Cyngor yn helpu i sicrhau bod lleisiau holl grwpiau Ceredigion yn cael eu clywed. |
| | **Cydweithio**<br>Gweithio gydag eraill mewn ffordd gydweithredol i ddod o hyd i atebion cynaliadwy a rennir | Mae'r cyngor yn cefnogi'r partneriaethau canlynol, ynghyd ac eraill;<br>• Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru.<br>• Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion.<br>• Partneriaeth Diogelwch Cymunedol.<br>Gweithiodd y Cyngor ochr yn ochr â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a phartneriaid eraill i ymateb i COVID-19, gan gynnwys sefydlu dau ysbyty dros dro, canolfannau brechu torfol a phanel amlasiantaethol i sicrhau bod lleoliadau cymunedol yn cael eu hailagor yn ddiogel. |
| | **Atal**<br>Deall achosion sylfaenol problemau i'w hatal rhag digwydd | • Mae Amcanion Llesiant y Cyngor wedi'u pennu er mwyn atal problemau rhag digwydd neu waethygu. Mae'r rhain yn cynnwys mynd i'r afael ag effeithiau tlodi, materion gwledigrwydd a gwella llesiant pobl o bob oed, o'r blynyddoedd cynnar hyd at oedran hŷn.<br>• Mae'r Model Gydol Oes yn darparu dull cydgysylltiedig o ymdrin â gofal cymdeithasol er mwyn atal, lleihau neu ohirio'r angen am gymorth parhaus, a chaniatáu i bobl aros yn eu cartrefi eu hunain. |

## ADNODDAU ALLWEDDOL

**Mae ein Hadroddiad Hunanasesu yn cyflawni ein dyletswyddau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 mewn perthynas â pherfformiad y Cyngor a gosod ac adolygu amcanion llesiant.**

**Mae gofynion Hunanasesu yn cyd-fynd â'r dyletswyddau a amlinellir mewn Deddfau eraill, ac yn eu cefnogi. Mae'r tudalennau canlynol yn rhoi crynodeb o'r dyletswyddau hyn a pholisi neu strategaeth briodol y Cyngor sydd ar waith i ymateb i'r ddyletswydd.**

- Cydraddoldebau
- Yr Iaith Gymraeg
- Cyllid
- Caffaeliad
- Llywodraethu
- Rheoli Asedau
- Adnoddau Dynol
- Llesiant Gydol Oes
- Economi
- Mynd i'r afael a Chaledi
- Strategaeth Gweithio Hybrid
- Tai

## CYDRADDOLDEBAU

Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor yn egluro sut y bydd Cyngor Sir Ceredigion yn sicrhau bod y camau a gymerwn yn deg i bawb. Mae cael eich trin yn deg a chyda pharch yn berthnasol i bob un ohonom ac i'n teuluoedd a'n ffrindiau. Dyma bum Amcan Cydraddoldeb y Strategaeth:

- Cyflogwr cyfle cyfartal enghreifftiol
- Meithrin perthnasoedd da a mynd i'r afael â rhagfarn
- Ymgysylltu a chyfranogi
- Urddas, parch a mynediad i wasanaethau
- Addysg deg a chynhwysol

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn dwyn ynghyd ac yn disodli'r cyfreithiau gwrth-wahaniaethu blaenorol. Mae'n symleiddio ac yn cryfhau'r gyfraith ac yn ei gwneud hi'n haws i bobl ddeall a chydymffurfio â'r gyfraith. Mae'r Ddeddf yn diogelu hawliau unigolion ac yn hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb. Mae'n cynnwys rhoi dyletswydd gyffredinol ar sefydliadau yn y sector cyhoeddus i roi 'sylw dyledus' i'r canlynol:

- Dileu gwahaniaethu'n anghyfreithlon, aflonyddu neu erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf.
- Hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu.
- Meithrin perthnasoedd da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu trwy fynd i'r afael â rhagfarn a hybu dealltwriaeth ohono.

Mae'n ofynnol i gyrff y sector cyhoeddus adolygu eu Hamcanion Cydraddoldeb Strategol a'u cynllun gweithredu bob pedair blynedd. I wneud hyn, rydym yn ymgynghori ac yn ymgysylltu â'n cymunedau lleol i lywio'r cynllun a'r amcanion. Mae Cyngor Ceredigion yn aelod o Grŵp Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Rhanbarthol y Canolbarth a'r Gorllewin, a chytunodd y Grŵp hwn i fynd ati fel rhanbarth i ymdrin â'r darn hwn o waith. Datblygwyd y cynllun ymgysylltu ac ymgynghori rhanbarthol yn Ch4 2022-23 a bydd yn cael ei roi ar waith yn ystod 2023-24 er mwyn i'n Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol diwygiedig fod yn barod i'w cyhoeddi erbyn 31 Mawrth 2024.

## YR IAITH GYMRAEG

Er mwyn cynnal cymunedau Cymraeg hyfyw lle mae'r Gymraeg yn iaith cyfathrebu naturiol yng Ngheredigion, mae Strategaeth Iaith y Cyngor yn cydnabod tri maes blaenoriaeth allweddol, sef

- Cynyddu sgiliau iaith trigolion Ceredigion
- Cynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yng Ngheredigion
- Sicrhau amodau cymdeithasol sy'n galluogi'r Gymraeg i ffynnu yng Ngheredigion.

Cydnabyddir bod cynaladwyedd y Gymraeg yn dibynnu ar y broses o gryfhau cymunedau Cymraeg trwy ddarparu cyfleoedd addysgol, diwylliannol a chymdeithasol i ddefnyddio'r iaith yn feunyddiol.

Yn unol â Safonau'r Gymraeg, mae'r strategaeth yn nodi sut y bydd y Cyngor yn annog y Gymraeg ac yn hybu ei defnyddio'n ehangach yn yr ardal leol, drwy gydweithio â sefydliadau sy'n aelodau o Fforwm Dyfodol Dwyieithog Ceredigion. Mae'r Strategaeth yn cefnogi gweledigaeth gyffredinol y Cyngor i sicrhau gwerth am arian, gwasanaethau cyhoeddus dwyieithog cynaliadwy, a hefyd gweledigaeth Llywodraeth Cymru i gyflawni miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050.

Mae'r Cyngor yn credu bod cyhoeddi strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, ochr yn ochr â gweithredu Strategaeth y Gymraeg yng Ngheredigion, wedi ysgogi rhywfaint o newid mewn agweddau tuag at y Gymraeg, ac o ganlyniad, nifer y bobl sy'n dymuno dysgu a siarad. mae'r iaith yng Ngheredigion wedi cynyddu. Dyma grynodeb o brif lwyddiannau gweithredu'r Strategaeth Iaith:

- Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO) oedd un o'r cynghorau gwirfoddol sirol cyntaf yng Nghymru i ennill cydnabyddiaeth drwy gynllun Cynnig Cymraeg Comisiynydd y Gymraeg.
- Enillodd Cyfoeth Naturiol Cymru Wobr Cyflogwr y Flwyddyn Cymraeg Gwaith yn 2022
- Mae Bwrdd Iechyd Hywel Dda wedi ymuno â chynllun Cymraeg Gwaith i ddarparu cyrsiau magu hyder i 100 o'u staff
- Mae Coleg Ceredigion wedi rhoi polisi ar waith sy'n mynnu bod pob aelod o staff yn dilyn rhaglen hyfforddi fewnol i greu dosbarthiadau dwyieithog, 'Sylfaenol, Gwell, Gorau'
- Dadansoddodd y Cyngor ddata Cyfrifiad 2021 o ran ei oblygiadau ar ddefnydd iaith yng Ngheredigion a chyhoeddwyd yr adroddiad llawn ar wefan y Cyngor, a rhannwyd y canlyniadau'n eang gyda phartneriaid.
- Mae Prifysgol Aberystwyth wedi bod yn buddsoddi mewn datblygiadau ar raddfa fawr sy'n cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg gan gynnwys croesawu ei myfyrwyr nyrsio cyntaf a fydd yn derbyn hyfforddiant i fod yn Nyrsys Oedolion ac Iechyd Meddwl ac a fydd yn gallu astudio trwy gyfrwng y Gymraeg.

Bydd y Strategaeth Iaith a'r Cynllun Gweithredu yn cael i'w adolygu yn ystod 2024 ac ymgynghorir arno yn ystod haf 2024. Bydd Strategaeth wedi'i diweddaru a fydd yn ymdrin â'r pum mlynedd nesaf yn cael i'w cyhoeddi yn hwyr yn 2024.

## CYLLID

Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn rhoi fframwaith llywodraethu ariannol i weithredu

# UNO EIN DOGFENNAU - CYSYLLTIADAU I ADNODDAU ALLWEDDOL

Trwy ddwyn ynghyd yn y ddogfen hon ragdybiaethau ariannol, safonau darparu gwasanaeth, anghenion demograffig, a materion cynllunio'r gweithlu, disgwylir y bydd y Cygor yn gallu ystyried rheolaeth gyffredinol ei adnoddau yn well er mwyn cyflawni ei amcanion.

Nod ariannol y Cyngor yw defnyddio adnoddau'n ofalus a chyfrifol a sicrhau cynnal a chryfhau cydnerthedd ariannol y Cyngor.

Mae deall y cyd-destun ariannol cyfan yn bwysig er mwyn sicrhau cyllideb gadarn a chytbwys ar gyfer y blynyddoedd nesaf gan y gwyddys y bydd cwtogi ar gyllid y Sector Cyhoeddus. Mae'r rhagolwg ariannol yn cynnwys rhagolwg cyllideb tair blynedd. Er gwaethaf yr heriau sy'n bodoli, gall cyfleoedd godi o'r heriau hyn drwy ystyried sut y gellir darparu gwasanaethau'n wahanol ac yn well a sicrhau mwy o werth am arian i'r trethdalwr.

## CHAFFAEL

Gweledigaeth y Cyngor ar gyfer caffael, fel y datganir yn ei **Strategaeth Gaffael**, yw sicrhau gwerth am arian drwy fynd ati'n effeithiol i gaffael y gofynion ar gyfer ei wasanaeth, a dangos gwelliant parhaus yn ei weithgarwch caffael.

Mae'r Cyngor yn gwario dros £60m yn flynyddol drwy drydydd parti i ddarparu amrywiaeth eang o wasanaethau cyhoeddus. Trwy broses gaffael strategol ofalus, caiff y gwariant hwn ei dargedu ar gynorthwyo i wireddu gweledigaeth gyffredinol y Cyngor a'i Amcanion Llesiant Corfforaethol. Mae Strategaeth Gaffael y Cyngor am sicrhau'r canlynol:

- Gwerth am arian drwy seilio penderfyniadau caffael ar gyfuniad priodol o ansawdd a phris.
- Caffael gwasanaethau cyhoeddus sy'n rhoi ystyriaeth i anghenion defnyddwyr gwasanaethau, ac yn eu dewis iaith, drwy ymgynghori, ac ymgorffori Mesur y Gymraeg
- Amgylchedd iach trwy gaffael atebion cynaliadwy a thrwy gymhwyso cyflenwyr o flaen llaw yn ôl eu hanes a'u gwerthoedd cynaliadwyedd.
- Y cyfraniad mwyaf posibl tuag at ddatblygu cynaliadwy drwy sicrhau bod Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhan annatod o brosesau Caffael.

Mae'r Strategaeth Gaffael yn cael ei diweddaru ar hyn o bryd fel rhan o'i hadolygiad pum mlynedd safonol i sicrhau ei bod yn gyfredol ac yn addas i'r diben. Nod yr adolygiad fydd sicrhau bod y Strategaeth yn parhau i gefnogi busnesau lleol a'r economi leol ehangach, a sicrhau bod y Cyngor yn darparu gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau ariannol.

## LLYWODRAETHU

Wrth weithredu ei gyfrifoldeb cyffredinol, mae'r Awdurdod yn gyfrifol am sefydlu trefniadau priodol ar gyfer llywodraethu ac am sicrhau y gweithredir ei swyddogaethau'n effeithiol, a hynny'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risgiau.

Golyga hyn sicrhau bod ei fusnes yn cael ei gyflawni yn unol â'r gyfraith a'r safonau priodol, a bod arian y cyhoedd yn cael ei ddiogelu, ei gyfrifo'n gywir, a'i ddefnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol. Mae ei drefniadau llywodraethu i gefnogi cyflawni ei Amcanion Llesiant Corfforaethol a'i ymrwymiad parhaus i wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol y Sir.

Yn dilyn adolygiad o ddogfennau llywodraethu'r Cyngor, cytunwyd bydd y Fframwaith Llywodraethu yn cael i'w creu i weithredu fel dogfen holl gyffredinol sydd yn cynnwys trefniadau llywodraethu'r Cyngor ac i gymryd lle'r Cod Lleol i Lywodraethu Corfforaethol blaenorol.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i arddangos bod ganddo'r trefniadau llywodraethau corfforaethol angenrheidiol yn ei le er mwyn perfformio yn effeithiol, ac i sicrhau bod y trefniadau yma yn cael ei adlewyrchu yn ddogfen trefniadau llywodraethu'r Cyngor.

Cafodd y **Fframwaith Llywodraethu** newydd ei chymeradwyo gan y Cyngor yn Fawrth 2024. Mae'n arddangos y trefniadau sydd yn ei le i sicrhau bod y canlyniadau bwriadedig i'r holl rhanddeiliaid yn cael ei ddiffinio a chyflawni, wrth sicrhau bod y Cyngor bod amser yn gweithredu er budd y cyhoedd.

Mae'n gosod allan y ffordd mae'r Cyngor yn cwrdd â'r ymrwymiad er mwyn cyflawni gweledigaeth y Cyngor a'i Amcanion Llesiant Corfforaethol, dod a'r holl drefniadau llywodraethu at ei gilydd a darparu sicrwydd bod trefniadau llywodraethu clir yn ei le.

Cafodd y **Datganiad Llywodraethu Blynyddol** ar gyfer 2022/23 i'w cymeradwyo gan y Cyngor yn Chwefror 2024 a chadarnhawyd bod trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn effeithiol ac yn addas i'r pwrpas gyda chynnydd da yn ystod y flwyddyn gyda chyflawniadau wedi recordio yn erbyn y saith egwyddor graidd o lywodraethu. Roedd nifer o faterion bach i'w ddatrys yn ystod y flwyddyn nesaf.

## RHEOLI ASEDAU

Diben **Polisi Datblygu Asedau**'r Cyngor yw nodi dull Cyngor Sir Ceredigion o wneud y gorau o'i asedau drwy brydlesu, gwaredu a chaffael er mwyn cyflawni ei flaenoriaethau a'i amcanion. Mae amcanion allweddol y Polisi fel a ganlyn:

- Nodi'r prif gamau wrth fynd ati i adolygu Datblygu Asedau. Gweler y Siart Llif am y broses Datblygu Asedau (atodiad C).
- Gosod cyd-destun strategol ar gyfer rheoli tir ac adeiladau sy'n wag neu sy'n cael eu tanddefnyddio.
- Sicrhau bod gan Gyngor Sir Ceredigion y portffolio asedau mwyaf effeithiol ac addas i gyd-fynd â'i amcanion.
- Cael y refeniw mwyaf posib o'r asedau sydd dan berchnogaeth y Cyngor.
- Nodi'r asedau nad oes bellach eu hangen at eu defnydd gwreiddiol, a chael yr incwm mwyaf posib drwy eu datblygu ac/neu eu gwaredu.
- Ychwanegu at y portfolio asedau lle bo'n briodol er mwyn cyflawni'r amcanion corfforaethol.
- Defnyddia'r Cyngor ystod o wahanol gamau gweithredu i gyflawni'r amcanion hyn, gan gynnwys cael gwared ar dir ac adeiladau sy'n wag neu nad oes eu hangen mwyach, buddsoddi mewn tir ac adeiladau i gynyddu incwm trwy gytundebau prydles, a buddsoddi i ddatblygu tir ac adeiladau ar gyfer defnyddiau masnachol neu ddefnyddiau eraill yn unol ag Amcanion Llesiant Corfforaethol y Cyngor.

Yn hollbwysig, mae hefyd yn ystyried defnydd y Cyngor o ofod. Mae hyn yn bwysig oherwydd bod y Polisi yn cael i'w adolygu ar hyn o bryd a bydd Cynllun Rheoli Asedau newydd ar gyfer materion cyfredol yn cael i'w cyhoeddi. Yn benodol, bydd hyn yn golygu cefnogi ffyrdd newydd y Cyngor o weithio, buddsoddi mewn technoleg newydd ac ailaddasu ein hasedau at ddibenion newydd i drawsnewid y ffordd y darperir gwasanaethau i'n cwsmeriaid er mwyn sicrhau gwasanaethau cynaliadwy o ansawdd uchel ar gyfer y tymor hir.

## ADNODDAU DYNOL

Sail llwyddiant Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor yw gweithlu sy'n perfformio'n dda, ac sy'n gweithio mewn ffordd sy'n arloesol, yn ddigidol aeddfed ac yn gynaliadwy. Er mwyn cyflawni hyn, mae gennym **Gynllun Gweithlu**, sy'n amlinellu dull y Cyngor o reoli ei weithlu i ddiwallu ei anghenion darparu gwasanaethau nawr ac yn y dyfodol. Mae'n cynnwys

dadansoddi gofynion gweithlu'r sefydliad, nodi unrhyw fylchau, a chanolbwyntio ar y cynlluniau datblygu i fynd i'r afael â hwy.

Yn ystod 2023, cafodd y Cynllun y Gweithlu yn i'w diweddaru i fynd i'r afael â materion allweddol sy'n cynnwys recriwtio, cadw staff a chynllunio olyniaeth i sicrhau lefelau staffio sefydlog, gweithlu cynaliadwy a bod swyddi gwag yn cael eu llenwi â staff sydd â'r cymwysterau priodol. Yn dilyn cyhoeddi Strategaeth Gorfforaethol newydd 2022-27, bydd y Cynllun Gweithlu wedi'i ddiweddaru yn cyd-fynd â'r Amcanion Llesiant Corfforaethol newydd. Mae hefyd yn cefnogi ffyrdd newydd y Cyngor o weithio a gwireddu'r buddion sy'n cynnwys cynhyrchiant uwch, llai o deithio a gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.

Mae'r Cynllun Gweithlu diwygiedig ar gyfer 2023-2028 yn cydnabod yr hyn a gyflawnwyd dros gyfnod y cynllun blaenorol, y cysylltiad â strategaethau corfforaethol eraill, proffil ein gweithlu ac yn nodi pedair prif flaenoriaeth thematig i fynd i'r afael â'r heriau a nodwyd.

Dyma'r pedair blaenoriaeth thematig a nodir yn y cynllun:

1. Gwireddu potensial
2. Profiad ymgeiswyr a denu doniau
3. Ffyrdd newydd o weithio
4. Ein diwylliant

Cafodd Y Cynllun Gweithlu 2023-28 i'w cyhoeddi yn Medi 2023 ac yn gosod trosolwg o bob thema cyn manylu ar y camau a gymerir i fodloni gofynion y Cynllun. Ar ddiwedd y ddogfen ceir casgliad o fesurau arfaethedig i roi modd monitro cynnydd yn effeithiol dros gyfnod tair blynedd y cynllun.

## LLESIANT GYDOL OES

Mae cynnig cymorth i bob oed a phob angen yn her sylweddol i'r Cyngor gan fod adnoddau yn brin. Mae demograffeg a phroffil y gymdeithas wedi newid yn sylweddol dros y degawd diwethaf gyda chynnydd sylweddol mewn camddefnyddio sylweddau a'i effaith, cynnydd mewn iechyd meddwl gwael a cham-drin domestig ac yn nifer y grwpiau oedran hŷn sy'n byw yng Ngheredigion. O ganlyniad, mae'r galw am rai gwasanaethau wedi cynyddu gan roi mwy o bwysau ariannol ar y meysydd gwasanaeth hynny.

Mae'r Strategaeth Llesiant Gydol Oes yn nodi'r weledigaeth a'r dull gweithredu a ddefnyddir i drawsnewid y ffordd y cefnogir llesiant a diogelwch pobl Ceredigion.

Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth, rydym wedi datblygu model gweithredu Llesiant Gydol Oes sydd wedi'i gynllunio i sicrhau bod pobl yn cael cymorth o'r math a'r lefel gywir, ar yr adeg gywir, er mwyn atal, lleihau neu ohirio'r angen am gymorth parhaus, ac i wneud y mwyaf o annibyniaeth pobl a'u galluogi i aros yn eu cartref eu hunain ac yn eu cymuned eu hunain lle bynnag y bo modd.

## YR ECONOMI

Cyhoeddwyd Strategaeth Economaidd Ceredigion ym mis Mawrth 2021. Mae'n nodi fframwaith ar gyfer gweithredu yn ystod y cyfnod o bymtheng mlynedd hyd at 2035, gan amlinellu sut y byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i sicrhau twf economaidd cryf, cynaliadwy a mwy gwydn i Geredigion, wedi'i greu a'i rannu gan bawb.

Yn y strategaeth sonnir am y camau gweithredu a fydd yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd yn yr economi leol, gan ganolbwyntio ar bedwar prif faes blaenoriaeth sef Pobl, Menter, Lle a Chysylltedd, gyda phob adran yn amlinellu rhai o'r ymyriadau cynnar a ystyriwyd.

Bydd gwaith yn parhau ar ddatblygu'r cynlluniau gweithredu manwl yn ystod 2023/24. Mae llawer o fentrau eisoes wedi'u datblygu a'u gweithredu o dan y cyfeiriad strategol a osodwyd gan y Strategaeth Economaidd. Sicrhawyd swm sylweddol o gyllid allanol gan ystod o sefydliadau rhanddeiliaid allweddol, a bydd hyn yn galluogi gosod y sylfeini ar gyfer twf economaidd pellach. Mae'r Strategaeth yn gyfle cyffrous i adeiladu ar seiliau cadarn Ceredigion a chefnogi economi ffyniannus uchelgeisiol ar gyfer y dyfodol.

## TRECHU CALEDI & THLODI

Mae Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2023-28 yn cynnwys pedwar amcan llesiant ynghyd â thema drawsbynciol ar fynd i'r afael â chaledi a thlodi sy'n cysylltu â phob un o'r amcanion sy'n ymwneud â llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.

Bydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion yn blaenoriaethu mynd i'r afael â chaledi a thlodi mewn ymateb i'r argyfwng costau byw, gan groesgyfeirio â chonglfeini llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Mae'r mecanwaith ar gyfer gweithredu'r thema trechu caledi a thlodi drwy Is-grŵp Tlodi y Bwrdd yn cynnwys rhwydwaith o sefydliadau partner sy'n craffu ar waith y Bwrdd i wella'r gwaith a wneir i fynd i'r afael â thlodi ar draws pob un o'r pedwar amcan.

## GWEITHIO HYBRID

Mae'r Strategaeth Gweithio Hybrid Dros Dro yn egluro'r weledigaeth a'r dull gweithredu a ddefnyddir i sicrhau bod gan y Cyngor weithlu sydd â'r sgiliau a'r gallu i weithio mewn ffordd sy'n addas ar gyfer dyfodol y sefydliad.

Ar ôl ymateb yn dda i'r heriau cychwynnol a achoswyd gan pandemig COVID-19, symudodd y ffocws i sut y gallai'r Cyngor ddysgu o'r profiad ac adeiladu ar hynny. Gan ddefnyddio canfyddiadau ymchwil ac ymgysylltu â staff, datblygwyd y Strategaeth Gweithio Hybrid i nodi'r egwyddorion a'r broses ar gyfer gweithredu model gweithio hybrid sy'n cynnal y lefel uchel ofynnol o ran darpariaeth gwasanaeth tra hefyd yn rhoi mwy o hyblygrwydd i weithwyr wrth gydbwyso eu bywyd gwaith a chartref.

Yn ystod 2023 cynhaliwyd adolygiad o'r trefniadau gweithio a mabwysiadwyd gweithio hybrid fel opsiwn parhaol i gyflogeion. Mae Polisi Gweithio Hybrid i ddisodli'r Polisi Gweithio Hybrid Dros Dro yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

## TAI

Cafodd Strategaeth Dai 2023/28 sydd wedi'i diweddaru i'w cyhoeddi yn Hydref 2023, sy'n gosod allan weledigaeth ac uchelgeisiau tai'r Cyngor ar gyfer y cyfnod pum mlynedd o 2023 i 2028.

Gweledigaeth y strategaeth newydd yw: *bydd digon o letyau addas a chynaliadwy i gwrdd ag anghenion preswylwyr nawr ac yn y dyfodol.* Rydym yn cydnabod y rôl bwysig mae tai yn chwarae ynghyd a'i ddylanwad ar iechyd a llesiant unigolion, teuluoedd a'r gymuned ehangach.

Mae'n ymateb i heriau allweddol, gan gynnwys darlun y dirwasgiad economaidd cenedlaethol, newidiadau deddfwriaethol, yr arferiad o pandemig COVID-19 a'r broblem ffosffadau sy'n effeithio ar ddatblygiad yn y Sir, sydd i gyd yn chwarae ei ran wrth effeithio tai Ceredigion.

Dwy brif flaenoriaeth y Strategaeth newydd yw:

- Cynyddu cyflenwad a gwella amodau tai.
- Cefnogi preswylwyr yn gartrefi a chymunedau ei hunan.

# CIPLUN O WASANAETHAU CEREDIGION

£1.2 MILIWN
RYDYM YN CYNNAL 6 CANOLFAN HAMDDEN
GAN GYNNWYS 1 CANOLFAN LES
A DDENODD 362 MIL O YMWELIADAU YN 2022/23

£5.4 MILIWN
RYDYM YN CEFNOGI 285 O GLEIENTIAID MEWN GOFAL CARTREF

£5 MILIWN
RYDYM YN CYNNAL 2,267 KM O BRIFFYRDD

£4.9 MILIWN
DYMA GYFRAN O GYLLIDEB Y CYNGOR SY'N MYND TUAG AT AWDURDOD TÂN CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

£4 MILIWN
RYDYM YN DARPARU CLUDIANT YSGOL I 3,480 O DDYSGWYR CYMWYS

GOFAL WEDI'I GYNLLUNIO — £1.5 MILIWN

| | |
|---|---|
| 280 | O BLANT YN CAEL GOFAL A CHYMORTH |
| 141 | O BLANT SY'N DERBYN GOFAL |
| 30 | O BLANT AR Y GOFRESTR AMDDIFFYN PLANT |

£4.6 MILIWN
RYDYM YN CEFNOGI 1,567 O BOBL YN Y GYMUNED SY'N PROFI PROBLEMAU IECHYD MEDDWL

YN 2022/23, CEFNOGODD EIN GWASANAETH GOFALWYR A CHYMUNED 3,171 O OFALWYR

RYDYM YN DARPARU CYNLLUN AMDDIFFYN YR ARFORDIR GWERTH £32 MILIWN YN ABERAERON

£715 MIL
I DDARPARU
4 LLYFRGELL Y DREF
2 LLYFRGELL A GEFNOGIR GAN Y GYMUNED

£5.3 MILIWN
4.2 MILIWN O GASGLIADAU GWASTRAFF BOB BLWYDDYN
30 MIL TUNNELL O WASTRAFF YN CAEL EI WAREDU BOB BLWYDDYN
700 O FINIAU GWASTRAFF YN CAEL EU RHEOLI

1,128 O GEISIADAU'R GOFRESTR DAI WEDI'U HASESU
673 O GYFLWYNIADAU DIGARTREFEDD
ION-RHAG 2023

GWNAED 736 O ATGYFEIRIADAU AMDDIFFYN PLANT I'R GWASANAETH DIOGELU

YN 2022/2023, COFNODODD Y GWASANAETH COFRESTRU SIFIL
405
886
296
£45K

£2.3 MILIWN
RYDYM YN CYNNAL A GWEITHREDU DROS 250 O GERBYDAU GAN GYNNWYS 70 O GERBYDAU NWYDDAU TRWM

£6 MILIWN
621 O BOBL YN DERBYN TALIADAU UNIONGYRCHOL I GEFNOGI EU HANNIBYNIAETH A'U HANGHENION GOFAL/CYMORTH

£13.3 MILIWN
246 O WELYAU PRESWYL WEDI'U COMISIYNU'N BREIFAT

£6.4 MILIWN
6 CARTREF GOFAL AWDURDOD LLEOL SY'N DARPARU 165 O LEOLIADAU

MAE EIN RHWYDWAITH GRAEANU YN CWMPASU 464KM O FFYRDD Y SIR 136KM O GEFNFFYRDD

£570 MIL
400+ O BOBL IFANC YN MANTEISIO AR GLYBIAU IEUENCTID, GWEITHGAREDDAU A CHYMORTH
253 O BOBL IFANC YN DERBYN CYMORTH Â FFOCWS GAN WEITHWYR IEUENCTID

£1 MILIWN
1,150 O GAMAU GORFODI DIOGELU'R CYHOEDD WEDI'U CYMRYD
354 O SEFYDLIADAU BWYD RISG UCHEL WEDI'U HAROLYGU

£246 MIL
RYDYM YN RHEOLI 3 HARBWR YN ABERAERON ABERYSTWYTH CEINEWYDD

CEFNOGWYD 48 O FANNAU CYNNES LEDLED CEREDIGION YN YSTOD GAEAF 2022/2023
AR GYFER ~1760 O BOBL, A GYDA CHYMORTH 260 O WIRFODDOLWYR

£140 MIL
RYDYM YN CYNNAL Y GOFRESTR ETHOLIADOL O 56,000 O BLEIDLEISWYR

MAE'R GWASANAETH I GWSMERIAID YN DELIO Â
96,000 O ALWADAU AC YN ATEB
22,000 O E-BYST BOB BLWYDDYN

783 O GEISIADAU TRWYDDEDU WEDI'U PROSESU

£175 MIL
RYDYM YN DARPARU CYMORTH YN Y GYMUNED I 236 O BOBL SY'N PROFI PROBLEMAU O RAN CAMDDEFNYDDIO SYLWEDDAU

£912 MIL
MAE GENNYM 2 UNED CYFEIRIO DISGYBLION
252 O DDISGYBLION YN DERBYN CYMORTH WEDI'I DARGEDU GAN FENTORIAID
12 MENTOR YN Y TÎM CYRHAEDDIAD AC YMGYSYLLTU
6 CWNSELYDD YSGOL

£47.3 MILIWN
RYDYM YN DARPARU 43 O YSGOLION GAN GEFNOGI 9,470 O DDISGYBLION GYDA 620 O ATHRAWON CYMWYS

6,559 O OLEUADAU STRYD WEDI'U NEWID I LED
76 O FANNAU GWEFRU CERBYDAU TRYDAN WEDI'U GOSOD
20.5% O OSTYNGIAD MEWN ALLYRIADAU CARBON ERS 2017/18

O RAN GOFAL MAETH, MAE GENNYM..
43 O LEOLIADAU PRIF FFRWD
26 O LEOLIADAU GOFAL GAN BERTHYNAS
28 O LEOLIADAU GAN ASIANTAETH ANNIBYNNOL

£259 MIL
MAE GAN AMGUEDDFA CEREDIGION MWY NA 60,000 O WRTHRYCHAU YN EI CHASGLIADAU

£328 MIL
RYDYM YN CYNNAL 2,500 KM O HAWLIAU TRAMWY


# BLE WNAETHOM NI BLAENORIAETHU EIN CYLLIDEB YN 2023/24?

Mae Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn nodi sut y mae'r Cyngor yn cynllunio ei gyllideb bob blwyddyn a thros y tair blynedd nesaf. Mae'n daroaru'r adnoddau a fframwaith ariannol i sicrhau bod modd cyflawni'r Amcanion Llesiant Corfforaethol, wrth hefyd sicrhau cyllideb cytbwys sydd wedi setio ar sail blynyddol a bod yr heriau cyllid a risgiau wedi'i amlygu.

Mae gan Geredigion hanes o osod a chyflawni cyllideb gytbwys yn ogystal â chael bil iechyd glân gan Archwilio Cymru. Ar ddiwedd 2023/24 roedd y Cyngor mewn sefyllfa ariannol wydn gyda mantolen gref a nifer o flaenoriaethau allweddol eisoes wedi'u cyflawni yn ystod y flwyddyn.

Fodd bynnag, mae pob awdurdod lleol ar draws Cymru yn wynebu heriau ariannol sylweddol a ddaw yn sgil COVID-19, yr argyfwng costau byw ac yn fwy diweddar dychwelyd i galedi, sydd ynghyd â galw cynyddol am wasanaethau fel gofal cymdeithasol, yn gosod cryn dipyn. straen ar Gynghorau ledled y wlad. Cawsom gyllid is na'r disgwyl gan Lywodraeth Cymru ac mae gennym y cynnydd lleiaf ar draws Cymru fesul pen o'r boblogaeth, sy'n golygu y bydd angen i'r Cyngor addasu, rheoli gostyngiadau yn y gyllideb a dod o hyd i ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau er mwyn cynnal gwasanaethau'r Cyngor yn eu ffurf bresennol.

Mae'r siart a ganlyn yn nodi gwariant y Cyngor ar wasanaethau yn 2023/24.




| | | |
|---|---|---|
| Ysgolion & Dysgu Gydol Oes* | **31%** | (£55.99m) |
| Porth Cynnal | **20%** | (£36.00m) |
| Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol | **11%** | (£19.12m) |
| Cyllid a Chaffael | **9%** | (£16.63m) |
| Porth Gofal | **8%** | (£14.92m) |
| Grŵp Arweiniol | **4%** | (£7.38m) |
| Cyswllt Cwsmeriaid | **3%** | (£6.19m) |
| Ardoll, Premiwm Treth Cyngor a Chronfa | **3%** | (£5.10m) |
| Gwasanaethau Democrataidd | **3%** | (£4.70m) |
| Economi ac Adfywio | **2%** | (£3.97m) |
| Porth Cymorth Cynnar | **2%** | (£3.75m) |
| Pobl a Threfnidiaeth | **1%** | (£2.39m) |
| Polisi, Perfformiad & Diogelu'r Cyhoedd | **1%** | (£2.24m) |
| Cyfreithiol a Llywodraethu | **1%** | (£1.69m) |

** Gan gynnwys cyllidebau dirprwyedig ysgolion*

# EIN PERFFORMIAD 2023/24

### Sut yr ydym yn Asesu ac yn Meincnodi ein Perfformiad

Mae’r Cyngor yn monitro ac yn meincnodi ei pherfformiad yn rheolaidd fel rhan o’i threfniadau rheoli perfformiad cyfredol. Mae meincnodi perfformiad yn cyfrannu at ein heffeithiolrwydd ac effeithlonrwydd wrth alluogi ni i adnabod arferion gorau a chyfleoedd i wella.

Yn **fewnol** rydym yn monitro cyflawni ein cynlluniau busnes ar gyfer y deuddeg gwasaneth, a cyflawni ein Amcanion Llesiant Corfforaethol.

Yn **allanol**, rydym yn defnyddio nifer o ffynonellau ar gyfer meincnodi rheolaidd. Mae rhan yn Ddangosyddion i Arian Allweddol, Dangosyddion Allweddol y Cyngor a Phroffil Perfformiad a gynhyrchwyd yn annibynnol ar gyfer Awdurdodau Lleol.

Mae’r Cyngor hefyd yn un o nifer o fyrddau cyhoeddus yng Ngheredigion sydd yn cyfrannu at wella llesiant yn ein cymunedau. Er mwyn mesur ein cyfraniad tuag at y **canlyniadau mwy eang,** rydym yn adolygu ein cyfraniad tuag at y Mynegai Llefydd Llewyrchus Cymru a’r Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol. Mae’r tudalennau dilynol yn darparu crynodeb o’r canlyniadau diweddaraf o bob un ffynhonnell a’r dolennau er mwyn chwilio allan mwy.

### Perfformiad Cynllun Busnes

Mae ein perfformiad cynllun busnes yn cael ei monitro triwyr Bwrdd Perfformiad, ac ar sail gyfredol, gan y Grŵp Arweiniol. Ar ddiwedd 2023/24 mae ein perfformiad yn dangos bod 71% o’n mesurau ar darged a 72% o’n hamcanion naill ai’n gyflawn neu’n unol â’r amserlen (gweler y siartiau isod). Mae'r mesurau a'r amcanion oddi ar y targed yn cael eu craffu'n fanylach gan y Bwrdd Perfformiad a'r Grŵp Arweiniol.


### Cyflawni ein Amcanion Llesiant Corfforaethol

Rydym hefyd yn monitro cyflawni ein Hamcanion Llesiant Corfforaethol yn barhaus. Mae pob un amcan wedi’i chefnogi gan gyfles o nodau neu “tasgau” ar draws gwasanaethau’r Cyngor sydd yn cyfrannu at gyflawni’r amcan a gwella canlyniadau.


Mae’r canlyniadau o 2023/24 yn dangos bod:

- 55% (neu 104) tasg wedi’i chwblhau sydd wedi cefnogi cyflawni’r nodau, gyda 18% neu 34 nod ymhellach ar y gweill ond ar y trywydd ar ddiwedd y flwyddyn.
- Mae hyn yn cynrychioli 73% o’r tasgau sydd nai llai wedi cwblhau neu ar y trywydd, sydd llawer yn uwch na’r 59% o’r flwyddyn flaenorol.
- Roedd hefyd 43 tasg ar y gweill ond ychydig tu ol yr amserlen ar ddiwedd y flwyddyn. Bydd rhain yn trosglwyddo i’r flwyddyn newydd.
- Roedd 6 tasg bellach heb gychwyn oherwydd rhai heriau megis newid i flaenoriaethau, deddfwriaethau neu tynnu nol cyllid. Bydd yr achosion yma yn cael i’w adolygu a bydd tasg arall yn cael i’w setio neu i’w diddymu.

Mae'r siart isod yn amlinellu cynnydd yn ystod y flwyddyn. Mae cynnydd cyffredinol wedi bod yn dda gyda’r rhan fwyaf o’r tasgau’n cael eu cyflawni, er gwaethaf yr heriau sylweddol ar draws y sector llywodraeth leol.




- Ar targed: **99** (71%)
- Oddi ar y targed gan llai na 15%: **18** (13%)
- Oddi ar y targed gan mwy na 15%: **22** (16%)





- Ar amser / wedi cwblhau: **163** (72%)
- Ar y gweill ond ar ei ôl hi: **53** (24%)
- Heb cychwyn / heb cwblhau: **8** (4%)

#### AMCAN LLESIANT CORFFORAETHOL CYNNYDD YN YSTOD 2023/24

| Wedi Cwblhau (104 tasg) | Ar amser (34 tasg) | Ar ei hôl hi (43 tasg) | Heb cychwyn (6 tasg) |
|---|---|---|---|
| 55% | 18% | 23% | 3% |

#### CYNNYDD YN ÔL AMCAN 2023/24



# MEINCNODI

## Sut Mesuriadau Perfformiad Allweddol

Mae’r Cygnor yn defnyddio amrywiaeth o ddangosyddion perfformio i fonitro pa mor dda mae ein gwasanaethau yn perfformio wrth gyrraedd anghenion defnyddwyr gwasanaeth ac er mwyn mesur effeithlonrwydd a gwerth am arian.

Maent yn mesur perfformiad ar draws ystod eang o wasanaethau’r Cyngor gan gynnwys: rheolaeth ariannol, addysg, tai, gwasanaethau hamdden, rheolaeth gwastraff a glanhau strydoedd.

## Gwerth am Arian


Gall Gwerth am Arian cael i’w diffinio fel y perthynas rhwng yr Economi, Effeithiolrwydd ac Effeithlonrwydd. Effeithiolrwydd ac Effeithlonrwydd. Mae’n term sy’n cael i’w denfyddio i asesu os bod y Cyngor wedi cael y budd mwyaf o'r nwyddau a'r gwasanaethau y mae'n eu caffael ac yn eu darparu o fewn cyfyngiadau'r adnoddau cyfyngedig sy'n wynebu'r Cyngor.


Er enghraifft, mae dau fesur effeithlonrwydd allweddol, sef casglu Treth y Cyngor ac ardrethi Annomestig (busnes), yn parhau i fod yn uwch na'r cyfartaledd gyda 96.7% o treth cyngro yn cael i’w casglu a 98.2% o adrethi annomestig yn cael i’w casglu.


Mae’r Dreth Gyngor Band ‘D’ gyfartalog, a ddefnyddir yn aml fel cymharydd rhwng gwahanol Siroedd, yn dangos bod cyfraddau presennol ychydig yn uwch na’r cyfartaledd cenedlaethol ledled Cymru sef £2,104 tra bod ein harbedion cronnol a wnaed dros y deng mlynedd diwethaf yn gwneud cyfanswm o £60m drwy ailstrwythuro, prosiectau ailgynllunio a thrawsnewid gwasanaethau, gyda £8.8m wedi’i cyflawni yn ystod 2023/24.


Roedd gwariant alldro refeniw y pen yn £3,135 am y flwyddyn lawn ddiwethaf a gwariant a gyllidebwyd ar gyfer y flwyddyn gyfredol 2024/25 yn £3,228. Gwariant alldro refeniw yw'r costau gweithredu o ddydd i ddydd sy'n hanfodol i redeg y sefydliad.

Roedd y dasg o osod cyllideb gytbwys yn 2023/24 yn heriol dros ben ond yn gyflawniad sylweddol i dderbyn cytundeb unfrydol.









### ARBEDION EFFEITHLONRWYDD A WNAED



# MEINCNODI 2023/24

## Proffil Perffmiad Awdurdod Lleol

Yn ystod 2023/24 datblygwyd Data Cymru offeryn meincnodi newydd i gefnogi awdurdodau lleol i deal ei pherfformiad cyffredinol yn well.

Enw'r offeryn newydd ydy'r Proffil Perfformiad Awdurdod **Lleol** ac mae'n cynnwys detholiad o 34 mesur perfformiad allweddol ar draws 11 thema, ynghyd ag amrywiaeth o ddata cyd-destunol i helpu i osod yr olygfa.

Mae'n meincnodi holl berfformiad awdurdodau lleol gyda'r cyfartaledd cenedlaethol, chwartelau ac efo canlyniadau awdurdodau arall i sefydlu ble mae'n perfformio yn well a ble sydd angen gwella. Mae'r canlyniadau yn cael i'w ddiweddaru yn barhaol fel bod modd i'r offeryn darparu ciplun o unrhyw bwynt mewn amser.

Mae'r canlyniadau ym mis Medi 2024 yn dangos bod Ceredigion yn perfformio'n dda ar draws y set hon o fesurau allweddol a'i fod yn un o'r awdurdodau sy'n perfformio orau yn genedlaethol yn ôl y dystiolaeth ganlynol:

- Ceredigion sydd â'r nifer uchaf ar y cyd o fesurau perfformiad yn y chwartel canol uchaf ac uchaf gyda 25 allan o 34 (gweler y siart isod).
- Ceredigion sydd â'r gyfran uchaf o'i mesurau yn y chwartel canol uchaf ac uchaf yn genedlaethol, sef 73.5%.
- Ceredigion sydd â'r ail nifer uchaf o fesurau perfformiad yn y chwartel uchaf gyda 13.
- Mae perfformiad Ceredigion hefyd wedi gwella ar y 21 mesur (neu 65.6%) yn y chwartel canol uchaf ac uchaf o'r canlyniadau blaenorol.
- Yn gyffredinol, mae gan Geredigion 13 o fesurau yn y chwartel uchaf, 12 yn y chwartel canol uchaf, 2 yn y chwartel canol isaf a 7 yn y chwartel isaf fel y dangosir yn y siart isod.


Er gwaethaf yr heriau sylweddol y mae Ceredigion yn eu hwynebu drwy fod yn un o'r awdurdodau sy'n cael y cyllid isaf, ynghyd â'r heriau sy'n ymwneud â gwledigrwydd a phoblogaeth wasgaredig, mae'r canlyniadau hyn yn darparu tystiolaeth ddefnyddiol bod y Cyngor nid yn unig yn perfformio'n dda o gymharu ag awdurdodau ledled Cymru, ond hefyd yn gwneud defnydd effeithiol o'r adnoddau sydd ar gael iddo. Dyma ddwy o brif themâu Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) sef bod y Cyngor yn 'arfer ei swyddogaethau'n effeithiol' ac yn 'defnyddio ei adnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol'.

Mae'r mesurau sy'n is na'r cyfartaledd ac sy'n disgyn o fewn y chwartel canol isaf ac isaf yn cael eu harchwilio'n fanylach gan y Grŵp Arweiniol a'r Bwrdd Perfformiad.


Bydd yr offeryn Proffil Perfformiad yn parhau i gael ei ddatblygu, felly bydd yr ystod o fesurau sydd wedi'u cynnwys a'r swyddogaeth yn gwella ymhellach yn y misoedd nesaf a bydd yn rhan annatod o drefniadau rheoli perfformiad y Cyngor.

Sylwch fod cyfyngiadau ar ba ddata y gellir eu cyhoeddi o'r offeryn, felly dim ond Ceredigion a nodir yn y siart isod ar y chwith.

**NIFER Y MESURAU YN Y CHWARTER CANOL UCHAF AC UCHAF**




**NIFER O FESURAU YN ÔL CHWARTER: CEREDIGION**



# CYFRANNU AT LLEOEDD FFYNIANNUS A LLESIANT

## Mynegai Llefydd Llewyrchus Cymru

Mae'r Mynegai Llefydd Llewyrchus Cymru yn mesur pa mor dda mae ardaloedd yn perfformio wrth hybu amodau ar gyfer llesiant teg a chynaliadwy.

Cafodd y mynegai i'w datblygu mewn partneriaeth rhwng Data Cymru a'r Canolfan Llefydd Llewyrchus.

Mae'r mynegai wedi'i ddylunio i gefnogi'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau mewn ardaloedd lleol i wella bywydau ar y ddaear ac i helpu symud y ffocws tuag at fesur beth sy'n bwysig.

Mae Llefydd Llewyrchus Cymru yn offeryn ar sail arfal. Mae wedi'i ddylunio i cael ei defnyddio gan y rhai sydd efo diddordeb mewn llefydd lleaol i archwilio cryfderau ac anghenion lleol, i help arwain penderfyniadau ac i sicrhau blaenoriaethau o gwmpas fframwaith cynnydd rhanedig.

Mae 51 o ddangosyddion sy'n ffurfio'r mynegai ar draws tri thema neu "parthau" o amodau Lleol, Cynaliadwyedd a Cydraddoldeb. Nid didn't yn dangosyddion perfformiad yn benodol i Gyngor Sir Ceredigion, yn lle maent yn dangosyddion ble mae'r holl byrddau cyhoeddus yn cyfrannu at.


Mae'r sgoriau a gynhyrchwyd gan y mynegai yn cael i'w cyfwlynio ar raddfa rhwng 0 a 10 gyda 5 yn cynrychioli cyfartaledd Cymru. Mae sgor o 10 yn dynodi amodau llesiant arbennig o dda a sgor o 0 yn dynodi amodau llesiant gwael iawn.

Nid dyma yw defnydd cynradd y mynegai, ond mae'r mynegai yn darparu cymariaethau rhwng ardaloedd. Mae'r canlyniadau diweddaraf o 2022 yn dangos bod:

- Ceredigion yn perfformio ychydig yn uwch na'r cyfartaledd ar y thema **Amodau Lleol** gyda sgôr o 5.28.
- Ceredigion yn perfformio ychydig yn is na'r cyfartaledd ar y thema **Cynaliadwyedd** gyda sgôr o 4.56.
- Ceredigion yn perfformio yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd ar y thema **Cydraddoldeb** gyda sgôr o 6.47, sef un o'r canlyniadau uchaf yn genedlaethol.

Mae'r siart isod yn fangos sgorau Ceredigion ar gyfer pop un o'r tri pharth i gymharu â chyfartaledd Cymru.

### MYNEGAI LLEOEDD FFYNIANT CEREDIGION




## Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol Cymru

Mae'r 50 Dangosydd Llesiant Cenedlaethol wedi'i dylunio i gynrychioli'r canlyniadau i Gymru a'i phobl a fydd yn helpu arddangos cynnydd tuag at y 7 Nod Llesiant Cenedlaethol.

Nid ydynt yn ddangosyddion perfformiad penodol i'r Cyngor, maent yn ganlyniadau ledled y sit, mae'r Cyngor, ynghyd a chyrff cyhoeddus arall yn cyfrannu at. Fodd bynnag, rydym yn adolygu cyfraniad Ceredigion tuag at y nodweddion yma yn gyfnodol. Cafodd yr ymarfer diweddar o'r math yma i'w gynnal yn Fehefin 2024. Mae data ar gael ar lefel yr awdurdod lleol ar gyfer 39 o'r dangosyddion yma. Mae'r canlyniadau yn dangos bod:


- Ceredigion yn perfformio yn well na'r cyfartaledd yn 25 (neu 64%) o'r dangosyddion yma.
- Ceredigion yn perfformio'r un peth a'r cyfartaledd ar 2 (neu 5%) o'r mesuriadau.
- Mae Ceredigion yn perfformio'n is na'r cyfartaledd mewn 12 (neu 31%) o'r mesurau.

Mae hyn yn awgrymu bod Ceredigion yn gwneud cyfraniad positif tuag at y nodau llesiant cenedlaethol.

Mae'r Adroddiad Llesiant Cymru flynyddol yn darparu diweddariad ar y cynnydd a waned yng Nghymru tuag at gyflawni'r 7 Nod Llesiant Cenedlaethol ac mae'n tynnu sylw at ganlyniadau'r dangosyddion cenedlaethol diweddaraf.

Mae'r siart uchod ar y dde yn crynhoi cyfraniad Ceredigion tuag at y Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol.

### CYFRANIAD CEREDIGION AT Y DANGOSYDDION LLESIANT CENEDLAETHOL




## Cynlluniau i'r Dyfodol

Mae'r Cyngor yn gweithio'n rhagweithiol gyda Data Cymru a phob un o'r 21 o gynghorau eraill ledled y wlad i gefnogi datblygiad yr Offeryn Data Hunanasesu newydd. Mae'r Offeryn, a ddatblygwyd gan Data Cymru, yn darparu mynediad i ystod eang o ddata perfformiad ar draws gwasanaethau llywodraeth leol.

Bydd gwaith pellach yn digwydd yn ystod 2024 a 2025 i gryfhau'r mesurau a llenwi bylchau mewn data megis asesu gwerth am arian, rheoli asedau ac ymgynghori.

Dilynwch y dolenni yn yr adran yma i chwilio allan mwy am y ffyrdd gwahanol o feincnodi perfformiad Cyngor Sir Ceredigion yn benodol a'r sir ehangach o Geredigion.


**Mae'r tudalennau dilynol yn darparu detholiad o fesuriadau perfformiad allweddol y Sir a'r Gymuned ehangach.** ▶

# MESURIADAU PERFFORMIAD ALLWEDDOL

## Dysgu Cymunedol

Nifer y dysgwyr mewn dysgu cymunedol awdurdodau lleol fesul 1,000 o'r boblogaeth gan gynnwys dysgu a ddarperir mewn cydweithrediad â sefydliadau Addysg Bellach (2022/23)


•••••• Cymru i gyd (5.25)




## Ysgolion Cyfrwng Cymraeg

Canran yr ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg (2022/23


•••••• Cymru i gyd (29.2%)




## Cwynion a Dderbyniwyd gan yr Awdurdod Lleol

Nifer y cwynion a dderbyniwyd fesul 1,000 o drigolion (2022/23)


•••••• Cymru i gyd (0.33)




## Mewn Addysg, Hyfforddiant neu Gyflogaeth

Pobl ifanc Blwyddyn 13 sy'n gadael ysgol mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth (2023)


•••••• Cymru i gyd (92.2%)




## Iaith Gymraeg

% y disgyblion a addysgodd y Gymraeg fel iaith gyntaf (2023/24)


•••••• Cymru i gyd (21.7%)




## Treth y Cyngor

Cyfradd Treth y Cyngor Band D gyfartalog (2024/25)


•••••• Cymru i gyd (£2,024)




## Ddim mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant

Gadawyr ysgol Blwyddyn 13 y gwyddys nad ydynt mewn Addysg, Hyfforddiant na Chyflogaeth (2023)


•••••• Cymru i gyd (3.6%)




## Cwnsela Ysgol

Nifer y plant a phobl ifanc a gafodd gwnsela yng Nghymru fesul 1,000 o'r boblogaeth 10-18 oed (2022/23)


•••••• Cymru i gyd (37.1)




## Casglu Treth y Cyngor

Canran Treth y Cyngor a gasglwyd (2022/23)


•••••• Cymru i gyd (96.0%)



## Trethi Annomestig

Cyfraddau casglu ardrethu annomestig (2023/24)


•••••• Cymru i gyd (96.5%)




## Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl

Nifer yr anheddau a gafodd eu gwella fesul 10,000 o anheddau (2022/23)


•••••• Cymru i gyd (39.51)




## Casglu Gwastraff

Y cilogramau o wastraff cartrefi a gynhyrchwyd fesul unigolyn


•••••• Cymru I gyd (172)




## Atal Digartrefedd

% o deuluoedd sydd wedi'u hatal rhag bod yn ddigartref anghyfreithlon (2022/23)


•••••• Cymru i gyd (59.0%)




## Cynllunio

Ceisiadau Cynllunio wedi eu Penderfynu o fewn Amserlenni Statudol ac a Gytunwyd (Hydref i Rhagfyr 2023)


•••••• Cymru i gyd (84.9%)




## Ailgylchu

Canran o wastraff a gafodd ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio (2022/23)


•••••• Cymru i gyd (65.7%)




## Rhyddhad Digartrefedd

% yr aelwydydd a gafodd ryddhad llwyddiannus o ddigartrefedd (2022/23)


•••••• Cymru i gyd (30.3%)




## Cynllunio

Amser ar gyfartaledd mewn dyddiau i benderfynu ar geisiadau cynllunio (Hydref i Ragfyr 2023)


•••••• Cymru i gyd (115)




## Tipio Anghyfreithlon

Nifer yr achosion o dipio anghyfreithlon a gofnodwyd fesul 1,000 o'r boblogaeth (2022/23)

•••••• Cymru i gyd (12.7)




# MESURIADAU Y GYMUNED EHANGACH

## Gwerth Ychwanegol Crynswth

Gwerth ychwanegol crynswth y pen (cytbwys) (2021)


•••••• Cymru i gyd (£23,804)
•••••• Rhanbarth De Orllewin Cymru (£21,836)
•••••• Rhanbarth Canolbarth Cymru (£19,888)




## Cyfradd Cyflogaeth

Cyfradd cyflogaeth Ebrill 2023 i Mawrth 2024


•••••• Cymru i gyd (73.5%)




## Goroesi Busnes

Canran goroesi 2 flwyddyn o fentrau newydd yn 2020 (Demograffeg Busnes 2022, ONS)


•••••• Cymru i gyd (68.2%)




## Gwerth Ychwanegol Crynswth

Newid mewn Gwerth Ychwanegol Crynswth (cytbwys) 2018 i 2022


•••••• Cymru i gyd (14.4%)
•••••• Rhanbarth De Orllewin Cymru (13.4%)
•••••• Rhanbarth Canolbarth Cymru (13.6%)




## Diweithdra

Cyfradd ddiweithdra Ebrill 2023 i Mawrth 2024


•••••• Cymru i gyd (3.5%)




## Goroesi Busnes

Canran goroesi 5 flwyddyn o fentrau newydd yn 2017 (Demograffeg Busnes 2022, ONS)


•••••• Cymru i gyd (37.3%)




## Cyfradd Gweithgaredd Economaidd

Cyfradd Gweithgarwch Economaidd (Ebrill 2023 i Fawrth 2024)


•••••• Cymru i gyd (76.2%)




## Cyfradd Geni Busnes

Cyfradd geni net mentrau fesul ardal awdurdod lleol (Demograffeg Busnes 2022, ONS)

•••••• Cymru i gyd (430)
•••••• Rhanbarth Canolbarth Cymru (5)
•••••• Rhanbarth De Orllewin Cymru (50)




## Enillion


Tâl wythnosol gros i bob gweithiwr amser llawn yn ôl man preswylio (£)

•••••• Cymru




## Gwirfoddoli

% y bobl sy'n gwirfoddoli'n ffurfiol ac yn anffurfiol (2022/23)





## Sgiliau a Chymwysterau

Canran yr oedolion o oedran gweithio sydd wedi cymhwyso i Lefel 4 neu uwch (Y flwyddyn yn diweddu Rhagfyr 2023)





## Nifer yr Hawlwyr 18-24

Cyfrif hawlwyr fel cyfran o boblogaeth breswyl yr ardal 18-24 oed (Mehefin 2024)





## Sgiliau a Chymwysterau

Canran yr oedolion o oedran gweithio sydd wedi cymhwyso i Lefel 2 neu uwch (Y flwyddyn yn diweddu Rhagfyr 2023)





## Sgiliau a Chymwysterau

% yr oedolion o oedran gweithio heb unrhyw gymwysterau (Y flwyddyn yn diweddu Rhagfyr 2023)





## Aelwydydd Heb Waith

% yr aelwydydd sy'n ddi-waith ac sydd ag o leiaf un person rhwng 16 a 64 oed (Ionawr i Ragfyr 2022)





## Sgiliau a Chymwysterau

Canran yr oedolion o oedran gweithio sydd wedi cymhwyso i Lefel 3 neu uwch (Y flwyddyn yn diweddu Rhagfyr 2023)





## Nifer yr Hawlwyr

Cyfrif hawlwyr fel cyfran o ardal boblogaeth breswyl 16-64 oed (Mehefin 2024)




## Ail Gartrefi

Canran yr anheddau sy'n destun premiwm gwag hirdymor / ail gartref (2024/25)




# MESURIADAU Y GYMUNED EHANGACH

### Boddhad gyda'r Ardal Leol

Canran yr oedolion (16+) sy'n fodlon â'u hardal leol fel lle i fyw (Arolwg Cenedlaethol Cymru 2021/22)


•••••• Cymru i gyd (88.6%)




### Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol

Galw cudd am unrhyw chwaraeon a gweithgaredd hamdden corfforol (2022/23)


•••••• Cymru i gyd (27%)




### Democratiaeth Leol

% y bobl a bleidleisiodd yn etholiadau cyngor Mai 2022 (2022/23


•••••• Cymru i gyd (60%)




### Iechyd Cyffredinol

Canran y boblogaeth sydd mewn iechyd da neu dda iawn (ONS Cyfrifiad 2021)


•••••• Cymru i gyd (78.6%)




### Amgueddfeydd

% y trigolion sydd wedi ymweld ag amgueddfa yn y deuddeg mis diwethaf (2022/23)


•••••• Cymru i gyd (31.5%)




### Cydlyniant Cymunedol

% y bobl sy'n cytuno eu bod yn perthyn i'r ardal; bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda; a bod pobl yn trin ei gilydd â pharch (2021/22)


•••••• Cymru i gyd (64.5%)




### Ymddygiadau Iach

Canran y bobl sydd â dau neu fwy o ymddygiadau iach (2021/22 & 2022/23)


•••••• Cymru i gyd (92.6%)




### Gwneud Penderfyniadau

% y bobl sy'n teimlo y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol (2021/22)


•••••• Cymru i gyd (29.7%)




### Cludiant


% yr aelwydydd sydd â mynediad at 1 car neu fan neu fwy (Census 2021)

•••••• All Wales (80.5%)




## Amseroedd Teithio

% y trigolion sy'n teithio 20km neu fwy i'r gwaith (2021)





## Cymhareb Fforddiadwyedd Tai

Cymhareb enillion ar sail pris tŷ i breswylfa (2023)





## Incwm Gwaredu Crynswth

Incwm gwario gros aelwydydd y pen (£)
(2022 dros dro)





## Teithio llesol

% y bobl sy'n cerdded 10+ munud neu'n beicio o leiaf unwaith yr wythnos fel cyfrwng teithio (2021/22)





## Iaith Gymraeg

Gallu pobl tair oed neu hŷn i siarad Cymraeg (Cyfrifiad 2021)





## Cysylltedd Digidol

Argaeledd Band Eang Ffibr Llawn (Ym mis Awst 2024





## Adeiladu Tai

Cyfanswm yr anheddau newydd a gwblhawyd fesul 1,000 o'r boblogaeth (2023/24)




## Amddifadedd Materol

% yr holl oedolion difreintiedig (2022/23)




**Ffynonellau:**

Mae mesurau perfformiad yn ddata agored ac wedi'u casglu o'r ffynonellau canlynol:

- StatsCymru
- Swyddfa Ystadegau Gwladol
- NOMIS
- Arolwg Cenedlaethol Cymru
- Thinkbroadband

Figures per *1,000* population and per *10,000* dwellings are calculated using Amcangyfrifon Poblogaeth o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a Amcangyfrifon Stoc Anheddau oddi wrth Llywodraeth Cymru.

Yr holl ddata a gyflwynir yw'r canlyniadau diweddaraf sydd ar gael ym mis Gorffennaf 2024.

# Dweud eich dweud

Rydym yn croesawu eich barn ar yr adroddiad hwn a pherfformiad y Cyngor. Cysylltwch unrhyw bryd.

## Cysylltwch â Ni

Y ffordd orau i gysylltu â ni yw drwy gofrestru neu lofnodi i mewn i'ch **Fy Nghyfrif.**
Mae **Fy Nghyfrif** yn eich galluogi i godi ymholiadau a monitro cynnydd ac mae hefyd yn darparu llawer o nodweddion eraill sy'n eich helpu i ryngweithio â ni.
Ewch i https://www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/fy-nghyfrif/


**Post:**

Cyngor Sir Ceredigion
Canolfan Rheidol
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3UE

**Ffôn :**
01545 570881

**By E-Mail:**
clic@eredigion.gov.uk

**Or visit us on the web:**
www.ceredigion.gov.uk


Mae Fersiwn **Testun Plaen** neu Fersiwn **Hawdd ei Ddarllen** o'r ddogfen yma ar gael o Gyngor Sir Ceredigion

